# Crynodeb o Weithdai Cynllunio Senarios Ymadael â'r UE

Papur gan yr Is-weithgor a sefydlwyd gan Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i edrych ar Dystiolaeth a Senarios



## Crynodeb gweithredol

Mae'r papur hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol Is-weithgor y Ford Gron ar Dystiolaeth a Senarios. Mae'n un o is-grwpiau'r Grŵp Bord Gron ar Brexit, fforwm a sefydlwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pob rhan o'r portffolio. Y nod yw cydweithio i fynd i'r afael â Brexit.

Mae ymadael â'r UE yn dod a chryn ansicrwydd i'w ganlyn, ac yn arwain at risgiau a chyfleoedd ar draws nifer o sectorau, gan gynnwys bwyd, pysgodfeydd, ffermio, coedwigaeth a'r amgylchedd, sydd i gyd yn dod o dan bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. Mae Is-weithgor Tystiolaeth a Senarios y Grŵp Bord Gron ar Brexit, a sefydlwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, wedi bod yn gweithio ar nifer o senarios gwahanol ac yn eu cloriannu. Nid ceisio proffwydo beth fydd yn digwydd yw diben y gwaith hwn, ond yn hytrach, mynd ati i glustnodi'r ffactorau a allai effeithio ar sectorau allweddol, ac i nodi sut y mae'r sectorau'n dibynnu y naill ar y llall, ac ystyried yr effeithiau ehangach ar yr amgylchedd ac ar gymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol y gwaith dadansoddi hwn, a wnaed ar y cyd â rhanddeiliaid o bob un o'r sectorau hyn.

Mae llawer o'r gwaith wedi'i seilio ar dystiolaeth, ond o ystyried yr ansicrwydd am wir ganlyniadau Brexit, mae'n anochel bod y canlyniadau mewn rhai o'r meysydd yn seiliedig ar farn arbenigwyr. O'r herwydd, dim ond "cipolwg" a'r amcangyfrif gorau o'r hyn a allai ddigwydd yw'r canlyniadau posibl a amlinellir.

### Y senarios

Dros nifer o fisoedd, datblygwyd pum senario a oedd yn seiliedig ar 3 senario masnachu posibl; y senarios dan sylw oedd gweithredu yn unol â rheolau arferol Sefydliad Masnach y Byd (WTO), Cytundeb Masnach Rydd (FTA) rhwng yr UE a'r DU, a dyhead Llywodraeth y DU i gael mynediad llawn i'r Farchnad Sengl a FTAs newydd gyda thrydydd gwledydd. Aed ati hefyd i ystyried ffactorau newidiol a allai ddylanwadu ar gyllid, trefniadau mewnfudo a mynediad cystadleuwyr rhyngwladol i'r farchnad. Dyma'r senarios:

**Dim cytundeb ond cyllid ar gael**
Masnachu o dan reolau'r WTO, cadw'r lefelau cyllid fel y maent ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU yn darparu lefelau cyllid a fydd yn cyfateb i'r cyllid sy'n dod oddi wrth yr UE ar hyn o bryd, dadreoleiddio yn Lloegr, cyfyngiadau llym ar fewnfudo.

**Dim cytundeb a dim cyllid ar gael**
Masnachu o dan reolau'r Sefydliad Masnach y Byd WTO, cyllid i Gymru yn cael ei gyfrifo yn unol â Fformiwla Barnett (ond gryn dipyn yn llai), cyfyngiadau llym ar fewnfudo a gwledydd eraill yn cael mwy o fynediad i farchnad y DU.

**Cytundeb gyda'r UE a chyllid ar gael**
Masnachu rhwng yr UE a'r DU ar sail FTA, cadw'r lefelau cyllid fel y maent ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU yn darparu lefelau cyllid a fydd yn cyfateb i'r cyllid sy'n dod oddi wrth yr UE ar hyn o bryd, rhai cyfyngiadau ar fewnfudo.

**Cytundeb gyda'r UE ond dim cyllid**
Yr UE a'r DU yn masnachu ar sail FTA, cyllid i Gymru yn cael ei gyfrifo yn unol â Fformiwla Barnett (ond gryn dipyn yn llai), rhai cyfyngiadau ar fewnfudo.

**Masnach Rydd Amlochrog a chyllid ar gael**
Dyhead Llywodraeth y DU: masnachu drwy FTAs gyda'r 27 o aelod-wladwriaethau sydd yn yr UE, masnach rydd gyda chenhedloedd eraill sydd â FTAs gyda'r UE, FTAs newydd gyda gwledydd eraill, cyfyngiadau llym ar fewnfudo.

**Y prif ganfyddiadau ar draws y senarios:**

- Bydd cyfleoedd ar gyfer rhai o'r sectorau o dan rai o'r senarios, ond nid o dan bob un ohonynt.
- Bydd prisiau bwyd yn codi i ryw raddau o dan bob un o'r senarios, gyda thariffau mewnforio, rhwystrau heblaw am dariffau, a chostau llafur uwch yn cael dylanwad penodol arnynt.
- Mae'r effeithiau posibl ar bysgota yng Nghymru yn amrywio o sefyllfa lle bydd y diwydiant yn mynd i'r gwellt o dan dariffau'r WTO, i sefyllfa lle na fydd unrhyw newid os bydd y trefniadau masnachu â'r UE yn parhau'n ddigyfnewid.
- Mae pwysigrwydd buddsoddi mewn 'gwerth ychwanegol' yn thema ar draws pob un o'r senarios a phob un o'r sectorau.
- Mae heriau difrifol yn wynebu'r sector defaid oherwydd ei fod yn dibynnu ar allforio er mwyn gwrthbwyso'r ffaith mai ar sail dymhorol y mae'n cynhyrchu ac er mwyn sicrhau cydbwysedd carcasau. Mae'r pwysau a fydd yn deillio o gyfyngiadau daearyddol ac o anawsterau wrth gael gafael ar weithlu i weithio mewn lladd-dai ac ym maes prosesu yn golygu, yn ôl pob tebyg, y bydd yn anodd iawn ar farchnadoedd cig oen o dan bob un o'r senarios.
- Y sector llaeth a'r sector dofednod yw'r rhai cryfaf oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar farchnadoedd mewnol y DU ac yn dibynnu llai ar allforio. Bydd y sector cig eidion yn parhau'n hyfyw, a bydd ganddo ddiwydiant llaeth ffyniannus i gyflenwi lloi ar ei gyfer. Bydd gwell cydbwysedd carcasau, a llai o ddibyniaeth ar allforio.
- Mae sector amgylcheddol Cymru yn parhau'n sector sydd â'r potensial i dyfu ym maes ecodwristiaeth oherwydd ei dirweddau a'i forweddau. Mae ynddo gyfoeth o gyfalaf naturiol ond mae angen buddsoddi i ddatblygu marchnadoedd newydd ac i feithrin y sgiliau y mae ar y sector eu hangen.
- Bydd cyllid a ddarperir gan y llywodraeth yn cael effaith sylweddol ar ba mor gyflym y gellir mynd ati i newid ond ni fydd yn effeithio i'r un graddau ar y canlyniadau yn y pen draw. Yn achos llawer o'r sectorau lle gwelir yr effeithiau mwyaf difrifol, nid yw cyllid yn debygol o fedru atal yr effeithiau hynny, ond gallai helpu i hwyluso newid.
- Heb gymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod pontio, gall sectorau penodol fynd i'r gwellt yn gyflym ar adegau o newid mawr a gall hynny arwain at ganlyniadau ehangach o ran iechyd a llesiant ein cymunedau.
- Mae angen i fusnesau ffermio a busnesau pysgota Cymru fod yn fwy cynhyrchiol ac effeithlon, ac ystyried ffrydiau incwm eraill os ydynt am barhau'n hyfyw. Bydd angen gwell sgiliau busnes arnynt a bydd gofyn buddsoddi mewn seilwaith.
- Bydd yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Brexit yn wahanol ar gyfer pob busnes amaethyddol, pysgota, coedwigaeth neu fwyd. Mae angen rhoi trefniadau yn eu lle i helpu busnesau i wneud y penderfyniadau cywir.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Asesu'r effeithiau economaidd | 1 |
| Senarios ymadael â'r UE | 2 |
| Effeithiau tair sefyllfa fasnachu bosibl | 6 |
| Effeithiau amgylcheddol | 9 |
| Amaethyddiaeth | 13 |
| Cig oen | 16 |
| Gwartheg eidion | 21 |
| Y sector llaeth | 24 |
| Porc | 27 |
| Dofednod | 29 |
| Iechyd a lles anifeiliaid | 32 |
| Âr | 39 |
| Garddwriaeth | 42 |
| Pysgodfeydd | 46 |
| Coedwigaeth | 51 |
| Bwyd a diod | 56 |
| Negeseuon cyffredinol ar gyfer y sector gwledig ledled Cymru | 57 |
| Casgliadau ac argymhellion | 60 |


OGL © Hawlfraint y Goront 2018 WG34021 ISBN digiol: 978-1-78903-518-6

## Cyflwyniad

Ar ôl y Refferendwm ym mis Gorffennaf 2016, sefydlodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Grŵp Bord Gron ar Brexit er mwyn i randdeiliaid ar draws ei phortffolio gael trafod goblygiadau canlyniad y refferendwm. Yn gynnar yn 2017, sefydlodd Grŵp Bord Gron Portffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig saith is-grŵp thematig a thrawsbynciol er mwyn rhoi ystyriaeth fanylach i oblygiadau Brexit o safbwynt themâu polisi trawsbynciol allweddol ac er mwyn ategu'r trefniadau presennol ar gyfer cysylltu a thrafod â rhanddeiliaid mewn sectorau penodol.

Dyma'r materion y mae'r saith grŵp yn ymdrin â nhw:

- Rheoli Tir.
- Arfordiroedd a'r Môr.
- Yr Aer a'r Hinsawdd.
- Cadwyni Masnach a Chyflenwi.
- Pobl a Chymunedau.
- Deddfwriaeth a Rheoleiddio.
- Tystiolaeth a Senarios.

Mae'r adroddiad hwn yn ffrwyth gwaith a wnaed mewn nifer o weithdai a gynhaliwyd gan yr Is-weithgor Tystiolaeth a Senarios. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y papur hwn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru na'r sefydliadau unigol sy'n cael eu cynrychioli ar y gweithgor. Maent, yn hytrach, yn crynhoi'r trafodaethau ar bob un o'r senarios a'u heffeithiau posibl ar y sectorau a'r meysydd o dan sylw.

### Diben yr adroddiad hwn

Eir ati yn yr adroddiad hwn i gasglu tystiolaeth ac i grynhoi barn arbenigol am bum senario posibl ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r gwaith cynllunio senarios sydd wedi'i wneud i ddadansoddi'r effeithiau posibl ar y sector amaethyddol, y sector pysgota, y sector coedwigaeth a'r sector amgylcheddol. Mae'n edrych ar rai o'r ffyrdd y maent yn dibynnu ar ei gilydd er mwyn deall rhai o'r newidiadau cymhleth a all fod ar ein gwarthaf. Nid diben yr adroddiad yw proffwydo sut y bydd y newidiadau i drefniadau masnachu yn digwydd yng Nghymru. Yn hytrach, erfyn ydyw sy'n edrych ar y risgiau a'r cyfleoedd a all ddod i'n rhan yn sgil Brexit. Gwnaeth y grŵp ymdrech hefyd i ddefnyddio'r gwaith dadansoddi hwnnw i edrych ar sut y gallai'r newidiadau hynny effeithio ar yr amgylchedd ac ar gymunedau yng nghefn gwlad Cymru, sef yr effeithiau 'anuniongyrchol'.

Diben y papur hwn yw symbylu sectorau yng Nghymru i feddwl ac i drafod yn unigol, ac ymhlith ei gilydd, i helpu i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar ddod. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos yn glir na all pethau aros fel y maent a bod yn rhaid i bob un ohonom baratoi ar gyfer newid.

## Asesu'r effeithiau economaidd

Hoelio sylw ar oblygiadau'r amryfal drefniadau masnachu a mudo posibl y mae'r gwaith a wnaed ar Dystiolaeth a Senarios. Er y bu peth trafod ar lefelau posibl o gyllid gan y Llywodraeth yn y dyfodol, ni chynhaliwyd dadansoddiad economaidd manwl.

Mae nifer o astudiaethau wedi'u cynnal sy'n mynd ati'n benodol i ddadansoddi effeithiau economaidd y sefyllfaoedd masnachu posibl. Roedd yr astudiaethau hynny'n ddarnau allweddol o dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y gweithgor. Ceir disgrifiad byr o'r papurau hynny, a chyfeiriadau atynt, yn Atodiad 2.

## Senarios ymadael â'r UE

Wrth ddechrau ar y gwaith hwn, nodwyd tair senario masnachu sylfaenol, ac yna ychwanegwyd ffactorau newidiol yn ymwneud â chyllid cyhoeddus a chyfyngiadau o ran y gweithlu (felly, pum senario i gyd) er mwyn helpu i nodi goblygiadau ymadael â'r UE i Gymru. Un o ddibenion y gwaith oedd pwyso a mesur a fyddai agweddau penodol ar fasnach a marchnadoedd y sectorau allweddol, gan gynnwys pysgodfeydd, ffermio a choed, mewn sefyllfa fregus. Nod arall oedd nodi sut y mae'r sectorau'n dibynnu y naill ar y llall, a hefyd yr effeithiau ehangach ar yr amgylchedd ac ar gymuendau. Nid ceisio proffwydo canlyniadau'r trafodaethau Brexit y mae'r gwaith hwn ond yn hytrach, edrych ar y risgiau a'r cyfleoedd a fydd yn wynebu Cymru o dan drefniadau gwahanol.

Diben y senarios masnach oedd edrych ar y trefniadau masnachu gwahanol a allai ddod i'r amlwg ar ôl Brexit. At ei gilydd, roedd y ffactorau a allai amrywio yn rhai sydd o dan reolaeth y DU. Roedd defnyddio'r ffactorau allanol a mewnol sy'n sbarduno newid yn ein galluogi i edrych ar y tensiynau sy'n cael eu creu.

Dyma'r senarios:

**Senario 1: Dim cytundeb ond cyllid ar gael**
Masnachu o dan reolau'r WTO, cadw'r lefelau cyllid fel y maent ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU yn darparu lefelau cyllid a fydd yn cyfateb i'r cyllid sy'n dod oddi wrth yr UE ar hyn o bryd, dadreoleiddio yn Lloegr, cyfyngiadau llym ar fewnfudo.

**Senario 2: Dim cytundeb a dim cyllid ar gael**
Masnachu o dan Sefydliad Masnach y Byd (WTO), cyllid i Gymru yn cael ei gyfrifo yn unol a Fformiwla Barnett (ond gryn dipyn yn llai), cyfyngiadau llym ar fewnfudo a gwledydd eraill yn cael mwy o fynediad i farchnad y DU.

**Senario 3: Cytundeb gyda'r UE a chyllid ar gael**
Masnachu rhwng yw UE a'r DU ar sail FTA, lefelau cyllid fel y maent ar hyn o bryd gyda'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn cyfateb i'r cyllid sy'n dod oddi wrth yr UE, rhai cyfyngiadau ar fewnfudo.

**Senario 4: Cytundeb gyda'r UE ond dim cyllid**
Yr UE a'r DU yn masnachu ar sail FTA, cyllidi Gymru yn cael ei gyfrifo yn unol a Fformiwla Barnett (ond gryn dipyn yn llai), rhai cyfyngiadau ar fewnfudo..

**Senario 5: Cytundeb gyda'r UE a chyllid ar gael**
Dyhead Llywodraeth y DU: masnachu drwy FTAs gyda'r 27 o aelod-wladwriaethau sydd yn yr UE, masnach rydd gyda chenhedloedd eraill sydd â FTAs gyda'r UE, FTAs newydd gyda gwledydd eraill, cyfyngiadau llym ar fewnfudo.

Mae rhagor o fanylion am bob un o'r senarios i'w gweld yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Senarios Brexit gan gynnwys y rhagdybiaethau allweddol**

| | Dim cytundeb | | Cytundeb â'r UE | | Cytundeb masnach rydd amlochrog |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Senario 1: Dim cytundeb ond cyllid ar gael** | **Senario 2: Dim cytundeb a dim cyllid ar gael** | **Senario 3: Cytundeb gyda'r UE a chyllid ar gael** | **Senario 4: Cytundeb gyda'r UE ond dim cyllid** | **Senario 5: Masnach amlochrog a chyllid ar gael** |
| **Trefniadau masnachu gyda'r UE** | **Sefydliad Masnach y Byd** (WTO) Rheolau a thariffau WTO yn berthnasol, y berthynas masnachu rhwng y DU a'r UE yr un peth â chyda gweddill y byd. | | **Cytundeb Masnach Rydd (FTA) gyda 27 aelod-wladwriaeth yr UE** Masnachu gyda 27 aelod-wladwriaeth yr UE, rhwystrau heblaw am dariffau yn eu lle sy'n golygu bod costau trafodiadau 20% yn uwch. | | **FTA** gyda'r **UE** negodi FTAs gyda gwledydd eraill, rheolau'r WTO gyda gwledydd heb FTAs. |
| **Masnachu gyda gweddill y byd** | **Sefydliad Masnach y Byd** (WTO) Rheolau a thariffau WTO yn berthnasol. Mae'r berthynas masnachu rhwng y DU a'r UE yr peth â chyda gweddill y byd. | | | | |
| **Cymorth domestig ar gael** | **Oes** Ond yn mynd yn llai. Llywodraeth y DU ym parhau i ddarparu'r lefelau presennol o gyllid tan 2022, ond byddant yn lleihau'n raddol tan 2030. | **Nac oes** Y setliad cyllido cyffredinol yn seiliedig ar Fformiwla Barnett (gweler yr Eirfa). | **Oes** Ond yn mynd yn llai. Llywodraeth y DU ym parhau i ddarparu'r lefelau presennol o gyllid tan 2022, ond byddant yn lleihau'n raddol tan 2030. | **Nac oes** Y setliad cyllido cyffredinol yn seiliedig ar Fformiwla Barnett (gweler yr Eirfa). | **Oes** Ond yn mynd yn llai. Llywodraeth y DU ym parhau i ddarparu'r lefelau presennol o gyllid tan 2022, ond byddant yn lleihau'n raddol tan 2030. |
| **Cyfyngiadau ar fewnfudo** | **Cyfyngiadau llym ar fewnfudo** (Yn unol â Phapur Gwyn y DU). | | **Rhyddid i symud** yn cael ei gysylltu â chyflogaeth. | | **Cyfyngiadau llym ar fewnfudo** (Yn unol â Phapur Gwyn y DU). |
| **Cystadleuwyr allweddol yn cael mynediad i farchnad y DU** | **Mynediad dilyffethair** yn amodol ar dariffau Sefydliad Masnach y Byd. | | **FTA** gydag Awstralia a Seland Newydd a fydd yn cyfyngu ar fewnforion er mwyn cadw at y lefelau presennol. | | **FTA's** gyda mwy a mwy o fynediad i farchnad y DU |
| **Cytundeb yn ei le rhwng Gwladwriaethau Arfordirol** | Adnoddau'r Wladwriaeth Arfordirol (y DU) fydd cyfran y pysgod sydd ym Mharth Economaidd y DU. Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli'r adnoddau ym Mharth Cymru ond bydd yn gwneud hynny'n amodol ar gytundeb gyda phedair gweinyddiaeth y DU ac ar unrhyw ofynion a bennir gan y wladwriaeth arfordirol. Yn achos pysgodfeydd, mae Cytundeb Gwladwriaeth Arfordirol yn ei lle rhwng y DU a'r UE (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr – UNCLOS) a bydd yn cael ei negodi bob blwyddyn o 2018 ymlaen ochr yn ochr â chytundebau gyda Norwy a Gwlad yr Iâ. | | | | |
| **Safonau rheoleiddiol** | Llywodraeth y DU yn mynd ati i ddadreoleiddio. | Bydd lefel y rheoleiddio ar draws Cymru a Lloegr yn parhau fel y mae ar hyn o bryd. | Bydd y safonau a bennir mewn rheoliadau yn parhau i godi. | Bydd Llywodraeth y DU yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros rai meysydd rheoleiddio. Colli rhai o'r pwerau a ddatganolwyd i Gymru, cael eu herydu gan fframweithiau'r DU. Y safonau yn parhau fel y maent ar hyn o bryd. | Bydd lefel y rheoleiddio ar draws Cymru a Lloegr yn parhau fel y mae ar hyn o bryd. |

## Rhagdybiaethau cyffredinol

Datblygwyd set o ragdybiaethau i'w defnyddio wrth edrych ar y pum senario:

- Bod cyllid yn parhau ar y lefel y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo iddi ar hyn o bryd tan 2022.
- Nad yw arferion a dewisiadau defnyddwyr yn newid yn sylweddol.
- Bod costau ynni'n parhau'n sefydlog fwy neu lai.
- Nad oes trefniadau pontio yn eu lle.
- Bod cyfraddau cyfnewid arian yn parhau rhwng €1.1 – 1.2 i £1 Prydain.
- Bod rheoleiddio'n parhau er mwyn cynnal safonau uchel o ran lles anifeiliaid a safonau bwyd.
- Er mwyn masnachu gyda'r UE, bod angen dangos darpariaeth gyfwerth â rheoliadau'r UE.
- Bod y DU yn parhau i fodloni'r rhwymedigaethau rhyngwladol sydd arni.
- Nad yw gwerthoedd tir a gwerthoedd rhenti'n newid yn sylweddol.
- Y bydd Cytundebau Pysgodfeydd rhwng Gwladwriaethau Arfordirol ar wyddoniaeth. Bydd cyfleoedd pysgota mewn perthynas â stociau a rennir a threfniadau mynediad yn cael eu negodi ar wahân i broses Erthygl 50. Byddant yn cael eu negodi gyda'r UE (ac efallai Norwy a Gwlad yr Iâ) bob blwyddyn.

Cydnabyddir bod nifer o ffactorau newidiol gwahanol a phwysig y gellid bod wedi'u cynnwys yn y senarios, ond byddai hynny wedi cymhlethu materion ymhellach. Mae gwaith modelu arall ar Brexit a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi defnyddio rhagdybiaethau ychydig yn wahanol i'r rheini a ddefnyddiwyd yma (Atodiad 2), ac mae'r rhagdybiaethau hynny'n cael eu datblygu wrth i ragor o wybodaeth ddod i law oddi wrth Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**Wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith dadansoddi, daeth yn amlwg y byddai effaith y ffactorau newidiol o ran cyllid a mudo yn debyg ym mhob un o'r senarios. O'r herwydd, ni chynhwyswyd effeithiau'r ffactorau newidiol hynny ac fe'u trafodir ar wahân isod. Yna, ceir dadansoddiad ehangach a symlach o'r tair senario masnachu.**

## Mesurau cyllido

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn darparu'r un faint o gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd o dan aelodaeth o'r UE tan 2022. Wedi dweud hynny, mae'n debyg mai lleihau fydd cyfanswm y cymorth a fydd ar gael i ffermio yn y tymor hir. Wrth fynd ati i ddadansoddi'r senarios, gwelwyd y byddai lefelau cyllid, yn hytrach na dylanwadu ar faint y newid, yn tueddu i ddylanwadu ar ba mor gyflym y byddai pethau'n newid, ac y gallai'r lefelau cyllid hynny effeithio, felly, ar allu pob sector i addasu yn wyneb y newidiadau hynny.

## Mudo

Mae unrhyw derfyn ar fudo o fewn yr UE yn ffactor newidiol pwysig ond byddai effaith unrhyw newid o'r fath yn debyg o dan bob un o'r senarios. Yn ôl dadansoddiad ar lefel y DU, a gynhaliwyd ar gyfer portffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig, mae amaethyddiaeth, y gadwyn fwyd a thwristiaeth yn arbennig o ddibynnol ar weithwyr o'r UE, boed yn weithwyr parhaol neu'n weithwyr dros dro. Yng Nghymru, y sectorau prosesu bwyd a thwristiaeth fydd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r ffaith na fydd cynifer o weithwyr ar gael o'r UE. At ei gilydd, nid yw amaethyddiaeth yng Nghymru yn dibynnu ar weithwyr o'r UE, er y gallai hynny effeithio ar rai busnesau unigol oherwydd eu hamgylchiadau penodol.

Roedd yn anodd mesur yr effaith gyffredinol y gallai mudo ei chael ar ddiwydiannau ym mhortffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig. Wedi dweud hynny, barnwyd y byddai'r effeithiau a ganlyn yn debygol beth bynnag y sefyllfa fasnachu:

- Mae peth tystiolaeth bod llai o lafurlu ar gael o'r UE eisoes ar ôl y refferendwm ym mis Mehefin 2016. Bernir mai'r hyn sy'n bennaf gyfrifol am hynny yw bod y bunt bellach yn wannach yn erbyn yr Ewro, ond mae yna ansicrwydd hefyd ynglŷn â statws gweithwyr o'r UE ar ôl i'r DU adael yr UE.

- Mae sector bwyd y DU, gan gynnwys y sector cig coch[1], yn dibynnu'n drwm ar weithlu mudol hyblyg er mwyn ymdopi â'r ffaith bod y farchnad yn un dymhorol. Mae natur y gwaith yn golygu ei bod yn anodd iawn ei awtomeiddio'n llwyr. Os bydd llai o'r gweithlu presennol ar gael ac os na fydd modd dod o hyd i weithlu yn ei le yn gyflym, gallai hynny gael effaith drychinebus ar brosesu mewn nifer o sectorau.
- At ei gilydd, mae cyfyngu ar fewnfudo o'r UE yn debygol o arwain at gynnydd ym mhrisiau bwyd. Er mwyn parhau i gynaeafu a phrosesu cynhyrchion, bydd yn rhaid i gwmnïau naill ai dalu cyflogau uchel er mwyn denu staff neu fuddsoddi mewn awtomeiddio fel y bo angen llai o weithwyr. Mae'r naill opsiwn a'r llall yn rhoi pwysau ar brisiau bwyd ac yn golygu y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr dalu prisiau uwch.
- Mae'r sector milfeddygol yn dibynnu'n drwm ar weithwyr o'r tu allan i'r DU. Mae 22% o'r milfeddygon yng Nghymru yn dod o'r tu allan i'r DU ac mae 50% o'r rheini sy'n cofrestru gyda Choleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) am y tro cyntaf yn dod o'r tu allan i'r DU. Mae'r sefyllfa'n arbennig o wael yn y Gwasanaeth Hylendid Cig, sydd â dros 90% o'i filfeddygon yn dod o'r tu allan i'r DU. O dan reolau'r WTO, mae'n bosibl y bydd angen mwy o filfeddygon nag ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth ardystio allforion.
- Bwriwyd y gallai methu â recriwtio milfeddygon arwain at sefyllfa lle byddai lladd-dai'n cael eu canoli fwy yn y DU. Barnwyd y byddai colli lladd-dai yng Nghymru yn ffactor o bwys a fyddai'n cyfrannu at y risg i'r diwydiant cig oen yn y senarios lle byddai prisiau'n gostwng. Y cynhyrchwyr fyddai'n gorfod ysgwyddo'r costau a fyddai'n gysylltiedig â chludo anifeiliaid i'w lladd. Byddai mwy o deithio yn rhoi rhagor o bwysau ar faint yr elw, sy'n ddigon bach yn barod, ac yn tanseilio gwerth brandiau Cymru.
- Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol, gallai cyfyngiadau ar fewnfudo ein hatal rhag manteisio ar gyfleoedd posibl a ddaw yn sgil Brexit oherwydd na fydd gweithlu ar gael. Ar hyn o bryd, mae bron â bod yr holl swyddi yn y DU wedi'u llenwi. Yn senario'r WTO, lle bydd garddwriaeth yn cynnig cyfle o bwys, byddai'n anodd manteisio ar y cyfleodd hyn heb lafurlu i gynaeafu cnydau. Mae'n bosibl y byddai technoleg yn cynnig ateb mecanyddol yn y pen draw ond byddai angen buddsoddi mewn technoleg o'r fath a byddai hynny'n cyfyngu ar nifer y busnesau a fyddai'n gallu manteisio ar y cyfle hwn.
- O dan gytundeb masnach rydd gyda'r UE, mae'n bosibl y bydd gwaith prosesu bwyd yn symud o'r DU, i Iwerddon a'r Iseldiroedd, er mwyn manteisio ar gostau is o ran cyflogau, gyda busnesau'n pwyso a mesur costau cyflogau o'u cymharu â chostau cludo.

[1] Mae rhyw 70% o'r gweithwyr yn dod o wledydd ar y cyfandir sy'n aelodau o'r UE http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/environment-food-and-rural-affairs-committee/feeding-the-nation-labour-contraints/written/47449.html

## Effeithiau tair sefyllfa fasnachu bosibl

At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi symleiddio'r dadansoddiad ar bob sector er mwyn adlewyrchu'r tair sefyllfa fasnachu bosibl.

- Dim cytundeb (senarios 1 a 2).
- Cytundeb â'r UE l (senarios 3 a 4).
- Masnach rydd amlochrog (senario 5).

Mae corff yr adroddiad hwn yn canolbwyntio bellach ar dair sefyllfa fasnachu bosibl a allai godi ar ôl mis Mawrth 2019.

### Dim cytundeb

Fforwm negodi yw'r WTO, yn bennaf::

- Drwyddo ef yr eir ati i negodi er mwyn llacio cyfyngiadau ar fasnach.
- Drwyddo ef y mae llywodraethau'n negodi cytundebau masnach.
- Drwyddo ef y mae llywodraethau'n datrys anghydfodau.

Trafodaethau a esgorodd ar y WTO, a thrafodaethau hefyd sy'n symbylu popeth y mae'n ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith y mae'r WTO yn ei wneud ar hyn o bryd yn deillio o'r trafodaethau a gynhaliwyd rhwng 1986-94 ac a elwir yn Gylch Trafodaethau Wrwgwái. Pan fo gwledydd wedi wynebu rhwystrau rhag masnachu ac yn awyddus iddynt gael eu dileu, mae'r trafodaethau wedi helpu i lacio cyfyngiadau ar fasnach. Ond nid llacio cyfyngiadau ar fasnach yw'r unig beth y mae'r WTO yn ei wneud. O dan rai amgylchiadau, mae ei reolau'n helpu i sicrhau bod rhwystrau rhag masnachu'n parhau — er enghraifft, er mwyn diogelu defnyddwyr neu atal clefydau rhag lledaenu.

Yr hyn sy'n ganolog i waith y WTO yw'r cytundebau a lunnir ganddo (rheolau masnachu'r WTO), ac sy'n cael eu negodi a'u llofnodi gan y rhan fwyaf o'r gwledydd yn y byd sy'n masnachu. Y dogfennau hyn sy'n nodi'r rheolau cyfreithiol sylfaenol ar gyfer masnach ryngwladol. Yn y bôn, contractau ydynt sy'n rhwymo llywodraethau i gadw'u polisïau masnachu o fewn terfynau y cytunwyd arnynt. Er mai llywodraethau sy'n eu negodi a'u llofnodi, y nod yw helpu cynhyrchwyr nwyddau a gwasanaethau, allforwyr, a mewnforwyr i gynnal eu busnes, a chaniatáu i lywodraethau fodloni amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol ar yr un pryd.

Prif ddiben y system yw helpu i hwyluso cymaint ag y bo modd ar lif masnach – cyn belled nad oes unrhyw sgil effeithiau annerbyniol – oherwydd bod hynny'n bwysig i ddatblygiad economaidd ac i lesiant. Un rhan o 'r diben hwnnw yw dileu rhwystrau. Rhan arall yw sicrhau bod unigolion, cwmnïau a llywodraethau'n gwybod beth yw'r rheolau masnach ledled y byd, a rhoi hyder iddynt na fydd unrhyw newidiadau polisi sydyn. Mewn geiriau eraill, mae'n rhaid i'r rheolau fod yn "dryloyw" ac yn rhai y gellir eu rhagweld.

Bydd y DU yn masnachu o dan reolau'r WTO i raddau o dan bob un o'r senarios, fel y mae'n gwneud ar hyn o bryd o fewn yr UE. Mae rheolau'r WTO yn pennu'r fframwaith ond nid ydynt yn pennu lefelau tariffau. Gallai'r DU ddewis gadw'r tariffau ar yr un lefel ag ar hyn o bryd, neu gallai fynd i'r pegwn arall a dewis peidio â chodi unrhyw dariffau o gwbl. Byddai'n rhai i'r DU ddefnyddio'r un lefel o dariffau gyda phob gwlad y bydd yn masnachu â hi. Yr enw ar hyn yw'r rheol "Cenedl a Ffefrir Fwyaf" lle codir yr un y tariff ar bob gwlad oni bai bod cytundeb masnachu cynhwysfawr yn ei le.

Yn ddiweddar, cyflwynodd yr UE a'r DU eu rhestrau diwygiedig arfaethedig i gyngor y WTO ac, ar hyn o bryd, mae'r DU yn bwriadu defnyddio'r un strwythur tariffau ag a ddefnyddir gan yr UE ar hyn o bryd. Yn y dadansoddiad hwn, gwnaethom ddefnyddio strwythur tariffau'r UE yn ganllaw ar gyfer maint y tariffau ar allforion i'r UE a mewnforion o'r UE. Yn fras, po fwyaf y caiff cynnyrch ei brosesu, yr uchaf y tariff. Hefyd, po fwyaf y caiff cynnyrch ei brosesu neu po fwyaf cymhleth ydyw, y manylach y

gwiriadau a fydd yn cael eu cynnal gan y wlad sy'n mewnforio ar y wlad o le y tarddodd y cynnyrch.

Byddai gweithredu yn unol â rheolau'r WTO yn newid mawr i'r ffyrdd presennol o gynnal busnes, ac yn tarfu ar yr economi. Hyd yn oed pe bai hynny'n digwydd am gyfnod byr, byddai'n cael effaith fawr ar draws y sector amaethyddiaeth a'r sector pysgodfeydd yng Nghymru.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gynnydd ym mhris bwyd sy'n cael ei weithgynhyrchu ar gyfer anifeiliaid, ym mhris hadau, gwrteithiau, meddyginiaethau ar gyfer anifeiliaid a phlaladdwyr. Mae'n bosibl y byddai tariffau o 6.5%, yn unol â rheolau'r WTO, ar wrtaith sy'n cael ei fewnforio, ac mae rhyw 70% o'n gwrtaith yn cael ei fewnforio o'r UE. Efallai y bydd cyfle i gael gwrtaith o farchnadoedd eraill yn y byd am bris rhatach a heb unrhyw dariff o gwbl. Mae rhai o'r nwyddau eraill a ddefnyddir ar ffermydd yn dod o'r DU ei hun neu maent yn rhai sydd â thariffau mewnforio arnynt eisoes, felly mae'n bosibl na fyddai fawr o gynnydd cyffredinol. Mae'r ffaith bod Sterling yn werth llai erbyn hyn wedi cael mwy o effaith eisoes na phrisiau uwch posibl a allai fod yn ganlyniad i gostau masnachu.

O dan senario lle byddem yn masnachu o dan reolau'r WTO, gallem weld y farchnad ar gyfer rhai cynhyrchion yn 'ymrannu'n segmentau', yn enwedig pan fo rhwystrau rhag masnachu (boed yn dariffau neu beidio) yn uchel. Byddai hynny'n effeithio ar ba mor gystadleuol fyddai hi i gynhyrchu yn y DU a'r UE o gymharu â gwledydd eraill. Gallai gwaith prosesu ar gyfer marchnad y DU aros yn y DU neu symud i'r DU o'r UE, a gallai gwaith prosesu ar gyfer yr UE a wneir yn y DU ar hyn o bryd symud i'r UE. Pe bai'r farchnad yn ymrannu'n segmentau, byddai llai o nwyddau wedi'u prosesu yn croesi ffiniau, gan arwain at dariffau is ac at lai o'r gwiriadau tollau a fyddai'n cael eu cynnal arnynt fel arall.

Y risg y byddwn yn ei wynebu'n syth os gwireddir y senario hon yw y bydd cyflwyno rhwystrau ariannol neu ymarferol yn sydyn yn amharu ar gadwyni cyflenwi ar draws yr UE neu'n eu chwalu'n llwyr. Heblaw hynny, byddai'n creu ansicrwydd yn yr economi, hyd yn oed os dim ond am gyfnod byr y byddem yn masnachu o dan reolau'r WTO. Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi mai drwy gytundebau masnach yr UE yr ydym yn cael mynediad i rai marchnadoedd y tu allan i'r UE sy'n bwysig i Gymru, ac na fyddai'r cytundebau hynny'n bod bellach pe baem yn masnachu o dan reolau'r WTO. Pe na bai FTA yn cael ei negodi â'r UE a phe bai'r DU yn parhau i fasnachu o dan reolau'r WTO, byddai'n rhaid iddi gytuno ar FTAs newydd gyda thrydydd gwledydd.

## Cytundeb â'r UE

Defnyddiwyd y senario hon i edrych ar faterion a phryderon o safbwynt yr UE pe bai cytundeb masnach rydd gyda'r DU ar ôl Brexit. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd, yr Almaen a Ffrainc wedi dweud dro ar ôl tro na all peidio â bod yn aelod o'r clwb fod mor fuddiol â bod yn rhan ohono. Nid yw'n glir beth allai hynny ei olygu yn ymarferol ond un o'r prif ystyriaethau yw darbwyllo gwledydd eraill i beidio â gadael yr UE.

Hefyd, yn achos cynhyrchion amaethyddol, y prif fater sy'n peri pryder i'r UE yw'r bygythiad y bydd bwyd yn dod i mewn i'r DU o wledydd nad oes ganddynt Gytundebau Masnach Rydd (FTAs) gyda'r UE, a hynny am brisiau a delir yn y farchnad fyd-eang, a bod y DU wedyn yn allforio'r bwyd hwnnw i'r UE am brisiau is nag a godir gan gynhyrchwyr yn Ewrop a/neu fod Cwotâu Tariff (TRQs) yr UE yn cael eu hosgoi drwy ddefnyddio'r DU yn gyrchfan dros dro. Dadl y DU y byddai modd rheoli hynny drwy gynnal gwiriadau wrth i nwyddau groesi ffiniau.

Un dull y gallai'r UE ei ddefnyddio i reoli cynhyrchion amaethyddol a fyddai'n dod drwy'r DU, gan ganiatáu masnachu dwyffordd â'r DU ar yr un pryd, fyddai pennu lefel o Gwotâu Tariff a fyddai'n cyfateb i lefelau presennol neu lefelau hanesyddol allforion y DU i'r UE. O wneud hynny, byddai'r DU yn parhau i fedru gwerthu i'r DU gan godi'r tariffau lleiaf posibl, ond

byddai'n atal y DU rhag allforio mwy i'r UE yn y dyfodol. Mae mynd i'r afael â phryderon am y ffaith bod cynhwysion o drydydd gwledydd mewn llawer o gynhyrchion sydd wedi'u prosesu yn debygol o arwain at fwy o rwystrau rhag masnachu heblaw am dariffau, hyd yn oed os gellir osgoi tariffau ychwanegol.

I ddangos hynny, pennwyd cost gyffredinol ar gyfer tariffau/rhwystrau heblaw am dariffau i edrych ar yr effaith a gâi rhywfaint o 'wrthdaro' wrth fasnachu. Ar ôl trafod y mater y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru, gwelwyd y gallai costau gwrthdaro wrth fasnachu fod yn rhyw 5-10%.

Wrth drafod y senarios, gwnaethom dybio y byddai'r DU yn gweithredu mewn ffordd debyg yn achos nwyddau a fydd yn dod i mewn i'r DU.

## Masnach rydd amlochrog

Mae'r senario hon yn seiliedig ar ddatganiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU cyn Etholiad Cyffredinol 2017, sef y dylai'r DU oleuo'r ffordd o ran masnach rydd. Mynnwyd y byddai modd sicrhau FTA gyda'r UE, a fyddai'n cyfateb i fynediad llawn i'r farchnad sengl, ymhen 2 flynedd. Yn ôl yr hyn a ddeallwn ni, yr hyn a olygir yw trefniant masnach rydd lle na fydd unrhyw dariffau na rhwystrau eraill. (Nid yw'n glir a fyddai cytundeb yn cynnwys Cwotâu Tariff, a fyddai'n cyfyngu ar allu'r DU i allforio mwy i'r UE, yn cael ei ystyried yn 'fynediad llawn i'r farchnad sengl'). Byddai trefniant o'r fath (sydd eto i'w drafod) yn golygu y byddai'r DU yn gallu cynnal y lefelau masnachu presennol ac arfer rheolaeth lawn ar fewnfudo o'r UE. Hefyd, mae'r senario hon yn cymryd y byddai Llywodraeth y DU yn sicrhau FTAs gyda'r 38[2] o drydydd gwledydd sy'n masnachu gyda'r DU o dan FTAs yr UE. Bwriad Llywodraeth y DU yw cynnig FTAs i'r gwledydd hynny ar yr un sail a'r FTA sydd ganddynt gyda'r UE ar hyn o bryd. Ar ôl Brexit, byddai Llywodraeth y DU yn gallu llunio FTAs newydd gyda gwledydd na fyddem wedi masnachu gyda nhw yn y gorffennol.

Mae'r senario hon wedi profi'n un anodd i'w phwyso a'i mesur oherwydd ei bod yn anodd mynd ati ar yr un pryd i fodelu'r ffactorau newidiol sy'n gysylltiedig â chynifer o FTAs gwahanol. Mae'r ddadl am Gwotâu Tariff yn berthnasol hefyd o dan y senario hon.

Bydd penderfyniadau ar unrhyw FTAs newydd gyda gwledydd tebyg i Seland Newydd ac Awstralia yn dibynnu ar y trefniadau sydd rhyngddynt a'r UE ar hyn o bryd ar gyfer Cwotâu Tariff. Mae'r cynnig i rannu'r Cwotâu Tariff presennol rhwng yr UE a'r DU, gan wneud dim mwy na hynny, wedi cael ei herio eisoes o fewn y WTO.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r dadansoddiad hwn, aethom ati i edrych ar effeithiau posibl FTAs gyda gwledydd sydd, i bob golwg, yn barod ac yn awyddus i fynd ati'n fuan i lunio FTA gyda'r DU, sef Awstralia, Seland Newydd, UDA a Chanada.

Mae hefyd yn anodd bwrw amcan o amserlenni o dan y senario hon. Bydd pwysau gwleidyddol i sicrhau FTA newydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn dangos bod modd negodi FTAs mewn amser cymharol fyr. Os felly, ymddengys mai cytundeb cyflym gyda Seland Newydd neu Awstralia fyddai'n fwyaf tebygol oherwydd bod nifer y mathau gwahanol o nwyddau sy'n cael eu masnachu, a maint y fasnach rhwng y DU a'r gwledydd hynny, yn gymharol fach. Ar y llaw arall, gellir dadlau nad oes gan y DU y grym i negodi ei FSAs ei hun a hithau'n parhau'n aelod o'r UE.

Yn fyr, felly, rhagdybir y bydd y berthynas fasnachu â'r UE yn debyg, fwy neu lai, i'r un sydd gan y DU ar hyn o bryd. Mae hynny'n golygu bod modd edrych ar yr effeithiau posibl y byddai dod i fwy o gysylltiad â'r farchnad fyd-eang yn eu cael ar y sectorau ym mhortffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig.

[2] Mae papur diweddar Llywodraeth y DU ar fasnach yn awgrymu bod 38 o wledydd erbyn hyn. https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmintrade/817/81708.htm gweler para 203.

## Effeithiau amgylcheddol



### Y cyd-destun

Yn ystod yr holl drafod ar y mater hwn, rydym wedi cydnabod bod gan adnoddau naturiol Cymru, sydd o ansawdd mor uchel, ran hanfodol i'w chwarae drwy ddarparu dŵr glân, aer a chyfleoedd hamdden i'r genedl, a chynnal ein diwydiant cynhyrchu bwyd ar yr un pryd. Mae llesiant cymdeithasol ac economaidd Cymru yn dibynnu ar gynnal yr adnoddau hynny er mwyn sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn iach, yn amrywiol ac yn gydnerth. Yr amgylchedd naturiol yw'r system sy'n cynnal ein bywydau – wrtho ef yr ydym yn cael popeth y mae ei angen arnom i gynnal bywyd.

Mae adnoddau naturiol Cymru yn dod â llawer o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol inni.

Er enghraifft[3]:

- £385 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn o'r sector amaethyddiaeth. Mae'r ffigur hwn yn helpu i greu'r trosiant blynyddol o £6.1 biliwn a'r £1.55 biliwn o werth ychwanegol gros sy'n cael eu priodoli i gynhyrchu ar ffermydd ac i'r sector gweithgynhyrchu bwyd.
- 951 miliwn litr o ddŵr yfed y dydd.
- 1.5 miliwn tunnell o bren heb ei sychu bob blwyddyn, gan olygu bod adeiladu'n haws ac yn rhatach.

[3] https://naturalresources.wales/media/682367/sonarr-summary-september-2016-welsh-edited-august-2017.pdf

- £499.3 miliwn o'r sector coedwigaeth[4] i economi Cymru.
- 14 miliwn tunnell o agregau'r flwyddyn, ar gyfer gwaith adeiladu ac i'w defnyddio at ddibenion eraill.
- 8,919 awr gigawatt o ynni o ffynonellau adnewyddadwy (mae'r ffigur hwn yn parhau i gynyddu), gan greu diwydiant ynni adnewyddadwy sy'n cyflogi 2,000 o bobl.
- 410 miliwn tunnell o garbon yn cael ei storio mewn pridd er mwyn amsugno allyriadau a gwarchod rhag y newid yn yr hinsawdd.
- £2,870 miliwn ym maes twristiaeth yng Nghymru.
- 28% o oedolion yn gwneud y lefel a argymhellir o weithgarwch corfforol drwy weithgareddau awyr agored.
- £18.2 miliwn o fudd i iechyd pobl drwy gerdded Llwybr Arfordir Cymru.
- £840 miliwn a 30,000 o swyddi yn sector yr amgylchedd hanesyddol.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd, a'r cyfleoedd posibl y bydd yn eu cynnig, ar draws y tair senario.


Wrth fynd ati i ddadansoddi pob sector, nodwyd a chynhwyswyd y risgiau amgylcheddol a fyddai'n gysylltiedig â'r goblygiadau i'r sectorau (h.y. y risgiau anuniongyrchol).

### Effeithiau uniongyrchol

Ar ôl Brexit, mae'n bosibl na fydd llawer o'r trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â'r amgylchedd yn gweithio'n effeithiol yn y DU bellach oni bai eu bod yn cael eu haddasu'n sylweddol. Er enghraifft:

- Swyddogaethau gweinyddol, swyddogaethau cynghori a rheoleiddio. Ar hyn o bryd, mae rhyw 500 o sefydliadau yn yr UE sydd ag amryfal rolau technegol a/neu reoleiddiol. Nid yw'n glir pa mor gyflym y bydd y DU yn gallu sicrhau arbenigedd yn lle eu harbenigedd nhw, nac ychwaith a fydd angen i'r DU barhau i weithio'n agos gyda sefydliadau o'r fath o dan drefniadau masnachu yn y dyfodol. Ymhlith rhai o'r sefydliadau hynny y mae'r Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd, Awdurdod Safonau Bwyd Ewrop a Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned (CPVO).

**Ffeithiau allweddol o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) sy'n dangos y cyfraniad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a wneir gan adnoddau naturiol Cymru**




[4] Mae'n cynnwys coedwigaeth a thorri a thrin coed, gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren a chorc, a gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur

- Y ffyrdd presennol o ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu colli neu eu gwanhau mewn ymateb i bwysau gwleidyddol i ddadreoleiddio neu i "symleiddio" wrth i fusnesau ei chael yn anodd addasu yn wyneb y sefyllfa fasnachu ar ôl Brexit. Gallai hynny arwain at 'ras i gyrraedd y gwaelod' er mwyn cystadlu yn erbyn gwledydd sydd â safonau amgylcheddol is na'r DU.
- Ar hyn o bryd, y Comisiwn Ewropeaidd sy'n goruchwylio sut y mae deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei gweithredu. Fe'i cefnogir yn hynny o beth gan Lys Cyfiawnder Ewrop sydd â phwerau i ddirwyo'r Aelod-wladwriaethau hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arnynt. Ni fydd y trefniadau hyn yn berthnasol bellach ar ôl Brexit, sy'n golygu bod perygl i'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth arafu a/neu y bydd llai o wariant. Bydd y trefniadau domestig a sefydlwyd er mwyn ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r amgylchedd yn parhau (gan gynnwys Adolygiadau Barnwrol) ond nid yw eu rôl nhw mor eang, ac maent yn gallu bod yn gostus. Erbyn hyn, mae Ysgrifennydd y DU dros yr Amgylchedd wedi cydnabod bod y mater hwn yn un y mae angen mynd i'r afael ag ef ac mae'n bwriadu ymgynghori ar gynigion i greu corff statudol annibynnol newydd i gynghori ac i herio'r llywodraeth (a chyrff cyhoeddus eraill o bosibl) ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol[5].
- Colli cydweithrediad trawswladol ar waith trawsffiniol i warchod cynefinoedd a rhywogaethau. Mae hwn yn fater sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd drwy Gyfarwyddebau'r UE ar Gynefinoedd ac Adar, sydd wedi bod yn sail i ddull rhyngwladol o weithredu ar lefel y wlad i warchod llwybrau mudo a chynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Y mathau hyn o fframweithiau deddfwriaethol gan yr UE sy'n gweithredu cytundebau rhyngwladol fel RAMSAR, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Confensiwn Bonn, a Chonfensiwn Bern, etc. Er y bydd y DU yn parhau'n un o lofnodwyr y cytundebau hyn ar ôl Brexit, mae'r UE, yn aml, wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith (megis y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) er mwyn sicrhau bod y cytundebau'n cael eu rhoi ar waith, gan bennu amserlenni, targedau a therfynau amser.
- Colli ffynhonnell bwysig o gyllid i adfer ac i reoli'r amgylchedd. Er enghraifft, cronfa LIFE yr UE sydd wedi cyllido'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed yng Nghymru hyd yma i adfer mawndiroedd. Defnyddiwyd y Cronfeydd Strwythurol (ERDF, EAGGF, etc.) hefyd i helpu i fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd a mentrau twristiaeth yng nghefn gwlad.
- Posibilrwydd o golli a/neu ostyngiadau ym maint y cymorth a roddir gan y sector cyhoeddus i reoli'r amgylchedd ar ffermydd mewn ffyrdd buddiol. Fe'i hariennir ar hyn o bryd o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, e.e. cynlluniau amaeth-amgylchedd-hinsawdd, ffermio organig, plannu ac adfer coetir, gwasanaethau ffermwyr a mesurau i fuddsoddi mewn ffermydd.

### Cyfleoedd amgylcheddol

Oherwydd y ffordd y defnyddid tir yn y gorffennol a'r ffordd y'i defnyddir ar hyn o bryd, mae rhai agweddau ar ein hamgylchedd naturiol wedi dirywio neu wedi cael eu dihysbyddu. Cadarnhaodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)[6] nad oes unrhyw ecosystemau cydnerth yng Nghymru.

Mae angen eu hadfer os ydynt i barhau i gynnig budd ehangach i genedlaethau'r dyfodol. Mae sawl her yn wynebu'n hecosystemau ac yn eu hatal rhag gweithredu'n effeithiol. Ymhlith yr heriau hynny y mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, y ffaith bod amrywiaeth fiolegol yn parhau i ddirywio a hefyd y pwysau a achosir gan ddyn, megis ffermio dwys mewn sawl ardal, gadael i dir fynd yn segur mewn ardaloedd eraill, a chynefinoedd lled-naturiol yn cael eu darnio gan ddatblygiadau trefol. Mae rheoli'n Hadnoddau Naturiol yn gynaliadwy yn egwyddor a

---

[5] https://www.gov.uk/government/news/new-environmental-protections-to-deliver-a-green-brexit

[6] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae hefyd yn berthnasol i'r Nodau Lesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dyma rai o'r cyfleoedd a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein trafodaethau:

- Bydd datblygu mentrau rheoli cynaliadwy yn fodd i arallgyfeirio incwm drwy gytundebau partneriaeth i gyflenwi bwyd a ffibr ac i wella rheolaeth ar yr amgylchedd. Bydd hefyd yn fodd i sicrhau bod busnesau'n hyfyw yn economaidd ac yn amgylcheddol.
- Mae cynlluniau Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) yn cynnig cyfleoedd posibl yn y dyfodol, er nad ydynt wedi cael cymorth uniongyrchol gan y Llywodraeth hyd yma. Mae'r cyhoedd o'r farn eu bod yn talu eisoes drwy drethi, ond mae yna gyfleoedd i ddatblygu ffrydiau ariannu drwy greu marchnadoedd yn y dyfodol, e.e. Adroddiad Resources for Change [7] a modelau buddsoddi carbon. Yn benodol, mae angen inni newid yr iaith sy'n gysylltiedig â thermau fel cymhorthdal drwy roi mwy o bwyslais ar yr hyn y mae ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr mathau eraill o dir yn ei wneud dros gymdeithas. Mae angen inni hefyd fynd ati ar yr un pryd i ddatblygu ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa os bydd marchnadoedd yn methu, ac i ddod o hyd i ffyrdd o ddiogelu busnesau pan fo pethau'n anodd arnynt.
- Buddsoddi er mwyn cymell rheolwyr tir i ennill cymwysterau proffesiynol fel y bo'r genhedlaeth nesaf mewn sefyllfa well i gyflenwi'r hyn y mae ar y farchnad ei angen, e.e. y farchnad garbon a gwaith gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gwy ac Wysg sydd wedi bod yn rhedeg cynllun TWE ar ffurf 'cynllun codi treth gwelyau ar enweirwyr' ers yr 20 mlynedd diwethaf. Mae genweirwyr yn talu canran ychwanegol am eu llety (pan fyddant yn aros mewn llety a ddarperir gan bobl sy'n rhan o'r cynllun) ac mae'r ganran honno'n cael ei defnyddio wedyn ar waith i adfer yr afon.
- Modelau buddsoddi carbon sydd wedi cael eu profi gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. Mae yna botensial i ddatblygu mwy ar Godau Mawndiroedd yr Undeb Rhyngwladol Gwarchod Natur (IUCN) ar ôl trafodaethau cychwynnol ar fuddsoddi gyda buddsoddwyr preifat o bwys.
- Gweithio o fewn cwmpas Blwch Gwyrdd y WTO i ddatblygu ffordd newydd o dalu am nwyddau cyhoeddus yn y dyfodol, er enghraifft, drwy roi cymorth gyda'r costau sefydlog sy'n gysylltiedig â rhedeg y mathau o fentrau rheoli tir a all gynnig manteision amgylcheddol (e.e. buchesi sugno'n pori ar laswelltir lled-naturiol o bwysigrwydd rhyngwladol) yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar yr incwm a gollir o dan ofynion y Blwch Gwyrdd[8].
- Cyfle i weithio'n agosach â chyrff yn y trydydd sector, megis y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar (RSPB), yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel y bo modd denu mwy o adnoddau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i ychwanegu at ffynonellau grant.
- Byddai ailwylltu fel cysyniad ynddo'i hun yn anodd ar y rhan fwyaf o dirweddau Cymru am fod y tir wedi cael ei reoli gan bobl ers amser maith. Mae llawer o'n bywyd gwyllt yn nodwedd o'r gwaith rheoli hwnnw. Wedi dweud hynny, mae cryn gyfle i adfer rhagor o systemau naturiol mewn rhannau mawr o Gymru – er enghraifft, er mwyn helpu i reoli perygl llifogydd ac i ddal a storio carbon, creu coetiroedd a gweithio mewn ffyrdd ymyrraeth isel a fydd o fudd i fioamrywiaeth, i hamdden ac i dwristiaeth. Bydd hynny'n cynnig cyfleoedd gwaith hefyd – er y byddai'r cyfleoedd hynny'n wahanol i'r rheini sydd ar gael ar hyn o bryd,
- Bydd canolbwyntio ar yr economi gylchol ac ar arloesi yn helpu i leihau costau cynhyrchu a bydd, ar yr un pryd, yn diogelu'r amgylchedd ac yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd hynny'n rhoi enw hyd yn oed yn well i gynhyrchwyr o Gymru ac yn neges rymus i'w defnyddio wrth hyrwyddo'r farchnad fel rhan o "Brand Cymru".

[7] http://www.r4c.org.uk/SoNaRR.html

[8] http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5600949180563456?category=6237649992941568

# Amaethyddiaeth



## Y cyd-destun

Mae 1,867,000ha o dir Cymru, sef 89% ohono, yn dir amaethyddol[9].

Gwerth allbwn gros amaethyddiaeth Cymru yn 2016 oedd £1,447 miliwn (rhagolwg 2016).

Yr allbwn gros wedi'i rannu yn ôl cynnyrch:


- Llaeth a chynnyrch llaeth – **28.5%**.
- Gwartheg – **26.0%**.
- Defaid – **18.5%**.
- Dofednod a wyau – **6.1%**.
- Pob cnwd a garddwriaeth – **6.3%**.
- Eraill – **4.6%**.

Defnyddir gwerth £1,092 miliwn o nwyddau a gwasanaethau ar gyfer cynhyrchu (treuliant canolraddol), gan adael Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) (allbwn amaethyddiaeth, llai treuliant canolraddol) o £335 miliwn. Cyfanswm yr Incwm o Ffermio yw £157 miliwn (incwm o gynhyrchu a chymorthdaliadau a gedwir gan ffermwyr, sef elw'r busnes i ffermwyr).

Cymorth i ffermwyr:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol: £221 miliwn i 14,800 o fusnesau (cyfartaledd o £14,932 y fferm).
- Taliadau Glastir: £30.8 miliwn.

[9] http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy a: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170620-farming-facts-figures-2017-cy.pdf




Mae maint taliadau Glastir yn arwydd o bwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol er bod y gwir angen lawer yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael[10].

O safbwynt economaidd, mae amaethyddiaeth yn sector gymharol fach yng Nghymru. GVA amaethyddiaeth, coedwigaeth (diffiniad manwl heb gynnwys gweithgynhyrchu) a physgota gyda'i gilydd yw £435 miliwn, rhyw 0.7% o GVA Cymru gyfan[11]. Fodd bynnag, mae'r tri sector, ac amaethyddiaeth yn benodol, yn bwysicach i GVA ardaloedd gwledig. Er enghraifft ym Mhowys, GVA amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yw 3.4% gan gyflogi 16% o'r gweithwyr.

Mae'r sectorau hyn yn bwysig hefyd am eu bod yn cynhyrchu bwyd ac yn rheoli tir, gan gefnogi:

- Gweithgynhyrchu bwyd a diod, sef 2.4% o'r GVA
- Gwasanaethau llety a bwyd, sef 3.2% o'r GVA.

Ceir llawer o ffermydd â throsiant bychan, pob un ag arwynebedd bychan a nifer fach o dda byw. Er enghraifft, mae 21,200 o ffermydd (86%) yn cynhyrchu 29% o'r allbwn amaethyddol ond ar 57% o'r tir ffermio. Mae gennym 500 o ffermydd sydd â throsiant uchel sy'n cynhyrchu 33% o'r allbwn gan ddefnyddio dim ond 8% o'r tir ffermio. Mae'r 2,800 o ffermydd sy'n cael eu hystyried yn ganolig neu'n fawr yn cynhyrchu 38% o'r allbwn gan ddefnyddio 35% o'r tir.

Wrth ystyried y gwahaniaeth yn yr allbwn fesul hectar, dylid cofio bod hyn i raddau helaeth yn seiliedig ar ansawdd y tir sy'n cael ei ffermio ac ar y sector ffermio; mae tua 75% o dir Cymru yn dir tan anfantais ac mae 81% o dir amaethyddol y wlad naill ai'n borfa barhaol, yn dir pori garw neu'n dir comin.

Hefyd, mae Cymru yn bell o'r marchnadoedd a gall hynny leihau prisiau i ffermwyr e.e. mae pris llaeth rhwng 1 a 2 geiniog yn rhatach yng Nghymru. Ond mae gennym y fantais o hinsawdd morol, sy'n golygu bod ffermwyr Cymru yn elwa ar fuddiannau ffermydd porfa.

[10] http://publications.naturalengland.org.uk/publication/6216284715876352?category=6237649992941568

[11] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvainwales-by-industry


Yng Nghymru, mae 27% o'r tir yn cael ei ffermio gan rywun heblaw'r perchennog, o dan amrywiaeth o gytundebau tenantiaeth, gan gynnwys Tenantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol, Tenantiaethau Busnesau Fferm a thrwyddedau pori tymor hir. Fel arfer, mae'r cytundebau hyn yn mynnu bod y tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaeth a rhaid cael caniatâd y landlord i wneud unrhyw beth arall.

Gallai'r cytundeb ofyn hefyd bod y tir yn cael ei gadw mewn cyflwr da a allai fod yn groes i rai o'r gofynion ar gyfer cadw cynefin. At hynny, mae Tenantiaethau Busnes Fferm yn para rhyw 4.5 mlynedd (RICS) sy'n golygu nad oes gan y tenant ddeiliadaeth sicr, yn enwedig os yw'n ystyried buddsoddi yn ei fusnes neu ymuno â chynllun amaeth-amgylcheddol. Mae pob senario a ystyrir yn yr adroddiad hwn yn esgor ar newid i amaethyddiaeth a defnydd tir. Wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer polisïau yn y dyfodol, bydd angen ystyried y goblygiadau i'r sector tenantiaid er mwyn i denantiaid hefyd allu gwneud yn fawr o gyfleoedd y dyfodol.

Bydd gadael yr UE yn cael amrywiaeth eang o effeithiau ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Ystyrir yr impactau a'r cyfleoedd i bob sector isod.

**Nifer y ffermydd, trosiant busnesau a thir ffermio – yn ôl maint economaidd y fferm, Cymru 2016**

Mae'r grwpiau maint a ddefnyddir yn y siart hon yn dangos busnesau fferm â throsiant bras (allbwn safonol)



# Dadansoddi'r sectorau

## Cig oen

### Y cyd-destun


Mae cig oen yn gynnyrch Cymreig "eiconig" ac yng Nghymru y mae tua 30% o holl ddefaid y DU. Mae gan gig oen Cymru statws PGI ac mae'n frand adnabyddus ym marchnadoedd y DU a'r byd. Mae gan Gymru 4.65 miliwn o famogiaid magu a 4.89 miliwn o ŵyn ar 14,023 o ddaliadau, gyda chyfartaledd o 700 o ddefaid ar bob un o'r daliadau hynny.

Mae ŵyn yn cael eu masnachu drwy'r flwyddyn (mewnforion ac allforion) ac mae allforion yn hanfodol gan eu bod yn lleihau natur dymhorol y cynnyrch a'r problemau â chydbwysedd carcasau. Dros y 15 mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd yn y galw am gig oen o Gymru mewn nifer o farchnadoedd allforio allweddol, ond mae 96% o'r allforion yn dal i fynd i 27 yr UE (Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon, Gwlad Belg a'r Eidal). Mae'r cyrchfannau allforio hen a newydd hyn yn golygu bod cystadleuaeth am y cynnyrch, gan gynyddu'r elw o'r marchnadoedd hyn.

O gofio bod tua traean o gig oen Cymru yn cael ei allforio i 27 yr UE, mae marchnad allforio lwyddiannus a bywiog yn hanfodol i'r sector defaid yng Nghymru ac ni fyddai'r gadwyn gyflenwi'n gallu gweithio o ddibynnu ar y farchnad ddomestig yn unig.

Oherwydd dulliau cynhyrchu traddodiadol, nid yw cig oen o Gymru ar gael drwy gydol y flwyddyn. Ceir cynnydd tymhorol yn y cyflenwad bob hydref. Heb farchnad allforio, byddai gormodedd sylweddol yn y cyflenwad yr adeg hon o'r flwyddyn. Dwyseir y broblem ymhellach gan fod yn well gan ddefnyddwyr y DU doriadau arbennig o gig oen, gan olygu bod yn rhaid gwerthu rhan fawr o bob carcas i farchnadoedd eraill. Yn 2016, darnau o goes i'w rhostio oedd dros 40% o'r cig oen a brynwyd ym Mhrydain, ond dim ond 20% o'r carcas yw'r goes.

Problem anghydbwysedd â'r carcas yw un o'r gofidiau mwyaf ynghylch colli marchnad yr UE gan fod yn well gan wledydd eraill y lwyn a'r ysgwydd, gan greu cydbwysedd â'r galw yn y DU.



Ystyriaeth arall wrth edrych ar allforion yw gwerth a swm allforion y pumed chwarter a chrwyn. Oherwydd dirywiad y sector tanerdai yn y DU, caiff mwyafrif llethol yr 14 miliwn o grwyn ŵyn (mamogiaid ac ŵyn) a gynhyrchir yn y DU eu hallforio y tu allan i'r UE. Yn hanesyddol, i danerdai yn Tsieina a Thwrci gan fwyaf.

Mae'r fasnach mewn ŵyn ysgafn wedi'i chysylltu'n draddodiadol ag allforion i wledydd Môr y Canoldir, yn enwedig yr Eidal a Sbaen. Byddai colli'r marchnadoedd hyn yn cael effaith sylweddol ar brisiau carcasau ysgafn, sef 15% o'r cynhyrchiant, y rhan fwyaf yn dod o fryniau Cymru.

Ar ben y newidiadau a ddaw yn sgil Brexit, mae'r galw yn y DU am gig oen a dafad yn gostwng. Yn 2009, câi 5.5kg y person y flwyddyn o gig oen ei fwyta ar gyfartaledd. Erbyn 2015, roedd y ffigur wedi gostwng i 5.0kg[12].

Er bod allforion yn hanfodol, mae dal angen mewnforio peth cig oen. Mae proseswyr cig yn credu ei bod yn hanfodol mewnforio cig oen ddiwedd y gaeaf/ddechrau'r gwanwyn er mwyn cynnal marchnad gref yn y DU. Mewnforir cig oen pan fo cig oen y DU ar ei brinnaf neu ar ei waethaf, gan sicrhau bod cynnyrch o ansawdd ar gael 12 mis y flwyddyn. Mae hynny'n bwysig i gadw teyrngarwch y defnyddiwr i gig oen.

Mae gan Seland Newydd Gwota Tariff[13] (TRQ) o 228,000 tunnell o gig oen â'r DU ond tra bo'r DU yn aelod o'r UE, gellir gosod y cwota yn unrhyw wlad yn yr UE. Mae'r DU a'r UE ar hyn o bryd yn ystyried rhannu'r cwota ar ôl Brexit drwy gymryd cyfartaledd yr hyn a allforiwyd i'r DU a gweddill yr UE dros y 3 blynedd diwethaf, a defnyddio hynny'n sail ar gyfer rhannu'r cwota. Mae'r cwota wedi'i danddefnyddio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (dim ond tua 75% sydd wedi'i ddefnyddio) felly yn ogystal â'r gwir symiau a anfonwyd i'r DU a gwledydd eraill yr UE, bydd yn rhaid rhannu'r cwota sydd heb ei ddefnyddio. Mae Awstralia a Seland Newydd yn pwyso am gynnydd yng nghwota cyfun y DU a'r UE ar ôl Brexit, i osgoi unrhyw ostyngiad yn y fasnach â Phrydain.

Bydd hyfywedd tymor hir diadelloedd ledled Cymru yn dioddef, nid yn unig oherwydd y newidiadau ym mhris cig oen ond oherwydd hefyd y lleihad yn y cymorth ariannol, a fydd yn gwneud llawer o fusnesau ffermio defaid yn llai hyfyw.

## Dim cytundeb

Pe bai cig dafad yn cael ei allforio i'r UE o dan dariffau'r WTO, byddai hynny'n ergyd i'r diwydiant gan y byddai'r tariff yn uchel. Mae tariff ad valorem o 12.8%  ar gig dafad, ynghyd â thariff sefydlog o rhwng €902 a €3118 y dunnell, gan ddibynnu ar y toriad. Yn aml iawn, byddai hynny'n gyfwerth â thariff o 50 y cant neu fwy ar y toriadau, golwython a chynnyrch wedi'i brosesu sydd uchaf eu gwerth.

- Amharu ar y farchnad: Bydd yn bwysig ystyried amseriad unrhyw gyhoeddiadau gan yr UE a'r effaith bosibl ar y diwydiant, o gofio'r risg o dangyflenwi a gorgyflenwi'r farchnad cig oen. Bydd unrhyw newid sydyn yn cael effaith ddifrifol ar rai busnesau fferm, gan achosi problemau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol.

  Mae'r farchnad cig oen yn neilltuol o fregus, ac mae hynny'n golygu y gallai cynnydd bach yn y tariff esgor ar effeithiau difrifol. Er enghraifft, bydd unrhyw dariff dros 20% yn debygol o greu pwysau difrifol neu chwalfa yn y farchnad.

---

[12] Tudalen 17: http://hccmpw.org.uk/index.php/tools/required/files/download?fID=6167

[13] https://ahdb.org.uk/brexit/documents/BeefandLamb_bitesize.pdf

Ymateb cyntaf ffermwyr defaid fyddai gostwng gwariant ar y fferm. Byddant yn debygol o gario ymlaen fel o'r blaen neu byw'n feinach a cheisio goroesi'r storm. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n bosibl ond am gyfnod byr ac yr un pryd, byddai'n taro swyddi y tu allan i ffermio yng nghefn gwlad; er enghraifft, byddai llai o waith ac incwm i filfeddygon, cludwyr a chyflenwyr porthiant. Byddai hyn yn debygol o orfodi ffermydd i ad-drefnu'u busnesau.

- Byddai cynnydd mewn 'ransio' fel ffordd o reoli tir a stoc, gyda'r adnoddau hyn o dan reolaeth llai o ffermwyr, yn lleihau costau unedol cynhyrchu. Gallai hynny arwain at dynnu stoc o'r tir neu ymadael â'r bryniau os na fydd fawr o elw, os o gwbl, o ffermio defaid. Gallai'r effeithiau hyn esgor ar newidiadau di-droi'n-ôl yn y ffordd y rheolir tir a byddai unrhyw newidiadau direolaeth yn annymunol.
- Bydd gallu fferm unigol i oroesi, o leiaf yn y tymor byr i ganolig, yn dibynnu ar werth ei hasedau o'i gymharu â'i rhwymedigaethau; byddai goblygiadau i'r ffermydd hynny lle bo gwerth eu hasedau'n seiliedig ar werthoedd tir uchel na ellir efallai eu cynnal.
- Newid gwerth tir a defnydd tir. Pe bai tir yn gostwng yn ei werth, gallem weld newid cyflym yn y ffordd y defnyddir tir, yn enwedig o ran coedwigo a chefnu ar dir. Efallai y bydd cyfleoedd yn y sector coedwigaeth fasnachol, wrth i hwnnw ennyn hyder. Mae'r DU yn mewnforio llawer o goed a chynnyrch coed a gallai cynhyrchiant domestig gymryd lle'r mewnforion hynny yn y tymor hir. Gallai elusennau cadwraeth a gwylltu tir sbarduno coedwigo â rhywogaethau anfasnachol a ffermwyr i gefnu ar dir. Gallai'r tir fynd yn eiddo i bobl, elusennau a chwmnïau o'r tu allan i'r gymuned.
- Gallai fod goblygiadau hirdymor i gymunedau cefn gwlad a'r diwylliant wrth i'r boblogaeth newid neu grebachu. Mae gan lawer o gymunedau gwledig ganran uchel o siaradwyr Cymraeg, gyda'r rheini o'r categori amaethyddol yn gwneud cyfraniad hanfodol o ran niferoedd at gadw'r iaith.
- Er na wnaiff senario'r WTO bara ond am amser gymharol fach tan y caiff cytundebau masnachu mwy ffafriol eu harwyddo, mae perygl y gallai'r sector ddioddef difrod anadferadwy yn y cyfamser.
- Allforion byw: Gallai tariffau is y WTO ar 'anifeiliaid byw' o'u cymharu â chig aildanio'r diddordeb mewn allforio anifeiliaid byw. Hefyd, gallai cyfyngiadau ar fewnfudo olygu nad oes digon o weithwyr i weithio lladd-dai a ffatrïoedd prosesu cig yng Nghymru a'r DU.
- Gyda senario'r WTO, lle bydd costau uwch o lawer am gludo cig dros ffiniau, gallai'r cyfuniad o lafur rhatach yn yr UE, y farchnad sengl a thariffau is ar allforio anifeiliaid byw sbarduno rhai proseswyr i symud eu ffatrïoedd i wledydd eraill yn yr UE. Byddai Prydain felly'n talu tariffau uwch am y toriadau mwyaf poblogaidd.
- Gallai estyn y cyfnod pan fydd cig oen y DU ar gael i ateb y galw yn y DU gymryd lle rhai mewnforion. Fodd bynnag, mae'r farchnad ddomestig am gig oen yn gofyn am oen o fath gwahanol i'r ŵyn ysgafn a gynhyrchir ar fryniau Cymru, felly efallai na fydd yn cymryd lle tebyg am debyg. Bydd rhai o ffermwyr Cymru yn gallu newid eu cyfnodau wyna mae'n siŵr, bob pen y tymor. Ond mae'r topograffi a chyfyngiadau eraill yn golygu nad yw'r opsiwn hwn ar gael i bawb. Gallai gwella dulliau prosesu a storio i estyn oes cynnyrch wedi'i oeri helpu i sicrhau cyflenwad ddiwedd y gaeaf pan fydd llai o ŵyn ar y farchnad. Gallai datblygu cynnyrch newydd i gystadlu â phorc a chyw iâr, gan ddefnyddio toriadau llai poblogaidd ac offal, helpu i ddatrys y broblem â chydbwysedd carcasau.

- Arloesi a chydweithredu: Rhaid i bob fferm, yn enwedig y rheini sy'n dibynnu ar werthu ŵyn, ystyried arloesi, o ran mentrau ar y fferm a ffrydiau refeniw posibl eraill. Rhaid i fusnesau ledaenu'r risg er mwyn ymgryfhau wrth ddod yn fwyfwy agored i anwadalwch prisiau masnachu'r byd.
- Ŵyn llawr gwlad (y tu allan i'r ALFf): Byddai ffermwyr defaid ar lawr gwlad yn wynebu'r un anawsterau â ffermwyr y bryniau ond efallai y daw cyfanswm refeniw'r fferm o dan fwy o bwysau oherwydd diffyg opsiynau posibl i ddefnyddio cyfleoedd amgylcheddol (digolledu ffermwyr am incwm a gollir) i chwyddo'r incwm. Gallai ffermwyr defaid ar lawr gwlad ystyried opsiynau mwy proffidiol fel godro neu dyfu cnydau.

## Cytundeb â'r UE

- Y senario debycaf i sefyllfa heddiw fyddai mynediad at farchnad sengl yr UE gyda lefelau cyllido tebyg gan Lywodraeth i'r rheini a geir yn awr. Hynny fyddai'n golygu'r newid lleiaf i ffermydd a'r gadwyn gyflenwi. Byddai'n rhaid cynhyrchu yn unol â gofynion yr UE (y cysyniad o 'gyfwerthedd') er mwyn cael parhau i gyflenwi marchnad yr UE. Honno fyddai marchnad allforio fwyaf y DU o hyd.
- Rhagwelir masnachu'r un faint ag ar hyn o bryd â 27 yr UE. Byddai costau 'heblaw tariffau' ychwanegol o ryw 5-10%. Byddai hynny'n ychydig o dolc i'r elw, ond yn debyg i'r amrywiadau yng ngwerth arian ac nid yw'r rheini'n cael effaith arwyddocaol ar lif allforion.
- Gan fod ŵyn yn cael eu cynhyrchu yn ôl eu tymor, nid oes gan gynhyrchwyr fawr o hyblygrwydd pryd i werthu ŵyn a rhaid iddynt dderbyn y prisiau a gynigir ar y pryd. Gyda chig oen o Gymru yn denu prisiau uwch oherwydd y bunt wan, mae'r galw yn yr UE yn uwch ond gallai fod yn anodd cynnal y galw hwnnw yn y dyfodol.
- Masnachu â Seland Newydd ac Awstralia. Mae'r senario fasnachu hon yn debygol o gadw cig oen o Seland Newydd ac Awstralia i'r cwotâu tariff presennol, er bod Seland Newydd (a chwe gwlad arall) wedi gwrthwynebu'n ffurfiol y cynnig i newid eu cwotâu masnachu â'r DU/UE. Ni fyddai cytundebau masnachu â Seland Newydd ac Awstralia'n cynnig unrhyw gyfleoedd ar gyfer allforio cig oen o Gymru.

## Masnach rydd a chyllid ar gael

- Ni fyddai cytundebau masnach rydd deuochrol â Seland Newydd, Awstralia, UDA a Chanada yn debygol o ffafrio sector cig oen Cymru gan na fyddent yn cynnig cyrchfan allforio yn lle marchnad cig oen yr UE. Gallai fod yn bosibl datblygu allforion cig oen i Ogledd America ond mae gwledydd eraill fel Awstralia wedi cipio'r farchnad honno a byddai angen blynyddoedd arnom i'w datblygu. Byddai mwy o gyfleoedd yng ngwledydd y dwyrain canol a phell lle ceir rhywfaint o fasnach eisoes.
- Os bydd mewnforion o Seland Newydd ac Awstralia yn cynyddu, yna bydd prisiau cig oen yn y DU yn cwympo, gan o bosibl arwain at grebachu'r diwydiant defaid. Mae prisiau cynhyrchu Seland Newydd ac Awstralia dipyn is na rhai'r DU. Yr hinsawdd sy'n rhannol gyfrifol am hynny, ond hefyd, mae Seland Newydd wedi canolbwyntio ar farchnata i Tsiena i greu cydbwysedd o ran carcasau sy'n ennyn cenfigen. O dan y senario hon, bydd lefel y mewnforion, yn enwedig o Seland Newydd ac Awstralia, yn debygol o gael effaith anferth ar y farchnad ar gyfer cig oen yng Nghymru a'r DU gan fod y rhan fwyaf o bobl yn prynu ar sail pris a bydd cynnyrch y gwledydd hyn yn debygol o fod dipyn rhatach na chynnyrch y wlad hon. Cymharol fach yw cwota cig oen Awstralia i'r UE o'i chymharu â Seland Newydd ac maent yn gobeithio cynyddu'r cwota i'r DU ar ôl Brexit.

- Gyda gwerth cig oen yn y farchnad ddomestig yn cwympo, mae'r canlyniadau a ddisgrifir yn senario'r WTO yn dechrau ymddangos. Mae nifer y ffermydd sy'n cynhyrchu ŵyn yn gostwng ac mae llawer llai o anifeiliaid yn pori'r mynyddoedd ac o bosibl llawr gwlad. Heb gyfyngiadau ar fewnforion cig oen o Seland Newydd ac Awstralia, byddai cynhyrchiant yn gostwng yn fawr gydag ambell gynhyrchydd 'arbenigol' yn unig yn goroesi a fydd yn canolbwyntio ar y farchnad 'buy British' ar gyfer cig premiwm o'r ansawdd uchaf. Ond byddai gostyngiad mor fawr yn y cynhyrchiant yn arwain at broblemau hefyd o ran cynnal lladd-dai sy'n gorfod lladd màs critigol i allu llwyddo fel busnesau.

**Goblygiadau amgylcheddol**


- Gallai'r fath ergyd i'r sector defaid arwain at ddiffyg ad-drefnu a buddsoddi ar ffermydd, gyda rhai busnesau ar dir uchel yn dod yn llai proffidiol. Ceir perygl o begynnu rhwng gorbori a gorwrteithio ar y naill law a dim digon o reolaeth neu gefnu llwyr ar y tir ar y llall gydag effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth.
- Gallai newid defnydd tir o ganlyniad i'r cwymp yn incwm y sector defaid arwain at roi'r gorau i ffermio er mwyn plannu coed. Gallai coedwigo amhriodol arwain at golli cynefinoedd gwerthfawr. Ceir rhai cyfleoedd i blannu mwy o goed brodorol i estyn a chlustogi coetiroedd o ansawdd uchel yn ogystal â phlannu coed masnachol mewn mannau priodol sy'n bodloni, os nad yn rhagori, ar arferion gorau UKFS.
- Oherwydd diffyg arian cyhoeddus, mae perygl na fydd modd rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy (SMNR) gan y bydd llai o fecanweithiau a dim digon o arian i wireddu gweledigaeth Deddf yr Amgylchedd. Bydd bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, Safleoedd Dynodedig yn difwyno a chynefinoedd yn darnio ymhellach, naill ai am nad ydynt yn cael eu rheoli neu am nad oes ganddynt stoc/beiriannau. Bydd unrhyw fanteision amgylcheddol all ddod o reoli rhai cynefinoedd yn llai dwys yn hir iawn yn dod.
- Gallai'r effeithiau fod yn dda neu'n ddrwg, gan ddibynnu ar y lleoliad. Er enghraifft, gallai llai o orbori sbarduno aildyfiant naturiol o rug a choetir brodorol gan annog bioamrywiaeth a lleihau erydiad. Ar y llaw arall, gall diffyg pori gael effaith negyddol ar rai cynefinoedd.

## Gwartheg eidion

### Y cyd-destun

Mae gennym 167,828 o fuchod sugno ar 7,435 o ddaliadau yng Nghymru, gyda 23 o wartheg ar gyfartaledd ym mhob buches. Mae 520,000 o wartheg eidion eraill ar ffermydd Cymru, yn anifeiliaid o fuchesi sugno a godro sy'n cael eu pesgi. Nifer gymharol fach o ffermydd sydd gennym yng Nghymru sy'n cadw gwartheg eidion yn unig. Bydd gan ffermydd wartheg godro neu ddefaid hefyd. Mae'r DU yn mewnforio tua 35% o'r rhyw 263,000 o dunelli o gig eidion a chig llo a fwyteir bob blwyddyn. Iwerddon sydd wastad wedi bod y cyflenwr mwyaf, yn gyfrifol am bron 70% o'r mewnforion. Nid oes yr un wlad arall yn cyfrif am fwy nag wyth y cant o'r mewnforion i'r DU. Gweriniaeth Iwerddon a gweddill yr UE sy'n cyflenwi rhagor na 90% o'r mewnforion cig eidion i'r DU. Nid oes yr un wlad o'r tu allan i'r DU yn cyflenwi mwy na 3% o'r cyfanswm.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae allforion cig eidion a llo wedi amrywio rhwng 100,000 a 120,000 o dunelli, cyfwerth â 15-17% o'r cynhyrchiant. Yn 2016, aeth 90% o allforion cig eidion y DU i wledydd eraill yn yr UE. Iwerddon a'r Iseldiroedd yw'r mewnforwyr mwyaf, gan dderbyn 55-65% o'r cyfan a allforir. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau allforio hyn yn adlewyrchu'r farchnad allforion. Collodd y DU lawer o'i chapasiti i brosesu carcasau buchod yn ystod blynyddoedd y BSE ac ni wnaeth byth ei adennill. Mae carcasau bellach yn cael eu hallforio a daw peth o'r cig yn ôl i'r DU i'w brosesu ymhellach – y 'carwsel eidion' fel y'i gelwir[14]."




[14] http://www.uecbv.eu/UECBV/documents/BrexitMeatreport12373.pdf

Gan nad yw'r DU yn hunangynhaliol, efallai y bydd cyfleoedd yn y sector eidion i gynhyrchu yn lle mewnforio: mae'r sector eidion mewn sefyllfa wahanol i'r sector defaid. I bob pwrpas, ceir dwy system gynhyrchu – gwartheg sugno a chig eidion o'r fuches odro. Os bydd nifer y gwartheg godro'n cynyddu, yna bydd eidionnau o'r fuches odro yn cynyddu hefyd. Gallai'r sector cig eidion wynebu problem â chydbwysedd carcasau, ond i raddau lawer llai na'r sector cig oen, er y gallai'r cyflenwad o doriadau is eu gwerth ac offal fod yn fwy na'r galw amdano yn y DU.

Yn y cyfnod o ansicrwydd ynghylch trefniadau masnachu, byddai ffermwyr a phroseswyr yn elwa o gydweithio. Mae angen i'r ddau ddeall y cyfleoedd a'r bygythiadau, gan weithio gyda'i gilydd i newid y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau y manteisir yn llawn ar y posibiliadau masnachu ar ôl Brexit. Byddai gweithio gyda'i gilydd i ddeall yn well yr heriau penodol yn arwain at ateb cyflymach ac yn dod â manteision i'r gadwyn cyflenwi cig coch yn ei chyfanrwydd.

Mae'r cig sy'n cael ei fewnforio o Iwerddon yn dod o ffermydd a chanddynt systemau cynhyrchu tebyg i'r rheini yng Nghymru. Gallai cig eidion rhatach o rannau eraill y byd ddisodli cig eidion o Iwerddon ond byddai mewnforio cig o fodelau cynhyrchu gwahanol ac â safonau gwahanol yn tanseilio pris y DU. O gofio'r gofyn presennol i fewnforio cig eidion i ateb y galw, byddai'n bwysig i gadwyn cyflenwi cig coch Cymru a'r DU gloriannu gwerth y llif masnach a'r potensial i gynyddu capasiti ar gyfer cynhyrchu yn y wlad hon cyn arwyddo unrhyw gytundeb masnachu newydd.

## Dim cytundeb

- Byddai masnachu o dan amodau'r WTO yn amharu'n sylweddol ar y fasnach bresennol ac ar y cadwyni cyflenwi. Byddai'n amharu ar y "Carwsel Cig Eidion" lle mae carcasau cig eidion (cig buchod yn aml) yn cael eu hallforio a'u prosesu yn Iwerddon neu'r Iseldiroedd, a'r cynnyrch yn cael eu hailfewnforio i'r DU. Byddai unrhyw dariffau a osodir ar y cig wrth iddo groesi ffiniau yn amharu ar y fasnach ac yn ei gwneud yn anhyfyw. Gallai hyn olygu her arbennig i gynhyrchwyr Gogledd Iwerddon pe bai eu cig eidion yn gorfod dod i Brydain ar gyfer ei brosesu yn hytrach na'r Weriniaeth.
- Yr ymateb ar y fferm i farchnad gyfnewidiol efallai yw dwysáu, yn enwedig os bydd cynnydd yn y cig eidion o'r fuches odro. Bydd ar systemau buchod sugno llai dwys angen premiwm uwch neu ryw fath o daliad cymorth i ffermwyr gadw gwartheg a chynnal gwaith rheoli cynefin.
- Nid yw llawer o wledydd yn cael allforio i'r UE oherwydd y gwaharddiad ar ddefnyddio'r triniaethau hybu tyfiant, gwrthfiotig a hormonaidd a ddefnyddir mewn systemau cynhyrchu cig eidion. O dan reolau'r WTO, byddai'n rhaid i'r DU amddiffyn y safbwynt hwn o fewn cytundebau masnachu â gwledydd y tu allan i'r UE. Pe bai'r DU am fynd yn groes i'r UE ynghylch defnyddio'r triniaethau hyn, gallai hynny arwain at broblemau masnachu mawr, er enghraifft dewis rhwng allforio cig eidion i'r UE neu ganiatáu mewnforio cig eidion rhad o wledydd eraill.
- Gan y bydd proseswyr cig eidion yn awyddus i dalu llai o dariffau, byddent yn symud eu gwaith prosesu i'r wlad lle mae'r cig eidion yn cael ei fwyta (gan fod tariffau'n uwch ar gyfer cynnyrch wedi'u prosesu). Gallai hynny arwain at ailstrwythuro'r system prosesu cig eidion yn Iwerddon a'r DU yn fawr. Clywir bod cwmnïau eisoes yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwneud mwy o waith prosesu cig yn y DU. Gan ddibynnu ar y drefn tariffau, gellid mewnforio cig eidion o Iwerddon i'r DU yn 'fyw' neu fel toriadau sylfaenol, i'w prosesu ymhellach ar gyfer marchnad y DU.
- Gallai peth ad-drefnu ddigwydd ar ffermydd, gydag efallai mwy o ddefnydd ar systemau llai dwys, isel eu mewnbwn a buchesi mawr ar

draul y fferm fach deuluol. Mae'n anorfod y bydd bwlch o amser cyn y gall ffermydd ymateb i'r newid wrth iddyn nhw aros i amodau newydd y farchnad ymsefydlu. Mae cylchoedd bridio hefyd yn golygu na chaiff y newidiadau hyn effaith ar ddulliau cynhyrchu ar unwaith. Efallai y bydd ar ffermydd angen buddsoddi neu ystyried ffynonellau incwm eraill i lwyddo'n ariannol. Os daw'r elw ar gig eidion o dan bwysau, ni fydd yr opsiwn traddodiadol i roi'r gorau i gadw gwartheg er mwyn cadw defaid bellach yn ymarferol, hynny oherwydd y pwysau ar y sector defaid fel y disgrifir uchod.

- Er bod heriau sylweddol, fe fyddai'r drefn o dan yr WTO yn gosod tariffau ar gynnyrch a fewnforir gan greu cyfleoedd i gynhyrchu yn lle mewnforio, datblygu brand premiwm; ac efallai ffyrdd newydd o ddefnyddio'r carcas cyfan/y 5ed chwarter. Dylai Cymru ystyried prosesu carcasau eidion yn gyfle i gynhyrchu cynnyrch newydd yn lle'r rheini a fewnforir ar hyn o bryd.

## Cytundeb â'r UE

- Y senario debycaf i sefyllfa heddiw fyddai mynediad at farchnad sengl yr UE gyda lefelau cyllido tebyg i'r rheini a geir nawr. Hynny fyddai'n golygu'r newid lleiaf i ffermydd a'r gadwyn gyflenwi. Byddai'n rhaid i systemau cynhyrchu gydymffurfio â'r rheoliadau Ewropeaidd presennol (cyfwerthedd) i gyflenwi marchnad yr UE.
- Byddai lefelau masnachu â 27 gwlad yr UE yn debyg i'r lefelau cyfredol er y gallai'r math o fasnachu a ddisgrifir o dan y "carwsel cig eidion" newid gan y gallai costau "heblaw am dariffau" o 5-10% olygu y byddai'n aneconomaidd croesi nifer o ffiniau. Bydd systemau sugno'n parhau i ddirywio heb gymorth ar gyfer pori cynefinoedd. Bydd angen amser i'r cadwyni cyflenwi newid neu ymateb gan fod angen amser ar fusnesau i asesu'r prosesau masnachu newydd a'r prosesau wrth ffiniau ac addasu iddynt.

## Masnach rydd amlochrog

- Byddai tynged y diwydiant cig eidion yn dibynnu ar unrhyw FTA a arwyddir gyda Seland Newydd, Awstralia, UDA a De America. Mae'r holl wledydd hyn yn allforio cig eidion. Gallai caniatáu ychydig o fynediad i farchnad cig eidion y DU roi hwb i allu'r diwydiant i gystadlu a gallai tariffau roi manteision i gynhyrchwyr y DU.  Fodd bynnag, byddai agor marchnad y DU yn llwyr i'r allforwyr hyn, neu rai ohonynt, yn debygol o gael effaith negyddol ar brisiau cig eidion domestig. Dim ond y cynhyrchwyr sy'n perfformio orau fydd yn gallu cystadlu. Mae'n anodd rhagweld amserlen yr effeithiau hyn.

## Goblygiadau amgylcheddol

- Gallai ailstrwythuro buches sugno'r wlad olygu cefnu ar systemau pori llai dwys.  Mae'r systemau hyn yn bwysig i gadw cynefinoedd lled-naturiol pwysig fel glaswelltiroedd corsiog, mewn cyflwr da.
- Un fantais bosibl yw ychydig o ostyngiad yn allyriadau nwyon tŷ gwydr a llai o lygredd amaethyddol mewn dŵr wrth i'r sector grebachu yng Nghymru ond os bydd lefelau bwyta cig eidion yn parhau, yna caiff allyriadau nwyon tŷ gwydr eu hallforio i fannau eraill.
- Bydd y modd y defnyddir tir yn debygol o newid os daw mentrau eraill, o gig eidion o'r fuches odro (dan do yn bennaf) i goedwigaeth a chynhyrchu ynni, i gymryd lle buchesi sugno.


## Y sector llaeth

### Y cyd-destun

Yn sector llaeth Cymru, mae gennym 298,100 o wartheg godro sy'n cynhyrchu 1.8 biliwn o litrau o laeth ar 1,700 o ffermydd godro. Mae 31% o gyfanswm cynhyrchiant amaethyddol Cymru yn llaeth. Gwelodd y sector lawer o ailstrwythuro yn yr 20 mlynedd diwethaf ac er bod nifer y ffermydd godro wedi'u haneru, mae'r fuches odro Gymreig wedi tyfu, gyda'r fferm gyffredin ar gyfartaledd yn cadw dwywaith yn fwy o wartheg. Er bod y DU yn fewnforiwr net o gynnyrch llaeth, mae allforion yn bwysig. Allforir gwerth £1.31 biliwn o gynnyrch llaeth a mewnforir gwerth £2.51 biliwn, gan adael diffyg o £1.2 biliwn (2014).  Yn gyffredinol, mae'r DU yn 75% hunangynhaliol o ran cynnyrch llaeth ond mewnforir caws a menyn 'pob dydd' yn ogystal â chynnyrch premiwm uchel ei werth wedi'i brosesu. Ceir cyfyngiadau ar y capasiti prosesu llaeth yng Nghymru. Allforir 50% o laeth Cymru i Loegr gyda 50% ohono'n cael ei brosesu, yn bennaf i wneud caws. Mae cynhyrchiant yn y DU yn cynyddu a bydd angen buddsoddi mewn prosesu llaeth i gynnal y twf hwn ac i'w gadw'n effeithlon[15].

Bydd dyfodol y sector yn dibynnu ar y trefniadau masnachu a wneir ar ôl Brexit. Â lefelau cymharol isel o hunangynhaliaeth mewn cynnyrch llaeth a marchnad gref yn y DU sy'n seiliedig ar gynnyrch ffres, gallai'r sector dyfu a ffynnu. Mae'r boblogaeth yn tyfu ac yn ymgyfoethogi gan golygu bod gwerthiant cynnyrch llaeth ar gynnydd. Y duedd yw twf o 2% y flwyddyn.

Byddai unrhyw amharu ar y farchnad yn sgil unrhyw newid yn y trefniadau masnachu presennol yn arwain at beth ansefydlogrwydd yn y farchnad ac mewn prisiau llaeth yng Nghymru a'r DU. Mae cadwyn gyflenwi'r sector llaeth yn gymhleth a gallai'r effeithiau arni fod yn fawr os nad yw'r elfennau cynhyrchu a phrosesu a'r marchnadoedd wedi'u halinio. Gwelwyd hynny yn yr her i brisiau llaeth yn y blynyddoedd diwethaf, lle cafodd amhariadau i lif masnach i mewn i Rwsia effaith ddifrifol ar brisiau cynhyrchwyr Ewrop, gan gynnwys sector llaeth Prydain.




[15] https://dairy.ahdb.org.uk/resources-library/market-information/adhoc-reports/the-feasibility-of-a-dairy-producer-organisation-in-wales-report/

Mae'n bosibl y bydd y sector yn wynebu cryn her, gan ddibynnu ar y sefyllfa o ran y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o laeth Gogledd Iwerddon yn cael ei brosesu yn y Weriniaeth. Os bydd ffin galed rhwng y Gogledd a'r De, ac os cyflwynir tariffau hefyd, byddai allforio llaeth gwlyb i Gymru/Prydain i gael ei brosesu yn opsiwn mwy hyfyw. Os bydd unrhyw newid yn digwydd yn gyflym, gallai hynny arwain at "argyfwng llaeth", oherwydd na fyddai digon o gapasiti prosesu yn y DU i ymdopi â mwy o laeth. Mae pwysau ar gapasiti prosesu eisoes yn ystod misoedd y gwanwyn, pan fo llawer o laeth yn cael ei gynhyrchu. Mae cynhyrchiant yn Iwerddon yn fwy tymhorol o lawer nag ym Mhrydain.

Mae ffermwyr godro wastad wedi dioddef anfantais yn eu contractau llaeth gan ysgwyddo lefel anghymesur o'r risg a ddaw yn sgil anwadalwch y cyflenwad a'r farchnad. Mae hwn yn fater y tu allan i Brexit ond bydd yn ffactor bwysig o dan y trefniadau masnachu newydd. Yn y dyfodol, dylid rhannu risg prisiau cyfnewidiol ar hyd y gadwyn gyflenwi. Mae angen contractau gwell a mwy tymor hir ar ffermwyr godro i osgoi'r amodau "ffynnu a ffaelu" a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

## Dim cytundeb

- Byddai tariffau'r WTO ar fewnforion ac allforion yn ffafrio cynnyrch o Gymru a'r DU drwy wneud mewnforion yn ddrutach a chaniatáu i gynnyrch domestig gymryd lle cynnyrch tramor. Byddai prisiau cynnyrch llaeth i'r defnyddiwr yn cynyddu. Mae allforion cynnyrch llaeth i'r UE yn fach ond yn arwyddocaol a byddai angen ychydig o ailstrwythuro ar y capasiti prosesu a marchnadoedd er mwyn cael hyd i farchnadoedd domestig ar gyfer cynhyrchion a fyddai'n cael eu hallforio.
- Cyn gynted ag y daw'r farchnad i ddeall y bydd yn gweithredu o dan reolau'r WTO, gallai fuddsoddi mewn ffatrïoedd prosesu gan y byddai cynhyrchu bellach yn lle mewnforio'n broffidiol. Efallai y bydd Gogledd Iwerddon am fuddsoddi mewn prosesu llaeth os na fydd yn broffidiol prosesu yn y Weriniaeth oherwydd tariffau ar symud llaeth allan o'r DU ac ar fewnforio cynnyrch o'r UE.
- Gallai costau mewnbynnau e.e. porthiant a gwrtaith, sy'n dod yn bennaf o'r UE neu drwy'r UE, gynyddu.
- Gyda'r newidiadau posib i'r marchnadoedd cig eidion, dylai'r sector llaeth fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd y gallai cig eidion eu cynnig. Bydd yn bwysig rhoi mwy o sylw i gig eidion o loi dros ben a buchod hesb y fuches odro os bydd pris cig eidion yn cynyddu ac os bydd y sector llaeth yn tyfu.

## Cytundeb â'r UE

- Fel ag o dan amodau'r WTO, bydd y sector llaeth yn llai tebygol o ddioddef oherwydd tariffau ar ffiniau gan fod y farchnad ddomestig yn gryf. O dan Gytundeb Masnach Rydd (FTA) â'r UE, byddai'r modelau busnes presennol yn debygol o bara; dyma'r senario debycaf i'r status quo. Gallai fod newidiadau tebyg i'r rheini yn y sector cig eidion, gyda'r gwaith prosesu ar gyfer marchnad y DU yn symud i'r DU a'r gwaith prosesu ar gyfer marchnad yr UE yn symud i'r UE. Fe fydd pendraw i hyn gan fod llaeth amrwd yn ddarfodus ac yn swmpus ac felly'n ddrud ei gludo. Gallai hynny arwain at waith prosesu uwch ei werth, fel pwdinau ac iogwrt, yn symud i'r DU ond gan gael ei wneud o laeth y DU. Bydd yr effaith ar ffermwyr godro'n debygol o fod yn fwy niwtral.

- Ni fydd y senario hon yn debygol o newid diwydiant llaeth Cymru yn sylweddol. Mae llaeth Cymru yn dal i fod eithaf pell o'r prif farchnadoedd ac y bydd felly'n debygol o barhau i fod yn ffynhonnell 'wrth gefn' ar gyfer y farchnad llaeth gwlyb. Byddai diwydiant llaeth Cymru yn elwa o fuddsoddi arwyddocaol mewn prosesu ac mewn ychwanegu at werth er mwyn datblygu model busnes cryfach

## Masnach rydd amlochrog

- Mae allforion yn bwysig i'r sector cynhyrchion llaeth ond mae'r mewnforion yn fwy o ran eu swm a'u gwerth. Mae FTAs ag UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd yn fwy tebygol o ffafrio mewnforion na chynnig llawer o gyfleoedd i allforio. Siocled fyddai'r unig allforyn arwyddocaol. Byddai cyfleoedd pellach i allforio'n dibynnu ar amodau cytundebau masnachu ond bydd datblygu marchnadoedd domestig a chynhyrchu yn lle mewnforio yn debygol o fod yn bwysicach. Efallai y daw cyfleoedd i allforio cynnyrch llaeth i Tsieina. Maent eisoes yn mewnforio powdwr llaeth i blant a rhai cynhyrchion llaeth 'arbenigol'. Yn hanesyddol, nid ydynt wedi bod yn ddefnyddwyr mawr ar laeth ond mae'r boblogaeth yn fawr ac yn tyfu, ac yn ymgyfoethogi, a gall Tsieina felly fod yn farchnad bosibl i allforion o'r DU.
- Mae modelau'r AHDB yn rhagweld dirywiad economaidd o dan y senario hon gyda chwymp arwyddocaol yn Incwm Busnesau Fferm o'i gymharu â'r llinell sylfaen bresennol.

## Goblygiadau amgylcheddol

- O dan senarios y WTO a'r FTA, bydd y sector llaeth yn tyfu ac yn dwysáu. Bydd gofyn am reolaeth gynaliadwy ar y gwelliant hwn yn hyfywedd economaidd y sector. Rhaid wrth gynllunio gofalus (lleoli a dylunio) i leihau'r peryglon a ddaw o gamreoli slyri yn sgil buddsoddi i gynyddu cynhyrchiant domestig i gymryd lle mewnforion.
- Problemau cynyddol o ran rheoli maethynnau, yn enwedig nitrogen a ffosfforws, oherwydd y risg y gallai nifer y gwartheg gynyddu i fod yn fwy na all y tir ei gario.
- Y risg y gall nwyon tŷ gwydr gynyddu, oherwydd nifer y gwartheg a chynhyrchiant uwch. Effaith bosibl ar fasnachu rhyngwladol gan ddibynnu i ba raddau y bydd partneriaid masnachu'n mynnu safonau amgylcheddol cyfatebol i sicrhau cae chwarae gwastad.
- Cyfleoedd i ddatblygu mwy o atebion penodol sy'n seiliedig ar le i broblemau maethynnau. Gallent ategu rheoliadau ar gyfnodau "dim gwasgaru" slyri, tail a gwrtaith nitrogen yn ogystal â safonau gofynnol ar gyfer storfeydd slyri.


## Porc

### Y cyd-destun

Mae sector moch Cymru yn fach; mae gennym 3,515 o foch magu a 21,000 o foch yn cael eu pesgi ar 1,369 o ddaliadau. Mae gan Gymru lai na 0.5% o foch y DU ac mae'n 5% hunangynhaliol mewn porc. Mae'r DU yn fewnforiwr net o gig moch, gan fewnforio tua 60% o'r hyn a fwyteir, y rhan fwyaf ohono'n gynnyrch uchel ei werth, fel bacwn.[16] Mae bron yr holl fewnforion yn dod o'r UE gyda Denmarc, yr Almaen a'r Iseldiroedd yn gyfrifol am ragor na 60% o'r mewnforion i'r DU. Mae tariff ar borc a fewnforir i'r UE, er mai ychydig iawn o gig moch a ddaw i'r UE o weddill y byd. O gydbwyso allforion a mewnforion, mae'r DU yn 55% hunangynhaliol o ran porc. Mae mewnforion yn cynnwys symiau mawr o facwn, gamwn, ham a selsig.

Bydd cyfle i gynyddu'r sector moch yn y DU ac yng Nghymru o dan bob senario fasnachu. Fel ag yn achos cig eidion ac oen, ceir cyfleoedd masnachu all fynd i'r afael â phroblem cydbwysedd carcasau, yn enwedig o ran allforio offal.

Mae ffermio moch yng Nghymru o dan rai anfanteision, fel ei bellter o'r cnydau porthiant âr a'r farchnad, a phridd a thywydd, sy'n golygu nad yw systemau awyr agored isel eu cyfalaf yn bosibl. Er hynny, fe geir cyfleoedd i ddatblygu ffermydd mwy cymysg yng Nghymru, i ddefnyddio sbarion bwyd pobl a datblygu cadwyni bwyd byrrach drwy gyflenwi porc o Gymru i bobl Cymru.




[16] http://www.uecbv.eu/UECBV/documents/BrexitMeatreport12373.pdf

Mae mwy a mwy o borc a chynnyrch porc yn cael eu bwyta. Mae mwy o borc yn cael ei fwyta fesul pen na chig oen a chig eidion gyda'i gilydd; er bod mwy o fwyta ar gig cyw iâr.

Ychydig o help sy'n dod i ffermwyr moch o Golofn 1 a byddant yn debygol o barhau'n broffidiol o dan drefniadau'r WTO neu Gytundebau Masnach Rydd (FTA). Byddai cynhyrchion porc i bobl y DU yn cynyddu yn eu pris oni cheir FTA gyda thariffau isel ar fewnforion a fyddai'n caniatáu inni fasnachu ar brisiau byd-eang. Byddai tariffau mewnforio isel ar gig moch yn fygythiad i'r sector fel y byddai newid yn arferion bwyta cig coch e.e. pe bai pobl yn bwyta mwy o gyw iâr, cig eidion neu gig oen yn lle porc.

## Dim cytundeb

- Mae'r tariff ar borc a chynnyrch cig moch yn uchel, gan rwystro unrhyw gig moch o'r tu allan i'r UE rhag ymuno â marchnadoedd yr UE, gan gadw prisiau'r UE yn uchel. Mae costau cynhyrchu a phrisiau masnachu prif allforwyr cig moch y byd yn is: UDA, Canada a Brasil. O dan senario fasnachu WTO, byddai sector moch y DU yn tyfu i gyflenwi'r farchnad ddomestig wrth i fewnforion o'r UE gynyddu yn eu pris. Byddai allforion yn crebachu, gan greu problemau â chydbwysedd carcasau.

## Cytundeb â'r UE

- Bydd mewnforion o'r UE i'r DU yn parhau ond byddai costau heblaw tariffau'n helpu'r farchnad ddomestig i dyfu a dylem ddod yn fwy hunangynhaliol. Bydd y modelau busnes presennol yn debygol o bara; y senario hon yw'r debycaf i'r status quo. Ni fydd cymaint o broblem â chydbwysedd carcasau gan y bydd modd allforio toriadau rhad ac offal o dan gytundebau masnachu a bydd costau uwch masnachu'n ffafrio cynhyrchu domestig.

## Masnach rydd amlochrog

- Byddai'r effaith ar y sector yn dibynnu ar ba wledydd fydd yn arwyddo FTA a beth fydd yr amodau. Gallai bloc masnachu UDA a Mercosur (America Ladin) allforio cig moch i'r DU o dan FTA sy'n ei ffafrio, yn enwedig gan fod ei gostau cynhyrchu'n is na rhai'r DU. Dyma ganlyniad posib pe bai'n bolisi gan Lywodraeth y DU i gadw'r prisiau i lawr i'r defnyddiwr.

## Goblygiadau amgylcheddol


- Os caiff unedau newydd eu hadeiladu neu gynhyrchiant ei ddwysáu, rhaid wrth ofal wrth eu dylunio, eu lleoli a'u rheoli rhag esgor ar effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac i leihau'r perygl o lygru dŵr oherwydd problemau â rheoli tali. Bydd perygl hefyd o fwy o lygredd aer wrth wasgaru tail sy'n gollwng amonia mewn cynefinoedd sensitif.

## Dofednod

### Y cyd-destun

Mae'r sector dofednod yn bwysig o safbwynt economaidd, ond ei fod wedi'i wneud o nifer fach o unedau mawr. Mae'n parhau i dyfu ac mae'r galw'n cynyddu er nad yw'r DU yn hunangynhaliol mewn cig dofednod na wyau.

| | DU (2016, miliynau) | Cymru (2017, miliynau) | Cymru % o'r DU |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm dofednod | 172.6 | 7.74 | 4.5 |
| Ieir dodwy | 38.1 | 2.04 | 5.3 |
| Haid fridio | 12.7 | 1.48 | 12.0 |
| Brwyliaid/ieir bwyta | 110.6 | 4.00 | 3.6 |
| Arall | 11.2 | 0.23 | 2.0 |



Mewnforir gwerth £2.0 biliwn o gig dofednod i'r DU bob blwyddyn ac os bydd y tueddiadau'n parhau, bydd hyn yn cynyddu. Cig tywyll ac offal yw'r rhan fwyaf o'r £350 miliwn o allforion. Mae llawer o gig dofednod yn cael ei fwyta yn y DU.  Mae 42% o'r holl gig a fwyteir yn y DU yn gig dofednod a disgwylir i'r cynnydd barhau.

Mae'r DU yn ganolfan bwysig ar gyfer masnachu geneteg dofednod ac ar gyfer stoc bridio ar draws Ewrop.

Mae rhyw 60% o lafur y sector yn dod o'r tu allan i'r DU, felly gallai cyfyngiadau ar fewnfudo gael effaith sylweddol ar y sector.

Mae gan unedau dofednod gontractau cyflenwi â phroseswyr ac adwerthwyr. Cedwir rheolaeth glos ar y cyflenwad i farchnadoedd ac ar gostau ac mae'r elw fesul uned yn fach. Mae ffermydd felly'n gymharol fawr a cheir cryn fuddsoddi mewn seilwaith. Nid oes cymhorthdal gan yr UE ar gyfer cynhyrchu dofednod.

Gallai'r sector gynyddu'n gyflym pe bai'r amgylchiadau economaidd yn ffafriol. Ond mae angen buddsoddi llawer o arian mewn siediau a cheir ystyriaethau cynllunio pwysig.

Yng Nghymru, mae'r sector dofednod wedi bod yn gymharol sefydlog gyda rhwng 7 a 9 miliwn o adar ond mae llawer iawn wedi'i fuddsoddi mewn siediau newydd, yn enwedig ar bwys y ffin â Lloegr. Er y bu cynnydd clir, nid yw nifer y dofednod yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n dal yn llai na chanran y boblogaeth pobl. Mae twf y sector dofednod maes yng Nghymru wedi rhoi cyfle gwerthfawr i ffermwyr arallgyfeirio a chryfhau'u busnesau. Wrth i'r sector dyfu, ceir pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar ansawdd aer a dŵr.

Mae'r fasnach mewn dofednod a chynnyrch dofednod yn cynyddu'r risg o fewnforio clefydau dofednod. Drwy fod yn fwy hunangynhaliol, gall y DU ymateb yn annibynnol i fygythiad o glefyd. Ar y llaw arall, bydd achos o glefyd yn y DU yn fygythiad i'r cyflenwad. Ceir cyfle hefyd i gynhyrchu mwy o adar hela, o gofio faint o wyau a chywion diwrnod oed sy'n cael eu mewnforio o Ffrainc.

### Dim cytundeb

- Mae'r UE yn gosod tariff ar gig dofednod o'r tu allan i'r UE er y ceir rhai mewnforion o dan Gwotáu Tariff. Byddai masnachu o dan amodau'r WTO gyda thariffau yn cael effaith arwyddocaol ar y fasnach, gan wneud cig dofednod yn y DU yn ddrutach. Byddai hynny'n rhoi cyfle i gynhyrchu mwy gartref ond os na all y DU gael hyd i farchnadoedd eraill ar gyfer cig tywyll, offal ac ieir hesb, byddai'n anodd cael hyd i farchnad ar gyfer y cynhyrchion hyn.
- Gellir cynyddu'r cyflenwad o gig dofednod yn gyflym ond mae'n dibynnu ar fuddsoddi llawer o gyfalaf mewn cyfleusterau. Mae'r costau sefydlu felly yn uchel a gall yr elw bach ac amrywiol fod yn rhwystr i'r rheini sydd am ehangu. Byddai pris cig dofednod yn y DU yn debygol o gynyddu, gan ganiatáu inni barhau i fewnforio, hyd yn oed â thariffau, a/neu gan arwain at fwyta llai ohono a bwyta mwy o gig coch.
- Mae wyau a chynnyrch wyau'n cael eu masnachu â'r UE. Mae'r rhan fwyaf o wyau a werthir yn eu masgal wedi'u cynhyrchu yma.  Mae brand "British Lion" y DU yn ennyn llawer o hyder, ac mae 90% o'r wyau a werthir yn y DU yn cario'r logo. Mae'r rhan fwyaf o'r wyau a fewnforir i'r DU yn wyau sydd wedi'u prosesu neu'n wyau hylif sy'n cael eu defnyddio i weithgynhyrchu.
- Daw'r bygythiad i farchnad wyau'r DU o wledydd y tu allan i'r UE sydd â safonau lles is (e.e. systemau cewyll) a statws iechyd is.


### Cytundeb â'r UE

- Mae'r UE yn hunangynhaliol mewn cig dofednod a wyau ond ceir llawer o fasnachu â gwledydd y tu allan iddo. Fel ag yn y DU, mae'n well gan bobl yr UE gig gwyn; mae'r cig tywyll a'r offal yn cael eu hallforio. Mae sector dofednod y DU yn dibynnu ar barhad y fasnach hon.

### Masnach rydd amlochrog

- Brasil, UDA a Hong Kong yw prif allforwyr cig dofednod. Byddai FTA rhwng yr UE a gwledydd Mercosur yn eu helpu i fasnachu â'r UE.
- I fasnachu ag UDA, bydd angen cytundeb ar fesurau glanweithiol ac iechyd planhigion gan gynnwys ar broblem golchi cig â chlorin. Nid ar chwarae bach y ceir cytundeb o'r fath.
- Byddai cytundebau FTA â gwledydd fel UDA a gwledydd Mercosur sy'n allforio cig dofednod a wyau, yn caniatáu inni gadw'r prisiau yn y siopau'n isel ond byddent yn debygol o roi pwysau trwm ar gynhyrchwyr y DU.

## Iechyd a lles anifeiliaid




Yng Nghymru, ein nod yw codi safonau iechyd a lles anifeiliaid gan gydnabod yr un pryd eu goblygiadau i’r amgylchedd a chymdeithas. Mae **Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid[17]** yn disgrifio cynllun ar gyfer sicrhau gwelliant di-dor a pharhaol yn safonau iechyd a lles anifeiliaid cadw, gan ein helpu hefyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chyfrannu at yr economi a’r amgylchedd.

Mae manteision gwella safonau iechyd a lles yn amlwg:

- mae gan anifeiliaid ansawdd bywyd gwell
- mwy cynhyrchiol
- mwy effeithiol
- cryfach
- mwy proffidiol.

Mae penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar bolisi amaeth, gan gynnwys lles anifeiliaid fferm a masnachu bwyd-amaeth.


[17] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/wales-animal-health-welfare-framework/?lang=cy

Dywedodd Prif Weinidog y DU wrth Dŷ'r Cyffredin ar 8 Chwefror 2017 (o'i chyfieithu), "Dylem ymfalchïo bod gennym ni yn y DU rai o'r safonau lles anifeiliaid gorau yn y byd – yn wir, mae gennym un o'r sgoriau gorau yn y byd am amddiffyn anifeiliaid. Ni fydd gadael yr UE yn newid hynny".[18]

Mae rhai darnau o ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n gymwys i Gymru yn gosod y gofynion sydd eu hangen i amddiffyn iechyd pobl ac anifeiliaid a diogelu'r gadwyn fwyd. Bydd gofyn inni gadw'r gofynion a'r safonau hyn, ni waeth beth yw'n hymrwymiadau i'r UE, rhag peryglu'r cyhoedd, yr amgylchedd ac economi Cymru.[19]

Barn Cymdeithas Milfeddygon Prydain am Brexit yw y dylid o leiaf cadw safonau iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, iechyd pobl, milfeddyginiaethau, y gweithlu ac amddiffyn yr amgylchedd ar yr un lefel neu lefel sy'n gyfwerth â safonau cyfredol yr UE ond gan fanteisio ar y cyfle i wella safonau iechyd, lles a moeseg anifeiliaid yn unol â dadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r risg.

Mae lles anifeiliaid yn un o blith nifer o bryderon mawr eraill – hinsawdd sy'n newid, colli bioamrywiaeth, ymwrthedd i wrthfiotigau a diogelu cyflenwadau bwyd ar gyfer poblogaeth ddynol sy'n tyfu. Mae diogelu iechyd a lles anifeiliaid ymdeimladol yn bwysig fel llinyn mesur o gynnydd cymdeithas, yn ogystal ag yn gyfraniad at wireddu amcanion cynaliadwyedd. Rhaid i'r DU hyrwyddo lles anifeiliaid fel nod datblygu cynaliadwy pwysig. Mae masnach yn fodd i wireddu hyn.




[18] https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/lords-select/eu-energy-environment-subcommittee/news-parliament-2017/brexit-farm-animal-report-published/

[19] Diogelu Dyfodol Cymru: Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/eutransition/?skip=1&lang=cy

Ar ôl Brexit, gallai fod yn anodd sicrhau safonau lles cyson yn holl wledydd datganoledig y DU. Gallai safonau wahanu gan gael effaith andwyol ar les anifeiliaid yn ogystal ag ar statws clefydau'r DU a'i gallu i ymateb i glefydau. Ein cri felly yw bod pedair gwlad y DU yn parhau i weithio gyda'i gilydd er lles iechyd a lles anifeiliaid, ac er lles iechyd y cyhoedd.

Mae pobl y DU yn meddwl bod lles eu hanifeiliaid fferm yn bwysig. Ond gallai cytundebau masnachu yn y dyfodol danseilio'r pwysigrwydd hwnnw. Dywedodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: "the greatest threat to farm animal welfare standards post-Brexit would come from UK farmers competing against cheap, imported food from countries that produce to lower standards than the UK." Lle ceir cyfle i wella lles anifeiliaid fferm, dylid ei ystyried ym mhob cytundeb masnachu yn y dyfodol.

## Dim cytundeb

- Mae tariffau'r WTO yn is ar anifeiliaid byw. Mae'r cynnydd disgwyliedig posib mewn mewnforion byw yn cynyddu'r risg o fewnforio clefydau. Bydd angen o hyd inni gydweithio â'r UE mewn meysydd fel cadw gwyliadwriaeth ar glefydau (e.e. parhau'n aelod o'r System Hysbysu am Glefydau Anifeiliaid), banc brechlynnau'r UE a gwaith Ymchwil a Datblygu pellach ar glefydau anifeiliaid.
- Gallai cynnydd yn nifer y problemau lles o dan y senario hon gael effaith andwyol ar y farchnad oni gellid cytuno ar gyfnod pontio.

### Milfeddygon

- Mae milfeddygon sy'n gweithio fel rheolwyr swyddogol ar ffermydd, safleoedd bwyd a mannau eraill yng Nghymru, yn cynnal archwiliadau ac arolygiadau swyddogol. Mae'r Milfeddygon Swyddogol hyn yn cydweithio â milfeddygon preifat yng Nghymru. Ar sail canlyniad y berthynas weithio effeithiol hon, mae Milfeddygon Swyddogol yn ardystio ac yn goruchwylio mewnforion ac allforion anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid i ac o drydydd gwledydd. Mae rôl milfeddygon ym myd masnach i ddiogelu iechyd y cyhoedd, diogelu bwyd a lles anifeiliaid yn cael ei gydnabod yn yr UE a thrwy'r byd fel gwaith hanfodol.
- Mae'r galw am ardystiadau milfeddygol ar gynnydd a bydd yn tyfu'n sylweddol ar ôl gadael yr UE. Mae Nigel Gibbens, Prif Swyddog Milfeddygol y DU, wedi awgrymu y gallai olygu y bydd o bosibl angen tystysgrif iechyd milfeddygol ar "325%" yn fwy o gynnyrch.
- Bydd yn hanfodol sicrhau bod gan y DU ddigon o filfeddygon i gwrdd â'r galw, i wneud yn siŵr bod y DU yn cael gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i fasnachu cynnyrch amaethyddol. Mae cyn bwysiced cwrdd â'r galw yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Felly, rhaid i'r Llywodraeth allu recriwtio nifer briodol o filfeddygon o wledydd tramor, o'r UE ac o'r tu allan iddo, er mwyn sicrhau y gall y gwaith hwn fynd yn ei flaen.
- Rhoddir tystysgrifau milfeddygol i anifeiliaid byw yn ogystal ag i'r cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid, sef y cynhyrchion sydd naill ai'n dod o anifail neu sydd â chysylltiad cryf ag anifail.
- Mae'n hanfodol cynnal gweithlu digonol o filfeddygon, yn enwedig y rheini sy'n darparu gwasanaethau hanfodol yng nghefn gwlad, i wneud yn siŵr nad yw iechyd a lles anifeiliaid yn dioddef ar ôl Brexit.
- Yn ôl ystadegau Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS), mae'r DU yn dibynnu ar filfeddygon o weddill yr UE. Mae'r RCVS yn cofrestru rhyw 1,000 o filfeddygon tramor bob blwyddyn. O'r rheini, daw'r mwyafrif clir o weddill yr UE. Yn 2015 ac yn 2016, cofrestrodd yr RCVS fwy o filfeddygon o weddill yr UE nag o raddedigion o'r DU. Ar hyn o bryd, o'r 1,038 o filfeddygon sy'n gweithio yng Nghymru, mae bron eu chwarter yn raddedigion o'r UE.

- Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 95% o'r Milfeddygon Swyddogol sy'n gyfrifol am ddilysu ac archwilio hylendid cig mewn lladd-dai wedi graddio dramor a bod mwyafrif clir o'r rheini'n raddedigion o weddill yr UE.
- Yn y tymor byr i ganolig, bydd hi'n amhosib cwrdd â'r galw hwn drwy ddibynnu ar filfeddygon o'r DU. Mater tymor hir a graddol fydd cynyddu nifer y myfyrwyr milfeddygol yn y DU ac mae perygl yn y tymor byr y bydd prinder difrifol o filfeddygon. Bydd iechyd a lles anifeiliaid yn dioddef oni cheir trefniadau i sicrhau bod yma ddigon o filfeddygon ar ôl Brexit.

### Llafur crefftus a gweithwyr eraill

- Mae cyfran arwyddocaol o'r gweithlu iechyd cyhoeddus yn y diwydiant bwyd, gan gynnwys gweithwyr mewn lladd-dai, hefyd yn dod o'r UE. Mae llawer o fusnesau mewn gwir berygl os na fydd eu staff yn cael aros neu os na allan nhw gael gafael ar weithwyr o'r tu allan i'r DU.

### Cyfraith iechyd anifeiliaid yr UE

- Cytunodd gwledydd yr UE, gan gynnwys y DU, ar Reoliad yn ddiweddar oedd yn crynhoi'r holl reolau ar glefydau anifeiliaid heintus yn un gyfraith. Croesawyd hyn gan y byddai'n creu trefn fwy hyblyg a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Er yn ffordd fwy strategol o weithio, ni olygodd fawr o ehangu ar sgôp ac ni ddaw'r rheolau newydd i rym nes y cytunir ar is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys Deddfau Dirprwyedig a Gweithredu). Ni fydd hynny'n debygol o ddigwydd cyn Ebrill 2019.
- Cydnabyddir bod Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE yn ddeddfwriaeth sylfaenol graff, ymarferol a hyblyg a chyfrannodd y DU yn fawr ati. Mae'n blatfform ar gyfer diwygio manylion deddfwriaeth a pholisi rheoli clefydau o ran ymrwymiadau Aelod-wladwriaethau a ffermwyr i gadw gwyliadwriaeth a chynnal safonau ar y fferm.
- Dylid ystyried a ddylai Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE gael ei throi'n ddeddfwriaeth ddomestig neu a oes angen deddfwriaeth Brydeinig ar wahân.
- Byddai mabwysiadu Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE neu rannau sylweddol ohoni, yn debygol o hwyluso masnach â gweddill yr UE.

### Milfeddyginiaethau

- Daw nifer o filfeddyginiaethau o'r UE ond mae'r fasnach ynddyn nhw'n rhedeg ddwyffordd. Mae angen i'r DU a'r UE allu parhau i wneud hyn.
- Mae'n hanfodol gallu cael gafael ar filfeddyginiaethau er budd iechyd a lles anifeiliaid y DU. Mae'n bwysig felly bod unrhyw fesurau rheoleiddio newydd yn caniatáu inni barhau i ddefnyddio cynhyrchion sydd eisoes wedi'u hawdurdodi o dan systemau'r UE heb faich na chost rheoleiddio ychwanegol a heb orfod gofyn i'r DU awdurdodi cynhyrchion sydd wedi'u cymeradwyo gan yr UE ac wedi'u defnyddio'n ddiogel ers blynyddoedd lawer.
- Mae angen i foddion sydd ar gael ar y farchnad ar gyfer trin anifeiliaid gwrdd â'r safonau diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd. Yn ogystal, mae angen rheoleiddio meddyginiaethau a ddefnyddir i drin anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd a sicrhau wrth eu defnyddio na fydd digon o weddillion y cynhwysion actif yn bresennol yn y bwyd i allu anafu pobl. Yn yr UE, sicrheir hynny gan Gyfarwyddeb Cynhyrchion Milfeddyginiaethol 2001/82/EC (fel y'i diwygiwyd). Ceir yn honno'r rheolau ar gyfer gweithgynhyrchu, awdurdodi, marchnata, dosbarthu a chadw gwyliadwriaeth ar filfeddyginiaethau yn Aelod-wladwriaethau'r UE, yn unol â'r gofynion technegol cytûn o ran ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd. Bydd hynny'n osgoi'r rhwystrau ar fasnachu cynhyrchion anifeiliaid sydd wedi'u trin â'r meddyginiaethau hyn. Nodir rheolau'r DU ar filfeddyginiaethau yn y Rheoliadau ar Filfeddyginiaethau (VMR) a gyhoeddir gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

- Mae tair ffordd ar hyn o bryd i awdurdodi milfeddyginiaethau yn y DU. Yn gyntaf, ceir yr awdurdodiad cenedlaethol gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol pan fydd yr ymgeisydd wedi gwneud cais i'r DU yn unig a phan na fydd ganddo fwriad nac awydd trwyddedu na masnachu'r cynnyrch yng ngweddill yr UE. Yr ail yw'r drefn ganoledig, lle bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno papur i'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd ar gyfer trwyddedu cynnyrch ar gyfer ei ddefnyddio ledled yr UE. Yn drydydd, y drefn gyd-gydnabod neu ddatganoledig lle bydd ymgeisydd yn cyflwyno papur i un aelod-wladwriaeth a fydd yn ysgwyddo'r gwaith awdurdodi. Gyda'r drefn hon, bydd aelod-wladwriaeth arall yn gallu cymeradwyo'r cynnyrch drwy 'gyd-gydnabod' ei awdurdodiad marchnata gwreiddiol. Dylai unrhyw gytundeb masnachu newydd gadw'r cysylltiad â systemau cymeradwyo milfeddyginiaethau cyfredol yr UE.
- Mae angen rhagor o ymchwil i oblygiadau posib gosod tariffau ar filfeddyginiaethau sy'n cael eu mewnforio

### Ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd

Mae Llywodraeth y DU wedi dangos arweiniad cryf yma a thros y byd gyda phroblem ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Dywed Strategaeth Pum Mlynedd y DU ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd 2013 - 2018:

- "There are few public health issues of greater importance than antimicrobial resistance (AMR) in terms of impact on society. This problem is not restricted to the UK. It concerns the entire world and requires action at local, national and global level."
- Mae targedau Llywodraeth y DU ar gyfer lleihau'r defnydd o wrthfiotigau'n cael eu cyrraedd ac mae mentrau eraill fel rhan o raglen o welliannau parhaus wedi'u creu gan grwpiau rhanddeiliaid y diwydiant i leihau'r defnydd mewn sectorau.
- Er nad yw'n gyfrifoldeb datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol drwy gydweithio â rhanddeiliaid eraill i sicrhau yr eir i'r afael yn effeithiol â'r mater yng Nghymru.
- Drwy godi safonau iechyd a lles anifeiliaid, paratoi cynlluniau iechyd effeithiol a rheoli clefydau endemig mawr (e.e. BVD) a chlefydau eraill sy'n effeithio ar gynhyrchiant (e.e. cloffni mewn defaid a gwartheg, garged (mastitis) ac ati), ni fydd angen cymaint o wrthfiotigau ar dda byw.
- Rhaid ymgorffori defnydd cyfrifol ar gyffuriau gwrthficrobaidd ar ffermydd fel amod o gytundebau masnachu yn y dyfodol er mwyn sicrhau na thanseilir cynnydd yn y maes hwn.

### Cadw gwyliadwriaeth ar glefydau a bygythiad clefydau

Mae'n bosibl y gallai'r newidiadau ar ôl Brexit gynyddu nifer y ffermydd bach "rhan amser" a'r "anifeiliaid tan y radar" gan fygwth lles anifeiliaid ar lefel fferm ac arwain at fwy o achosion o glefydau anifeiliaid.

Mae perygl y mewnforir mwy o borthiant sy'n deillio o anifeiliaid os caiff y gofynion mewnforio eu llacio ar ôl Brexit. Gallai hynny agor y drws i glefydau.

Bydd dal gofyn cydweithio'n glos â'r UE i gadw golwg ar glefydau. Mae statws iechyd anifeiliaid y DU yn gwella'n gyson, ond mae cadw'r statws hwn yn gofyn am barhau â'r ymrwymiad i gadw gwyliadwriaeth filfeddygol effeithiol, i fod yn barod ac i ymateb mewn ffordd soffistigedig a hyblyg i glefyd. Fel rhan o'r ymrwymiad i strategaeth 'Un Iechyd' fyd-eang, mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd cynnal safonau gwarchod yr amgylchedd (e.e. Cyfarwyddebau'r UE ar Adar a Chynefinoedd) ac iechyd pobl. Mae "Un iechyd" yn strategaeth fyd-eang ar gyfer sicrhau mwy o gydweithredu a chyfathrebu rhwng disgyblaethau ym mhob agwedd ar ofal iechyd i bobl, anifeiliaid a'r amgylchedd (One Health Initiative, 2017).

Yn ogystal â mynd i'r afael â chlefydau egsotig fel y gynddaredd, ffliw'r adar, clwy'r traed a'r genau a chlefyd Affricanaidd y ceffylau, mae'r Strategaeth yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â chlefydau endemig fel brwselosis gwartheg a TB gwartheg. Yn ogystal â rhaglenni ar gyfer rheoli clefydau endemig ac ymateb i glefydau egsotig, mae cadw golwg am glefydau newydd (polisi nad oes iddo fandad drwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd) ac am ddyfodiad clefydau egsotig i'r DU, yn elfennau pwysig o bolisi iechyd anifeiliaid. Nid yw clefydau'n adnabod ffiniau tra bo rhai clefydau'n cael eu cario yn y gwynt ac yn cael eu lledaenu'n bell iawn.

### Cynllun PETS

Daw symud anifeiliaid bach (e.e. cŵn, cathod a ffuredau) o dan Reoliad yr UE rhif 576/2013 (Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes neu PETS fel y'i gelwir). Rheolir symudiadau masnachol gan Gyfarwyddeb yr UE 92/65/EEC ('Cyfarwyddeb Balai'). Mae'r cynllun PETS wedi'i gwneud yn haws ac yn rhatach i berchenogion gludo anifeiliaid anwes rhwng y DU a thir mawr Ewrop. Bydd angen rhoi ystyriaeth i statws y DU o ran y Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes er mwyn sicrhau bod pethau'n parhau'n esmwyth ar ôl Brexit. Gallai'r DU ddod yn wlad restredig neu gallai'r UE barhau i gydnabod pasbortau anifeiliaid anwes y DU fel y mae'n cydnabod pasbortau o'r Swistir, Norwy, Andorra ac eraill heddiw. Un o'r prif ystyriaethau o bersbectif y DU yw rhwystro clefydau nad ydynt wedi croesi'n ffiniau eto. Clefydau fel y gynddaredd a rhai mathau o drogod a llyngyr parasitig.

## Cytundeb â'r UE

- Mae'r DU yn cynnal safonau lles uchel. Ceir pryder y gallai pwysau o du ffermwyr i ddiddymu neu newid y rheoliadau presennol a sicrhau cyfwerthedd â'r UE gael effaith andwyol ar iechyd a lles anifeiliaid.
- Mae'r DU yn aelod o'r UN OIE (World Organisation for Animal Health) sy'n gosod safonau sy'n gyson â safonau'r UE ar gyfer masnachu anifeiliaid. Barn y DU yw y gallai gefnu ar rai o'r safonau, yn enwedig safonau TB, ond ni fyddai hynny'n gyson â pholisïau yng Nghymru. Mae nodau'r safonau yn wahanol mewn gwledydd sy'n datblygu a gwledydd datblygedig ond dylai Cymru (a'r DU) gael eu gweld yn gosod y safonau ac yn arwain y ffordd. Byddai hynny'n ategu neges 'Brand Cymru' ynghylch cynaliadwyedd a safonau cynhyrchu uchel.
- Byddai statws clefyd y wlad yn bwysig mewn unrhyw drafodaeth am Gytundeb Masnach Rydd. Byddai gofyn i'r DU weithio gyda'r UE a'r OIE i benderfynu pa glefydau ddylai gadw eu statws statudol.
- Awdurdodi Cyffuriau – bydd prosesau'n gorfod cael eu hawdurdodi. Ni chaiff meddyginiaeth a gynhyrchir y tu allan i'r UE (sy'n rhatach) gymryd lle meddyginiaeth sydd wedi'i hawdurdodi, oni bai bod FTA yn rhoi caniatâd penodol i hynny. Yn y senario hon, byddai'r FTA wedi cael ei lunio dros 2 flynedd ac mae'n annhebygol y byddai'n caniatáu defnyddio cynnyrch yn y dyfodol sydd ar hyn o bryd heb ei awdurdodi. Felly, mae'r UE yn cadw ei afael ar reoli'r defnydd o feddyginiaethau, cyn belled mai'r UE yw'r brif farchnad.
- Bydd hyn yn effeithio ar fwy na masnach yn unig – byddai gofyn ystyried symudiadau anifeiliaid eraill fel ceffylau, cŵn ac anifeiliaid anwes eraill. Mae yna gytundeb teirochrol ar hyn o bryd sy'n ymdrin â materion fel symudiadau a phasbortau anifeiliaid anwes.

- Bydd gofyn sefydlu Mannau Archwilio ar y Ffin (BIP) yng Nghymru. Caiff y mannau hyn eu harchwilio'n rheolaidd a gallent ddod yn fannau lle caiff nwyddau fynd drwy borthladd ac ymlaen i'r UE.

## Masnach rydd amlochrog

- Wrth fasnachu â nifer o wledydd gwahanol, efallai y bydd yn rhaid bodloni mwy nag un safon e.e. yr UE a safonau posib gwahanol gwledydd eraill y tu allan i'r UE. Bydd yn rhaid wrth ragor o waith â'r diwydiant i gyd-drefnu'r cyflenwad i farchnadoedd gwahanol. Bydd ein costau'n uwch os bydd ein safonau ni'n uwch na'r gofyn mewn marchnad benodol.
- Heb systemau i gymryd lle'r rheini sy'n cael eu rheoli gan Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth yr UE, bydd mwy o risg i'r DU fewnforio clefyd mewn bwyd o Drydedd Wlad sydd â safonau is o ran iechyd ac olrhain anifeiliaid.

# Âr



## Y cyd-destun

Mae'r sector âr yng Nghymru yn fach. Dim ond 4.7% o arwynebedd y wlad sydd o dan gnydau âr. Gwenith a haidd yw'r prif gnydau o ran arwynebedd, yn meddiannu 50% o'r tir âr.


Ceir 260 o ffermydd sydd wedi'u categoreiddio'n ffermydd âr. Ceir 92 arall sy'n tyfu cnydau cyffredinol a 398 arall sy'n 'ddaliadau cymysg' (cnydau a da byw).

Mae'r arwynebedd o dan gnwd âr yng Nghymru wedi cynyddu ers 2008 pan ddaeth rheol y PAC i neilltuo tir i ben ac ers i brisiau ydau wella[20].

Mae cnydau âr a garddwrol yn cael eu tyfu gan fwyaf ar y tir llawr gwlad o ansawdd uwch a geir yn Sir Fynwy, y Gororau, Bro Morgannwg, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Sir Benfro, Bro Gŵyr a gwastadeddau arfordirol y Gogledd a Bae Ceredigion. Yn ôl Ystadegau Amaethyddol Cymru, mae 87,650 ha (5% o'r holl dir amaethyddol) o dir âr ond nid yw'r ffigur yn cynnwys porfa dros dro o 157,000 ha (8%). O'u cyfuno, mae 246,000 ha o dir Cymru (13%) o dan gnydau.

[20] http://gov.wales/docs/statistics/2016/161124-survey-agriculture-horticulture-june-2016-en.pdf

## Siart 4: Arwynebedd cnydau âr a garddwrol (miloedd o hectarau) yng Nghymru 2000-2016




### Arwynebedd o dan gnydau 2016 (Cymru)

| Cnwd | Ha |
|---|---|
| Gwenith | 21,410 |
| Haidd gaeaf | 8,132 |
| Haidd gwanwyn | 13,757 |
| Ydau eraill i'w cynaeafu â chombein | 6,136 |
| Tatws | 3,140 |
| Indrawn | 9,951 |
| Cnydau porthiant i dda byw | 15,147 |
| Rêp hâd olew (gaeaf a gwanwyn) | 5,080 |
| Cnydau eraill | 3,628 |
| Braenar moel | 1,272 |
| **Cyfanswm** | **87,653** |

Bu ychydig o drafod ar y fasnach mewn cnydau âr ac ydau yn ystod y trafodaethau. Fel aelod o'r gweithgor, cafwyd tystiolaeth ac adroddiadau[21, 22] gan AHDB sydd wedi'u defnyddio yn y crynodeb isod.

## Dim cytundeb

- Mae'r DU yn allforiwr net o wenith. Canlyniad tebygol codi tariffau yw y down yn fewnforiwr net gan fod ein prosesau cynhyrchu'n gymharol ddrud.
- Yr hyn sy'n dyngedfennol wrth gynhyrchu gwenith a haidd yn y DU yw bod y cnydau hyn yn gallu cystadlu ym marchnad y DU. Er y bydd cynnyrch mâl a brâg o ansawdd uchel yn dal i gael eu hallforio, mae'r fasnach mewn ydau porthiant yn dibynnu ar gyfraddau cyfnewid ffafriol a mynediad at farchnadoedd.
- Mewn blwyddyn dda, mae'r DU yn cynhyrchu gwarged o ydau ac mae'r mwyafrif llethol yn cael ei allforio i'r UE. O dan senario'r WTO, bydd tariff ar ydau'r DU fydd yn cael eu hallforio i'r UE. Mewn blynyddoedd o warged, byddai'n rhaid i'r DU weithio'n galetach i fod yn gystadleuol mewn marchnadoedd allforio, yn 27 yr UE a thu hwnt, gan fod costau cynhyrchu'n tueddu i fod yn uwch yn y DU sy'n gwneud allforion yn llai cystadleuol.
- Gymharol ychydig o ŷd sydd gan y DU i'w gynnig i farchnad y byd. Gallai hyn ynddo'i hun greu problem gan fod y farchnad yn delio â symiau mor fawr (sy'n anorfod, er mwyn i'r rheini sy'n rhan ohoni wneud digon o elw).
- Yng Nghymru, mae'r ychydig o ydau a gynhyrchir yn cael eu defnyddio'n bennaf i borthi anifeiliaid. O gofio'r tariffau a fyddai'n cael eu gosod ar gnydau a mewnforir fel indrawn, gallai gwenith a haidd golli rhagor o dir i gnydau eraill fel indrawn.
- O safbwynt y DU, efallai y bydd cyfle i ychwanegu at werth ydau drwy gynhyrchu cynnyrch arbenigol ar gyfer eu hallforio.
- Gallai colli ei thriniaeth ffafriol yn yr UE ar ôl Brexit olygu y gallai mynediad y DU at farchnadoedd eraill, fel Morocco, lle bo gan yr UE fanteision sylweddol mewn rhai tymhorau, ddioddef.

## Cytundeb â'r UE

- Gan fod llawer o ydau gwarged y DU yn cael eu hallforio i'r UE, ceir rhagdybiaeth y gallai'r DU barhau i gyflenwi'r un marchnadoedd. Y cwestiwn mawr yw a all y diwydiant ydau fel y mae barhau'r un mor gystadleuol er gosod tariffau.

## Masnach rydd amlochrog

- Cyfleoedd allforio newydd ond mae mynediad at farchnadoedd yn llai o broblem na deinameg marchnad ydau'r byd.
- Mae'r fasnach fyd-eang mewn ydau bellach yn 'gêm o rifau', lle ceir symiau mawr, elw bychan a dominyddiaeth nifer gymharol fach o gwmnïau mawr amlwladol. Gwelir effaith y symiau mawr hyn ar lefel gwlad yn ogystal ag ar lefel cwmni.
- Mae ar y fasnach angen cynnyrch o'r pris a'r fanyleb iawn, megis lefel lleithder a phrotein. Yn ogystal, mae'r pellter o rai gwledydd sy'n mewnforio yn golygu bod angen delio â llwythi mawr, gan gyfyngu ymhellach ar gyfleoedd i allforio. Bydd cludiant i wledydd pell, o bosibl yn gofyn am gydweithrediad i lenwi'r llongau.
- O safbwynt y DU, efallai y bydd cyfleoedd i ychwanegu at werth ein hydau cyn eu hallforio.
- Y 5 gwlad bwysicaf o ran mewnforio ydau o'r DU yw Algeria, UDA, Tunisia, Gwlad Thai a Japan. Mae anwadalwch cyfraddau cyfnewid, tariffau

[21] https://ahdb.org.uk/documents/Horizon_Brexit_Analysis_june2017.PDF

[22] https://ahdb.org.uk/brexit/documents/Horizon_BrexitScenarios_11oct17.pdf

a chostau cludiant yn debygol o gyfuno i leihau gallu'r DU i gystadlu ag allforwyr eraill.


- Yn y tymor hwy, mae'r twf ym mhoblogaeth y byd (yn enwedig yn Tsieina a De-ddwyrain Asia, Affrica ac India) ynghyd â'r cynnydd yn nifer y dosbarth canol (yn enwedig yn Asia a'r Môr Tawel) yn cynyddu'r galw drwy'r byd am ydau.

**Goblygiadau amgylcheddol**

- Gallai'r pwysau i ddwysáu arwain at aredig yn nes at ffiniau caeau a cholli ymylon caeau a lleiniau clustogi – oni rhoddir mesurau effeithiol ar waith i gadw'r nodweddion hyn. Gallai costau cynlluniau amaeth-amgylchedd gynyddu pe ceid gwared ar fesurau trawsgydymffurfio ac os daw mentrau cnydau âr yn fwy proffidiol.
- Mae'n bosibl y caiff systemau ffermio manwl a systemau bras-droi'r pridd eu mabwysiadu i arbed costau. Os cânt eu mabwysiadu ar raddfa fawr, dônt â manteision amgylcheddol arwyddocaol yn y tymor hwy o safbwynt ansawdd y dŵr, iechyd y pridd a llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gallai newidiadau i'r fframwaith economaidd a rheoleiddio sbarduno mwy o ddefnydd o gynhyrchion amddiffyn planhigion. Gallai cynnydd ym mhrisiau bwyd a phorthiant arwain at bwyso i fabwysiadu GMO's.
- Gallai cynnydd mewn cnydau âr gan gynnwys symudiad at fwy o ffermydd cymysg sy'n tyfu porthiant da byw ar y fferm ddod â rhai manteision i fioamrywiaeth, er y byddai llawer o'r manteision posib i adar tir fferm a chwyn tir âr yn dibynnu ar sut y caiff y cnydau hyn eu rheoli.
- Efallai y tyfir mwy o indrawn a phorthiant protein wrth i ffermwyr geisio osgoi'r cynnydd yng nghostau porthiant da byw o wledydd eraill ac i wneud eu busnesau'n fwy effeithiol. Gallai tyfu mwy o indrawn gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth ac ansawdd dŵr, gan fod cynhyrchu indrawn fel arfer yn arwain at fwy o ronynnau pridd a phlaladdwyr yn cael eu golchi i lygru cyrsiau dŵr. Ceir rhai manteision i adar tir fferm, chwyn tir âr ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan ddibynnu ar ddulliau cynhyrchu, yn enwedig yn achos cnydau protein.
- Hefyd, mae unrhyw gynnydd mawr mewn cnydau ynni'n debygol o gael effeithiau amrywiol ar fioamrywiaeth, pridd, ansawdd dŵr a thirwedd, gyda llawer yn dibynnu ar le mae'r cnydau hynny'n cael eu tyfu a sut maen nhw'n cael eu rheoli.



# Garddwriaeth



## Y cyd-destun

Mae'r diwydiant garddwrol yn cynnwys sbectrwm eang o gnydau gan gynnwys ffrwythau a llysiau, planhigion addurnol (gan gynnwys blodau), cnydau newydd, tirlunio a thyfu tyweirch. Ceir diffyg ystadegau sylfaenol am y sector, yn bennaf gan nad yw'r holl fusnesau garddwrol wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) cnydau garddwrol yw £41 miliwn, sef 3% o werth sector amaeth Cymru.

Mae garddwriaeth yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, wedi bod yn dirywio ers tro byd. Dim ond 0.04% o dir amaethyddol Cymru sydd o dan gnydau garddwrol er bod y ffigur hwn yn codi i 0.2% os cyfrifir tatws a llysiau maes hefyd. Mae'r dirywiad yn y sector tyfu llysiau yn y DU wedi cynyddu ein dibyniaeth ar fewnforion yn fawr. Y sbardun mwyaf yw'r galw am lysiau allan o'u tymor a chnydau na ellir eu tyfu yn y DU. Cynhyrchiant domestig oedd 73% o'r cyflenwad ym 1995 ond roedd wedi cwympo i 58% o'r cyflenwad erbyn 2014.

Mae'n lleoliad daearyddol a graddfa fach ein busnesau garddwrol yn creu her logistig.

Mae garddwriaeth yn ddiwydiant llafurddwys gyda llawer o'i gweithwyr yn weithwyr tymhorol neu achlysurol a dibynnir yn drwm ar fewnfudwyr. Mae Brexit yn fygythiad byw felly i nifer o fusnesau garddwrol.

Ar y llaw arall, nid yw garddwriaeth yn dibynnu ar daliadau'r PAC, yn wahanol i lawer o'r sector da byw.

## Dim cytundeb

- Bydd defnyddwyr yn debygol o weld prisiau eu bwyd yn pendilio fwyfwy. Gan fod llawer iawn o'n llysiau a'n ffrwythau'n cael eu mewnforio, mae prisiau'n debygol o godi ac mae'r cyflenwad yn fwy tebygol o gael ei dorri. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch bwyta'n iach gan fod unrhyw gynnydd ym mhris ffrwythau a llysiau yn tueddu i arwain at fwyta llai ohonyn nhw.
- Mae tariffau'n cael eu gosod fel arfer ar gynnyrch garddwrol a fewnforir i'r UE. Fel arfer, maent yn dariffau ad valorem o lai nag 20 y cant ac ar gyfer rhai cynnyrch, maent yn amrywio yn ôl y tymor. Mae'n amlwg o lefelau'r mewnforion nad yw'r tariffau hyn yn ddigon uchel i rwystro mewnforion.
- Llafur fydd yr her fwyaf i'r sector garddwrol o dan y senario hon gan fod cryn ddibyniaeth ar weithwyr yr UE. Mae gwerth isel y bunt eisoes wedi gostwng y cyflenwad o weithwyr o'r UE.
- Ni fydd y cyfyngiadau presennol ar ddefnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion yn debygol o gael eu llacio tra bo Llywodraethau'r DU a gwledydd y DU am i ffermwyr gadw eu delwedd fel cynhyrchwyr bwyd o'r safon a'r ansawdd uchaf.
- Prif ffocws sector garddwrol y DU yw cyflenwi'r farchnad ddomestig, heb fawr o allforio. O gofio y bydd costau cynhyrchion wedi'u mewnforio yn codi (mae tariffau heddiw'n is ar gyfer llysiau a ffrwythau – tua 10-15% ar bethau rydym yn gallu'u cynhyrchu), bydd yna rai cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu yn lle mewnforio. Daw mwy o gyfleoedd i'r sector garddwrol mewn mannau addas lle gall gynhyrchu'n broffidiol e.e. lle ceir cyflenwadau dŵr, yn agos i farchnadoedd/ar gyrion dinasoedd.
- Fe all fod cyfleoedd tymor hwy i gnydau nad ydynt yn dibynnu ar y pellter o farchnadoedd e.e. cynhyrchu ymledyddion mefus, tyfu tatws had ar y bryniau.
- Daw cynhyrchu tatws a llysiau maes â chyfleoedd, yn enwedig os gosodir tariffau ar fewnforion. Mae cynhyrchion o'r fath yn swmpus i'w cludo er y bydd ffermwyr sydd eisoes wedi ymsefydlu yn debygol o ehangu am y gallai costau peiriannau arbenigol fod yn faen tramgwydd i ddechrau busnes newydd. Er nad ydym yn mewnforio llawer o datws ffres, rydyn ni yn mewnforio llawer o sglodion wedi'u rhewi a chynhyrchion tatws eraill wedi'u rhewi. Mae cyfleoedd prosesu eisoes yn cael eu gwireddu yn y DU gyda chyhoeddiad McCains i agor ffatri sglodion yn Scarborough.
- Mae ffermio fertigol hefyd yn cynnig cyfleoedd, gyda'r potensial mwyaf i safleoedd sydd ger marchnadoedd ac sydd â chyflenwadau da o ddŵr, ynni a chludiant, (e.e. ar hyd coridorau'r M4 a'r M55).
- Fe all fod cyfleoedd hefyd i dyfu cnydau yng Nghymru ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd y DU yn lle mewnforio pan fydd costau mewnforio cynhwysion o'r tu allan i'r DU yn cynyddu. Er enghraifft, winwns ar gyfer eu prosesu, nad ydynt yn bodloni'r safonau esthetig a fynnir gan archfarchnadoedd neu flodau ar gyfer y diwydiant biofferyllol. Byddai ar gynhyrchwyr angen contractau tymor hwy er mwyn gallu buddsoddi ac ymrwymo.

## Cytundeb â'r UE

- Bydd trefniadau'r dyfodol yn debygol o ychwanegu at gostau a chymhlethdod yr amgylchedd masnachu. Gallai hynny greu cyfleoedd i gynhyrchu yn lle mewnforio, er os rhagdybir tariff o 5-10% ar gynnyrch yr UE, mae'n debygol y gall marchnad y DU ddygymod â'r codiadau hynny.
- Gwelir cyfleoedd felly ar draws y sector, er na ragwelir mwy o gynhyrchu o dan wydr yn y senario hon. Rhaid wrth gryn fuddsoddi i dyfu cnydau dan wydr ac ni fydd Cymru yn debygol o allu cystadlu â chynhyrchwyr De-ddwyrain Lloegr, lle mae'r seilwaith eisoes yn sylweddol.
- Ceir cyfleoedd i gynhyrchu mwy o lysiau maes ym mhob senario a dylai'r sector ddechrau chwilio am ffyrdd i gysylltu tyfwyr â phroseswyr bwyd. Drwy roi contractau tymor hir i dyfwyr, byddant yn gallu buddsoddi yn y peiriannau sydd eu hangen.

## Masnach rydd amlochrog

- Mae mwy o gyfleoedd cynhyrchu i'r sector garddwrol o dan y senario hon ond bydd costau llafur uwch yn debygol o danseilio proffidioldeb.
- Llafur a'r costau cysylltiedig fydd yr her debygol fwyaf o dan y senario hon. Yn y tymor hwy, gallai peiriannau pigo a phacio ein helpu i liniaru effaith diffyg llafur a'r costau llafur uwch.
- Ni fydd y cyfyngiadau presennol ar ddefnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion yn debygol o gael eu llacio tra bo Llywodraethau'r DU a gwledydd y DU am i ffermwyr gadw eu delwedd fel cynhyrchwyr o'r safon a'r ansawdd uchaf.

## Goblygiadau amgylcheddol

- Wrth ehangu/dwysáu garddwriaeth er mwyn datblygu cynhyrchiant yn y DU, bydd angen ystyried safle a dulliau tyfu i leihau'r effeithiau amgylcheddol posib.
- Mae potensial i gynyddu cynhyrchiant gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr a pheryglu ansawdd dŵr gan ddibynnu ar y lleoliad. Gallai'r cynnydd yn y pwysau i godi dŵr a dyfrhau gynyddu'r risgiau i ecoleg afonydd a stociau pysgod pan fydd llif afonydd yn isel. Mae effeithiau amgylcheddol posib defnyddio plastig a'r cynnydd yn y llygredd aer yn broblemau, felly efallai y bydd angen rheoleiddio. Bydd angen ystyried yr effeithiau ar ffrwythlondeb y pridd.
- Gallai newid defnydd tir a defnyddio mwy o wrtaith, peiriannau a phlaladdwyr effeithio ar fioamrywiaeth. Gallai rhai manteision i adar tir fferm a chwyn tir âr fod yn bosibl, gan ddibynnu ar ddulliau cynhyrchu.

## Pysgodfeydd




Mae diwydiant pysgota Cymru yn llawn amrywiaeth, o fusnesau bach tymhorol sy'n hela â llaw i bysgotwyr a dyframaethwyr amser llawn. Gan gyflogi 851 o bobl ar 298 o longau, 30 ohonynt yn fwy na 10 metr o hyd, mae'r diwydiant yn bwysig i gynaliadwyedd tymor hir llawer o gymunedau glan-môr. Gan fod cost dechrau busnes pysgota mor drwm, mae tuedd i bysgota fod yn fwy o fywoliaeth nac o ddewis busnes, gyda llawer o bysgotwyr yn dilyn camrau tad a thadcu. Ceir hefyd 28 o fusnesau dyframaethu sy'n cyflogi 73 o bobl, a 220 o drwyddedau cocos. Mae yna hefyd 22 o broseswyr yng Nghymru sy'n cyflogi 130 o bobl, gwerth £7.1 miliwn.

Caiff 25,300 o dunelli, gwerth £38.8 miliwn, o gynnyrch ei lanio. Mae £25.8 o hwnnw'n bysgod cregyn ac £13 miliwn yn bysgod môr, gan gynnwys draenogod y môr, lledod Mair a chythreuliaid y môr.

Mae allforion o borthladdoedd Cymru yn werth £23.22 miliwn ac mae 57% ohonynt yn mynd i Sbaen[23].

Ceir cryn ddibyniaeth ar bysgod cregyn (e.e. cregyn moch a chregyn bylchog). Allforir 90% o'r hyn a ddelir yn syth i'r UE ac allforir canran o'r rheini oddi yno drwy 38 o gytundebau masnach estynedig â'r UE. Mae gwerth £5.2 miliwn o gregyn moch wedi'u prosesu yn cael eu hallforio i Gorea, er enghraifft.

[23] https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/fisheries

Ar gyfer cregyn moch, byddai yna dariff o 20% ond gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddanteithion, mae'n debyg y byddai'r farchnad yn gallu dygymod â'r cynnydd hwnnw yn y pris. Cytundebau masnach estynedig yw'r Cytundebau Masnach Rydd ar gyfer cynnyrch pysgodfeydd i Asia.

Ffrainc, Sbaen, yr Eidal a Phortiwgal yw prynwyr traddodiadol pysgod cregyn a chramenogion Cymru ac maent wedyn yn gwerthu cyfran ohonynt o fewn marchnad sengl yr UE ac i farchnadoedd yn Asia. Ond nid yw'r cynhyrchion yn cael eu brandio fel cynnyrch o Gymru ond cânt eu gwerthu fel cynhyrchion byw ac wedi'u prosesu. Nid yw prynwyr yn Ewrop i'w gweld yn poeni am darddiad eu cynnyrch. Mae cregyn moch a chynhyrchion eraill o Gymru yn tueddu i gael eu coginio a/neu eu cadw'n ffres/eu rhewi i'w hallforio gan broseswyr o Gymru.

## Dim cytundeb

- Effaith ar unwaith – mae 90% o'r pysgod cregyn a gesglir yng Nghymru yn cael eu hallforio i'r UE ar gyfer eu prosesu a'u rhewi, llawer ohonynt ar gyfer y farchnad yn Asia. Nid yw'n glir pa mor bwysig yw pysgodfeydd Cymru i'r diwydiannau hyn yn Ewrop. Gan y bydd cynhyrchion o Gymru yn codi yn eu pris oherwydd tariffau a chyfraddau cyfnewid, rhagdybir y bydd prynwyr yn troi at ffynonellau eraill yn yr UE. O dan y senario hon, ni fyddai'r is-sector hwn yn gallu goroesi colli'r brif farchnad, a byddai ei gwymp yn gyflym.
- Byddai 4 i 6 wythnos o aflonyddu o'r fath ar y farchnad yn ddigon i ddifetha'r diwydiant pysgod cregyn a fflyd glannau Cymru. Nid ydynt yn fusnesau mawr; mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n fusnesau bach a chanolig a physgotwyr hunangyflogedig. Nid yw pysgotwyr yn cael eu talu fel arfer tan y bydd y prynwr yn cael ei dalu, felly rhag i fusnesau fynd i'r gwellt, rhaid wrth gadwyn cyflenwi effeithiol, ddibynadwy a deinamig ar gyfer bwyd môr.
- Mae pysgod cregyn yn cael eu hallforio'n fyw i'r UE mewn lorïau dŵr. Felly, gallai unrhyw oedi ym mhorthladdoedd y DU a'r UE gael effaith sylweddol ar y gadwyn gyflenwi gan olygu colledion a marwolaethau a byddai incwm/refeniw yn diflannu dros nos. Rhaid bodloni safonau llym i allforio i farchnadoedd pell fel marchnadoedd Asia. Gofynnir am fanylion gwlad y tarddiad, rheoli ansawdd a thystysgrifau cynhyrchu.
- Effeithir hefyd ar bysgod sy'n cael eu mewnforio a chaiff hynny effeithiau/cyfleoedd cenedlaethol ehangach. Bydd tariff o 20% ar allforion byw ond bydd tariff o hyd at 33% ar gynnyrch wedi'i brosesu.
- Pysgod asgellog – ceir cyfyngiadau ar y cyflenwad oherwydd cwota cyfyngedig/ cyfanswm y ddalfa a ganiateir (TAC)[24] yn nyfroedd Cymru.

Newid cwotâu – risgiau a chyfleoedd. O dan model presennol yr UE, nid oes gan fwyafrif pysgotwyr Cymru gwota. Yn lle hynny, mae cyfanswm dalfa a ganiateir (TAC) o ryw 100 tunnell yr un wedi'i neilltuo y flwyddyn ar gyfer rhywogaethau cymysg yn nyfroedd Cymru a'i rannu rhwng y fflyd o dan 10m a'r fflyd di-sector. Rheolir y trefniant hwn gan Lywodraeth Cymru. Os daw'r cwota yn ôl i Gymru, byddai hynny'n gyfle pwysig i bysgotwyr a busnesau bwyd môr Cymru gynyddu'u gweithgarwch economaidd heb roi mwy o bwysau ar adnoddau pysgodfeydd. Yn ôl canfyddiadau drafft adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Morol Cymru ac Is-grŵp

[24] Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TAC) yw'r ddalfa (mewn tunelli neu nifer) a bennir ar gyfer stoc bysgod. Yng Nghymru, cychod o dan 10 metr (tua 426 o gychod) yw rhyw 90% o fflyd Cymru, ond dim ond 3% o gyfanswm cwota pysgota'r DU sydd wedi'u neilltuo iddynt yn yr ardaloedd sydd o ddiddordeb yng Nghymru.

y Môr a'r Arfordir yn 2017,[25] gallai cymaint â 14,600 o dunelli o gwota cymysg ddod yn ôl i Gymru.

Byddai parhau i gael mynediad at ddyfroedd y DU yn bwysig i'r UE ac yn debygol o fod yn rhan o drafodaethau Brexit.[26]

Mae'r senario'n gofyn y cwestiwn pa mor bwysig yw pysgota i Gymru. Yn economaidd, mae'n ddiwydiant bach (£38.8 miliwn bob blwyddyn ac yn cyflogi 1,223 o bobl), ond barnwyd bod pysgota, dyframaethu a bwyd môr yn bwysig o safbwynt diwylliannol a chymdeithasol economaidd. Roedd y syniad o golli pysgotwyr fel nodwedd o gymunedau bach glan-môr Cymru yn codi ofn ar Croeso Cymru ac mae gweithgarwch prosesu eilaidd yn dod â £7.1 miliwn arall i economi'r cymunedau hyn.

Mae cyfle i edrych ar y farchnad ddomestig. Mae'r galw wedi'i sefydlu ond nid yw'n cael ei ddefnyddio na'i wasanaethu'n llawn. Ceir cyfleoedd ym marchnad y DU i ddefnyddio cynnyrch domestig yn lle mewnforion drud.

- A oes cyfle i fanteisio ar 'Brand Cymru' a'i gysylltu â Blwyddyn y Môr Croeso Cymru efallai?
- Ychydig o waith prosesu a wneir yng Nghymru a cheir potensial am dwf mawr yn y maes hwn – ond byddai'n rhaid i'r diwydiant ddangos awydd, buddsoddi a datblygu seilwaith.
- Gan nad oes grwpiau cynhyrchwyr pysgod a physgod cregyn sy'n cyflenwi'r farchnad ddomestig (pocedi o fusnesau dosbarthu a phroseswyr), mae cyfleoedd am fwy o gydweithio i farchnata bwyd môr Cymru.
- Mae potensial i ddod â 14,600 o dunelli o gwota (ym meddiant cychod y tu allan i'r DU ar hyn o bryd) yn ôl i Gymru a gall hynny fod yn gyfle ardderchog i adfywio cymunedau a phorthladdoedd pysgota Cymru.
- Mae angen pwysleisio'r neges mai'r DU yw arweinydd y byd o ran cynhyrchu cregyn gleision ar wely'r môr. Y prif gystadleuydd yw Iwerddon. Ar lefel fyd-eang, mae Seland Newydd ac Awstralia yn allforwyr pwysig, yn bennaf i Asia.
- Mae angen inni gynnal ansawdd uchel ein hamgylchedd morol ond mae angen estyn y drafodaeth i gynnwys twristiaeth a sut y dylem hyrwyddo'n hardaloedd morol gwarchodedig, twf glas, ynni ac agregau.
- Os na all pysgota ar ei ben ei hun fod yn hyfyw bellach, gallai pysgotwyr ystyried cyfrifoldebau eraill yn nyfroedd Cymru, megis monitro gweithgareddau pysgota (yn enwedig yn yr ardaloedd gwarchodedig), ffactorau amgylcheddol (ansawdd dŵr a dangosyddion biolegol) a rhywogaethau mudol.

## Cytundeb â'r UE

- O dan y senario hon, ni fydd newid nac effaith ar unwaith.
- Yn y tymor hwy, bydd allforio'n parhau ond gyda mwy o bwysau i leihau costau. Mae Tariffau a Rhwystrau heblaw am Dariffau yn debygol o beri pryder i'r sector; efallai y bydd angen cymorth yn ystod y cyfnod pontio er mwyn lliniaru eu heffeithiau ar y sector yn y tymor byr.
- Efallai y rhoddir y gorau i bysgota am rai mathau o bysgod. Ceir diffyg dealltwriaeth ynghylch ble mae'r ffin rhwng methu a llwyddo o fewn sectorau'r diwydiant pysgota a bydd yn amrywio o rywogaeth i rywogaeth. Mae arbenigwyr yn credu y gall y sector crancod fethu'n hawdd ond bod y sector cimychiaid yn gryfach. Mae rhywogaethau nad ydym yn eu bwyta yn y DU hyd yn oed yn fwy o ddirgelwch.

[25] https://www.wcpp.org.uk/single-post/2018/02/13/Implications-of-Brexit-for-Fishing-Opportunities-in-Wales

[26] Drwy ddatblygu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a phob blwyddyn, wrth drafod cyfleoedd pysgota yn Ewrop, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i gytuno ar y fargen orau i'n gwledydd ac i'r DU yn gyffredinol.

## Masnach rydd amlochrog

- O dan y senario hon, gall pysgotwyr cregyn Cymru barhau i gyflenwi cwmnïau yn yr UE fel ag o'r blaen. Mae 90% o'n cynnyrch yn mynd i'r UE, felly does fawr o reswm na chapasiti i chwilio am farchnadoedd eraill.
- Fodd bynnag, gallai FTA â Chanada droi'r fantol. Pe bai Canada yn cael allforio cimychiaid i'r DU, byddai cynhyrchwyr cimychiaid y DU yn ei chael hi'n anodd cystadlu gan y bydd cimychiaid o Ganada yn debygol o fod yn rhatach. Gallai hynny effeithio ar fusnesau unigol sydd wedi canolbwyntio ar farchnad y DU. Fe allai fod sgil-effeithiau ar allforion i'r UE, gan ddibynnu sut y bydd yr UE yn ymateb. Er enghraifft, gallai'r UE wahardd mewnforio rhai mathau o gimychiaid o'r DU i'w ddiogelu ei hun rhag mewnforion o Ganada dan faner gwlad arall. Neu fe allai gynnal profion trylwyr ar gimychiaid sy'n cael eu mewnforio o'r DU i gadarnhau eu tarddle. Ni fyddai hyn yn debygol o leihau'r galw am allforion byw i'r UE ar unwaith, ond bydd yn debygol o gynyddu amserau aros wrth ffiniau. Ar gyfer cynhyrchion fel cimychiaid, mae oedi'n golygu y caiff cyfran ei difetha. Mae cynhyrchwyr yn cael eu talu pan fydd y prynwr yn eu cyflenwi i'w gwsmeriaid ef, felly pysgotwyr Cymru sy'n ysgwyddo'r risg ariannol ac ecolegol pan fydd allforion byw yn marw.
- Mae Cymru yn ei gweld ei hun fel gwlad bysgota; gallai colli'r farchnad bysgodfeydd ennyn adwaith gan y cyhoedd. Mae hyn yn creu cyfle marchnata i ddatblygu pysgodfa leol gynaliadwy i gyflenwi marchnadoedd lleol a mannau i dwristiaid. Mae potensial i ddod â 14,600 o dunelli o gwota buddiol yn ôl i Gymru (sydd ym meddiant llongau o'r tu allan i'r DU ar hyn o bryd). O reoli'r cyfle hwn yn gynaliadwy, gallai sbarduno buddsoddi a thwf mawr ei angen yng Nghymru er lles cenedlaethau heddiw ac yfory.
- Mae 'brand Cymru' yn neilltuol o hanfodol wrth ddatblygu pysgodfa gynaliadwy yng Nghymru. Mae angen ystyried trefniadau caffael a'r angen lleol am bysgod er mwyn i bysgod cael bod yn rhan o'r fwydlen a gynigir yng Nghymru, yn enwedig mewn siopau bwyd a bwytai glan-môr.
- Gallai ecodwristiaeth fod yn gyfle i fynd ag ymwelwyr i weld natur gyfoethog Cymru. Gallai hyn ddechrau drwy hyrwyddo 'Blwyddyn y Môr' Croeso Cymru yn 2018-19. Ychydig o gyfleoedd sydd i arallgyfeirio serch hynny, ac mae'r rheini'n dymhorol.

## Amgylchedd morol Cymru

Pysgodfeydd yw un o brif sbardunau economaidd ein cymunedau glan-môr. Mae llawer o ffactorau'n gwasgu ar ecosystemau'n moroedd, a'r rheini'n cystadlu â'i gilydd. Yn eu plith y mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy, cloddio am agregau, gosod piblinau/ceblau, twristiaeth a hamddena. Mae angen felly sicrhau ein bod yn rheoli gweithgareddau yn ein moroedd yn unol â Chynllun Morol cyntaf Cymru. Mae angen buddsoddi mewn ecodwristiaeth sy'n faes sy'n tyfu, a gallai'r Llywodraeth, drwy ei pholisïau caffael, sbarduno pysgodfa gynaliadwy (bwyd) gan gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol y môr. Mae angen rhagor o ymchwil i weld y cyfleoedd y gall meysydd fel ecodwristiaeth eu cynnig.

Mae Cymru wedi ymrwymo i reoli adnoddau naturiol ein moroedd mewn ffordd gynaliadwy.

- Rhoi gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) ar waith, gan sicrhau bod ein dyfroedd wedi sicrhau Statws Amgylcheddol Da drwy eu rheoli ar sail ecosystem.
- Gofalu bod yna rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig cydlynol ledled y DU sy'n cael eu rheoli'n dda.

- Gofalu bod canlyniadau Brexit yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, yn enwedig o ran cryfhau ecosystemau a rheoli ar sail ecosystem.

Mae'r pwyntiau uchod yn ymrwymiadau datganoledig sydd eisoes yn cael eu cynnal gan y fframwaith rheoleiddio a bydd hynny'n parhau o dan y Ddeddf Ymadael / y Bil Parhad.


Mae is-grŵp y Môr a'r Arfordir wedi nodi 5 blaenoriaeth strategol allweddol;

- Ystyried pethau yn y tymor hir: bod yn glir ynghylch ein gweledigaeth strategol ar gyfer rheoli moroedd Cymru yn gynaliadwy.
- Cadw mynediad dirwystr at y farchnad sengl a diogelu rhyddid pobl, nwyddau a gwasanaethau i symud.
- Mynd ati'n bositif i gydweithio, gan weithio mewn gwir bartneriaeth yng Nghymru a lle medrir, ar draws y DU.
- Helpu i sicrhau llwyddiant a ffyniant tymor hir cymunedau pysgota Cymru.
- Cadw at ymrwymiadau Cymru i reoli adnoddau naturiol morol Cymru mewn ffordd gynaliadwy.


## Goblygiadau amgylcheddol

- Byddai cimwch Canada yn rhywogaeth oresgynnol dramor pe bai'n cael ei rhyddhau yn nyfroedd y DU ac mae'n cario Gaffkemia sy'n lladd cimychiaid cynhenid. Gallai cynnydd yn nifer cimychiaid Canada esgor ar effeithiau amgylcheddol.
- Pe bai Cymru yn cael 'cyfran decach' o'r cwotâu pysgota, mae'n bosibl y gallai ddatblygu pysgodfeydd y môr mawr. Byddai hynny'n gofyn am bennu Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf yn ôl ecosystem. Ar gyfer dull rheoli ar sail ecosystem, rhaid wrth fframwaith y gellir ei addasu wrth i'r dystiolaeth wella ac a fydd yn mynd i'r afael â hinsawdd sy'n newid.

Ceir peth ansicrwydd o hyd ynghylch dyfodol tymor hir safleoedd sydd wedi'u dynodi o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac egwyddorion Cytundeb Lisbon os caiff y mesurau gorfodi eu gwanhau ar lefel ddomestig.  Fodd bynnag, bydd y Bil Ymadael a'r Bil Parhad ynghyd â deddfwriaeth unigryw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (2016) yn cefnogi fframweithiau penodol Gymreig, gyda datblygu cynaliadwy a defnyddio adnoddau naturiol yn ganolog iddynt.



## Coedwigaeth



### Y cyd-destun

Mae coedwigaeth yng Nghymru yn sector o bwys o ran defnydd tir. Mae 306,000 ha o dir Cymru o dan orchudd coed/coedwigoedd, gyda 49% o'r coed hynny'n rhai llydanddail brodorol a 51% yn blanhigfeydd conwydd masnachol. Mae'r tir hwn yn 15% o arwynebedd Cymru. Mae 92,770 ha o goetir ar ffermydd a 213,000 ha o dir coedwigaeth. Mae hynny'n cynnwys yr 126,000 ha yn ystad goed Llywodraeth Cymru.

Mae GVA y sector coedwigaeth a thorri a thrin coed yng Nghymru yn £22.3 miliwn, ond mae GVA y sector gweithgynhyrchu coed a chynhyrchion coed a chorc yn £172.6 miliwn, a GVA y sector gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur yn £333.7m[27]. Mae GVA y sector coedwigaeth yn £528.6 miliwn, sy'n 0.9% o GVA Cymru. Mae'n cynnal rhyw 2,000 o swyddi ac mae'n cynnig swyddi eraill ym maes prosesu coed hefyd.

O ran strwythur y farchnad, mae pren o'r DU a Chymru yn cystadlu'n bennaf yn y marchnadoedd pren meddal wedi'i lifio, gronynfwrdd a ffibrfwrdd. Mae cyflenwad Cymru yn rhan annatod o gadwyn gyflenwi Cymru a Lloegr ac nid yw'n hawdd ei ddatgysylltu. Ond mae'r galw yn y Deyrnas Unedig bum gwaith yn fwy na'r hyn y mae'n gallu

[27] Datganiad Ystadegol am Ddangosyddion Coetiroedd i Gymru 2015-16

ei gynhyrchu, felly mae yna alw am bren wedi'i fewnforio, a bydd y galw hwnnw'n parhau.

Mewnforion oedd i gyfrif am 82% o'r holl bren (h.y. pren a gynhyrchir yma a phren sy'n cael ei fewnforio) a ddefnyddiwyd yn y DU yn 2015. Roedd gwerth y cynhyrchion pren a fewnforiwyd yn 2015 yn gyfanswm o £7.5 biliwn, a gwerth allforion yn £1.6 biliwn.[28]

Mae'r DU yn dibynnu ar fewnforion o'r UE. Sweden (45%), Latfia (16%) a'r Ffindir (14%) ddarparodd y rhan fwyf o'r pren meddal wedi'i lifio a fewnforiwyd i'r DU; o'r Almaen (23%), Ffrainc (21%) ac Iwerddon (14%) y mae'r rhan fwyaf o ronynfwrdd yn cael ei fewnforio; ac o Iwerddon (35%), yr Almaen (21%) a Sbaen (11%) y mae'r rhan fwyaf o ffibrfwrdd yn cael ei fewnforio. Mae pren yn cael ei fewnforio hefyd o rannau eraill o'r byd.

Oherwydd y cysylltiad annatod rhwng sector Cymru a Lloegr, mae llawer o fusnesau'n masnachu ar draws y ffin â Lloegr ac maent yn cael llawer o'u hincwm o Loegr oddi wrth y rheini sy'n defnyddio'r cynnyrch yn y pen draw. Yno y mae'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid.

## Goblygiadau cyffredinol

Hyd yma, mae'r refferendwm wedi cael effaith gadarnhaol ar rannau o'r sector coedwigaeth. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am hynny yw'r ffaith bod Sterling yn werth llai erbyn hyn. Mae hynny, yn ei dro, yn effeithio'n uniongyrchol ar brisiau pren, sy'n ddibynnol ar brisiau mewnforion. Yn y bôn, mae mewnforion tua 20% yn ddrutach bellach yn y farchnad ddomestig.

Ar yr un pryd, mae gwerth tir coedwigaeth yn parhau i godi wrth i'r farchnad ragweld gostyngiad yng ngwerth tir amaethyddol, prisiau uwch am bren, ac enillion isel ar fuddsoddiad. Rhwng 2010 a 2017, mae gwerth tir coedwigaeth yng Nghymru wedi codi o ryw £2,000 yr hectar i ryw £8,000 yr hectar.

Mae'n debyg y bydd y diwydiant a defnyddwyr yn wynebu costau uwch ar draws pob un o'r senarios; ar gyfer paledi a deunyddiau pacio, cynhyrchion bwrdd, celfi a deunyddiau llawr. Ar hyn o bryd, mae peiriannau, offer a chyfarpar prosesu, yn ogystal â gwasanaethau cynnal a chadw ar eu cyfer, yn cael eu prynu'n bennaf o wledydd yr UE. Mae'r gostyngiad yng ngwerth Sterling wedi ychwanegu 20% at y costau hynny. Mae hyn yn cael effeithiau negyddol ar fusnesau a defnyddwyr yn y DU. Mae'n debyg mai'r busnesau y bydd y newid yng ngwerth Sterling yn effeithio arnynt fwyaf yw'r rheini sy'n mewnforio pren er mwyn creu cynhyrchion ar gyfer marchnad y DU. Bydd y cynnydd yng nghost deunyddiau crai gryn dipyn yn uwch ar eu cyfer nhw nag ar gyfer cystadleuwyr sy'n defnyddio deunyddiau crai o'r DU, er enghraifft, ac mae'n bosibl na fyddant yn gallu trosglwyddo'r costau uwch hynny i'w cwsmeriaid oherwydd bod angen iddynt fod yn gystadleuol.

## Effaith cyllid

Os bydd cyllid yn brin, gallai hynny effeithio ar blannu yn y dyfodol, ac ar waith rheoli a chynnal a chadw coetir. Efallai y bydd angen i daliadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar greu mwy o fudd i'r cyhoedd. Gallai hynny gynnwys creu coetir ar raddfa fach ar ffermydd, creu planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol (PAWS)[29] a chreu coetir brodorol. Dylai fod lle hefyd i'r sector preifat

---

[28] (Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ailwerthu cynhyrchion a fewnforiwyd ac mae'n bosibl nad yw'n dangos cynhyrchion sy'n cael eu glanio yn y DU ac sy'n cael eu hailgludo oddi yma ar longau heb gael eu 'prosesu' yn y DU mewn unrhyw ffordd. Gallai'r ffigur hwn fod lawer yn is os bydd rhwystrau rhag symud cynhyrchion i'r UE ac oddi yno. Mae'n bosibl na fyddai'n talu ffordd i ddefnyddio porthladdoedd y DU i gyrraedd yr UE).

[29] Safleoedd coetir hynafol lle plannwyd planhigfeydd yn lle coetir lled-naturiol yw Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS).

fuddsoddi mwy mewn coetir sy'n cael ei reoli a'i gynllunio'n dda ac sydd o fudd i'r cyhoedd a'r sector preifat fel ei gilydd. Yn hanesyddol, mae symiau mawr o gyllid ymchwil wedi bod ar gael i'r DU drwy ei haelodaeth o'r UE, er enghraifft, cafodd Forest Research incwm gwerth £531,000 o'r UE yn 2015. Roedd Forest Research a phrifysgolion yn y DU yn gallu manteisio hefyd ar Horizon 2020, y rhaglen ymchwil ac arloesi a sefydlwyd gan yr UE. Mae gan y rhaglen hon gyllideb o bron £80 miliwn dros 7 mlynedd tan 2020.

**Dim cytundeb**

- Byddai'n costio mwy i fewnforio pren a deunyddiau crai ar gyfer gwaith prosesu, a byddai hynny'n effeithio ar broffidioldeb ac yn rhoi pwysau ar adnoddau pren domestig yn y tymor byr. Mae'r graddau y bydd hynny'n digwydd yn dibynnu ar amrywiadau yng ngwerth arian ac ar rwystrau rhag symud cynhyrchion ar draws ffiniau, gan fod tariffau'r WTO ar ddeunyddiau sydd heb eu prosesu yn isel iawn ar hyn o bryd.
- Mae'n annhebygol y bydd llai yn cael ei fewnforio. A dweud y gwir, yn ôl pob tebyg, bydd mwy o alw yn golygu y bydd mwy yn cael ei fewnforio, er y bydd costau'n uwch i brynwyr yn y DU. Oherwydd y bydd yn costio mwy i fewnforio cynhyrchion, bydd hynny'n creu mwy o alw am gynhyrchion y DU. O gofio'r bwlch enfawr rhwng y cyflenwad a'r galw, mae hynny, yn ei dro, yn debygol o olygu y bydd yr hyn a fydd ar gael yn costio mwy. Fodd bynnag, oherwydd bod 15-20 mlynedd neu fwy yn mynd heibio rhwng yr adeg y caiff coed eu plannu a'r adeg y bydd cyflenwad o bren ar gael, rydym yn llai abl i ymateb i'r galw hwnnw. Mae hynny'n rhoi mwy o gymhelliant inni blannu mwy yn awr ac i beidio â gorddefnyddio'r hyn sydd gennym yn barod.
- Mae'r angen am weithwyr tymhorol, yn enwedig yn yr is-sector meithrinfeydd, yn golygu bod angen gweithwyr o'r UE.
- Yn gyffredinol, tariffau isel sy'n cael eu codi ar gynhyrchion sylfaenol, os codir unrhyw dariff o gwbl. Mae tariffau uwch ar gynhyrchion sydd wedi'u prosesu. Gallai hyn fod yn gymhelliant inni ychwanegu at y capasiti cynhyrchu prin sydd gennym yng Nghymru er mwyn ychwanegu gwerth at gynhyrchion y byddem, fel arall, yn eu mewnforio o dan dariffau uchel.
- Prin yw'r cyfleoedd i gynhyrchu yn y DU yn lle mewnforio am nad oes digon o arwynebedd o goedwigoedd i gyflenwi maint y pren a'r rhywogaethau o bren sydd eu hangen. Ar hyn o bryd, mae coedwigoedd/coetiroedd yn gorchuddio 14% o dir Cymru ond dim ond ar 50% o'r tir hwnnw y mae rhywogaethau y gellir eu defnyddio i gynhyrchu'r nwyddau hyn.
- Os bydd ffermwyr yn dechrau colli incwm, e.e. yn y sector cynhyrchu cig oen ar yr ucheldir, ac os byddant am arallgyfeirio neu adael y diwydiant o'r herwydd, gallai hynny olygu y bydd mwy o dir ar gael i blannu coed, os bydd rheoliadau'n caniatáu hynny.
- Mae amheuon o hyd am y math o blannu a fyddai'n digwydd/a ddylai ddigwydd, a phwy fyddai'n berchen ar y tir dan sylw. Mae effaith economaidd Brexit yn debygol o olygu y bydd rhai perchenogion tir yn ceisio newid i fodel coedwigaeth a fydd yn cael ei sbarduno gan ffactorau economaidd. Bydd hynny'n cefnogi economïau lleol mewn ardaloedd gwledig i ryw raddau, yn yr un modd ag y mae amaethyddiaeth yn ei wneud, ond mae'n bosibl y gwelwn effeithiau diwylliannol annerbyniol. O fabwysiadu model busnes a model economaidd a fyddai'n dod â budd i berchenogion tir drwy reoli coetir fel gweithgarwch economaidd, gallai hynny leihau'r effeithiau hyn, a byddai hefyd yn rhoi rhwydd hynt i berchenogion tir ddewis o blith amryfal opsiynau.

- Cael ei fewnforio y mae'r pren sydd ei angen i adeiladu tai, ac mae'n ychwanegu at y cyflenwadau sy'n dod o goetiroedd Cymru. Mae'r diwydiant adeiladu yn ymchwilio i weld a ellir defnyddio mwy o bren caled a phren meddal o Gymru, sy'n gynnyrch mwy cynaliadwy a charbon isel, wrth adeiladu.


## Cytundeb â'r UE

- Mae'r ffaith bod y DU mor ddibynnol ar fewnforio pren a chynhyrchion pren o'r UE yn golygu y gallai'r senario hon fod yn un ffafriol i goedwigaeth, oherwydd y byddai'n galluogi'r DU i barhau i gael gafael ar gyflenwadau a sgiliau, ac ar weithlu a chynhyrchion a gwasanaethau atodol o'r UE. Pe bai'r cynnydd yng nghostau mewnforio yn is nag o dan senarios y WTO, byddai'n lleihau'r galw am bren a gynhyrchir yn y DU a byddai prisiau'r pren hwnnw'n is hefyd.
- Os bydd yr un faint o gyllid ar gael ag ar hyn o bryd, bydd cyfle i addasu'r cymhellion sydd ar gael i berchenogion tir er mwyn eu hannog i greu mwy o goetir.

Mae rhywfaint o hyblygrwydd o dan y senario hon i deilwra cynlluniau tebyg i'r cynlluniau datblygu gwledig presennol fel y bo modd mynd ati mewn ffordd fwy effeithiol i wireddu'r polisïau rheoli adnoddau naturiol a datgarboneiddio sydd gennym yma yng Nghymru. Yn achos coedwigaeth, mae'n bosibl y byddai modd gwneud hynny drwy gynnig cymhellion i greu coedwigoedd cynaliadwy a choetir ar ffermydd. Gallai hynny, er enghraifft, helpu i gyrraedd cyllidebau carbon.

## Masnach rydd amlochrog

- Bydd y berthynas fasnachu a'r cyfraddau cyfnewid arian a welir yn y pen draw gyda'r UE a gweddill y byd yn cael dylanwad mawr ar lwyddiant neu fethiant y diwydiannau hynny yng Nghymru sy'n gysylltiedig â choedwigaeth. Bydd gan FTAs yn y dyfodol y potensial i effeithio ar sut y bydd y farchnad bren ddomestig yn newid.
- Mae cynhyrchion pren yn allforion sydd o bwys mawr i Ganada ac UDA. Mae'r UE hefyd yn



allforiwr o bwys ond mae prisiau yn y DU wedi codi dros y 3 blynedd diwethaf yn olynol. Mae pren yn nwydd sydd ar gael ledled y byd felly nid yw FTAs unigol yn debygol o arwain at newidiadau syml i werth pren a chynhyrchion pren ar lefel fyd-eang, ac felly at newidiadau i'w gwerth yn lleol. Mae mwy o gyflenwad mewn un man yn creu mwy o alw yn rhywle arall, sy'n golygu nad yw prisiau'n newid. Wedi dweud hynny, mae'r galw byd-eang am bren yn debygol o godi yn y dyfodol oherwydd y bydd mwy o alw mewn gwledydd fel Tsieina ac India. Mae hynny'n debygol o roi pwysau ar brisiau ledled y byd yn y tymor canolig.

- Rydym yn llai tebygol o weld tirfeddianwyr yn cefnu ar goedwigoedd, oherwydd unwaith y bydd safle wedi ymsefydlu, bydd ei werth cyfalaf yn parhau i godi bob blwyddyn tan i'r coed gael eu cynaeafu. Gellir rheoli hynny mewn modd sy'n talu ffordd mewn coedwigoedd. Os bydd gostyngiad mawr ym mhrisiau pren a chynhyrchion coedwigoedd, mae'n bosibl y gwelwn na fydd perchenogion coedwigoedd yn rheoli (teneuo) eu coedwigoedd ac y byddant, yn lle hynny, yn dibynnu ar gwympo'r cyfan pan fydd modd eu gwerthu am y pris gorau, beth bynnag eu hoedran.

### Goblygiadau amgylcheddol

A bwrw bod modd cadw'r un arwynebedd o goetir ag ar hyn o bryd, mae coedwigoedd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau. Ceir crynodeb o'r werth y gwasanaethau hynny yn y tabl isod. Maent, felly, yn hynod bwysig i economi Cymru, a byddant yn parhau'n bwysig iawn ar ôl inni ymadael â'r UE.

| | **Gwerth blynyddol y "gwasanaeth"** | **Gwerth presennol net y gwasanaethau hyn dros 50 mlynedd** |
|---|---|---|
| Cynaeafu pren* | £28.3 miliwn | £690 miliwn |
| Dal a storio carbon** | £108 miliwn | £3900 miliwn |
| Hamdden*** | £84 miliwn | £2100 miliwn |
| Ansawdd aer**** | £285 miliwn | £11,200 miliwn |

* Dyma'r gwerth "fesul bonyn", h.y. heb gynnwys cynaeafu a chludo at y prosesydd sylfaenol. Dyma'r "enillion" a gaiff y sawl sy'n tyfu'r coed.


** Dyma faint y carbon a waredir gan y coed, yn flynyddol neu yn ôl y gwerth a roddir ar hyn o bryd ar waredu carbon am 50 mlynedd, wedi'i gyfuno â phris y carbon na fasnachwyd, a amcangyfrifir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

*** Ar sail argymhelliad newydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, amcangyfrifwyd gwerthoedd hamdden drwy ddefnyddio data ar wariant a ddarparwyd gan y rheini a ymatebodd i Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Data ar gyfer 2014 y'w diweddaraf sydd ar gael.

**** Based on a new ONS recommendation, recreation values were estimated using expenditure data reported by respondents to the Wales Outdoor Recreation Survey. Latest data available are for 2014.

***** Mae amcangyfrifon o ansawdd aer yn seiliedig ar ganllawiau DEFRA ar gost niwed i ansawdd aer. Fe'u cyfunir ag amcangyfrifon o allu coetir Cymru i amsugno deunydd gronynnol (PM10) a sylffwr deuocsid (SO2), yn ôl prisiau 2015. Gellir rhannu'r amcangyfrif yn ôl coed conwydd a llydanddail, yn ôl ardaloedd gwledig a threfol, ac maent ar gael ar gyfer y blynyddoedd 2011 i 2015.

# Bwyd a diod



Mae'r gadwyn cyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnwys cynhyrchu sylfaenol, gweithgynhyrchu, manwerthu, cyfanwerthu ac arlwyo dibreswyl:

- Roedd yn cyflogi 240,000 o bobl yn 2016.
- Roedd 27,575 o unedau busnes yn rhan ohoni yn 2016.
- Trosiant o £19.1 biliwn a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) o £4.5 biliwn (2015).
- Allforion gwerth £0.363 biliwn yn 2016.
- Iwerddon, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Gogledd America ac Asia oedd y 5 gwlad/rhan o'r byd yr allforiodd Cymru iddynt fwyaf.

Mae'r sector yng Nghymru yn cyfrif am:

- 18% o'r holl swyddi yng Nghymru
- 22% o'r holl unedau busnes yng Nghymru
- 18.4% o drosiant busnesau yng Nghymru nad ydynt yn rhai ariannol (cyfartaledd y DU yw 13.5%)
- 4.2% o drosiant sector bwyd a diod y DU.
- Mae'r rhan fwyaf (85%) o'r unedau busnes bwyd a diod yng Nghymru yn rhai micro sy'n cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 75 o fusnesau bwyd a diod yng Nghymru sy'n cyflogi mwy na 250 o bobl.

Mae prosesu bwyd a diod mewn mannau heblaw ar y fferm wedi bod yn thema sydd wedi codi dro ar ôl tro yn nhrafodaethau'r gweithgor. O ystyried pwysigrwydd y sector hwn a'r angen i greu rhagor o gapasiti prosesu ac i ychwanegu gwerth yng Nghymru, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i edrych ar y cyfleoedd a'r effeithiau posibl ar y gadwyn fwyd ehangach yn sgil Brexit.

## Negeseuon cyffredinol ar gyfer y sector gwledig ledled Cymru

Yr unig beth y gallwn fod yn siŵr amdano yw bod newid yn anochel. Mae angen inni, felly, greu marchnadoedd newydd, arloesol a chynaliadwy, gan ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

### Paratoi ar gyfer y newid

Ym mhob un o'r senarios, gallai maint y newid i sefyllfa economaidd busnesau yn y sectorau cynhyrchu sylfaenol ar y tir ac ar y môr fod yn sylweddol. Gallai'r newidiadau hynny gael effaith ddofn ar yr amgylchedd ac ar strwythurau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn y Gymru Wledig. Mae cryn berygl y bydd Brexit yn arwain at newidiadau cyflym na fyddant yn cael eu rheoli ac a fydd yn tarfu ar yr economi. Gallai'r newidiadau hyn effeithio'n andwyol ar gymunedau gwledig, ar strwythurau cymdeithasol, ac ar economi ac amgylchedd Cymru. Byddai hynny'n rhoi hyd yn oed fwy o bwysau ar ein hamgylchedd naturiol ac yn gwanhau'n hecosystemau.

Mae prisiau bwyd yn debygol o godi ym mhob un o'r senarios (ac eithrio'r senario masnachu unochrog di-dariff) ond bydd y cynnydd hwnnw'n cael ei sbarduno gan ffactorau gwahanol. Yn ymarferol, bydd hyn yn effeithio ar bobl a fydd yn prynu bwyd ac ar eu harferion bwyta, yn enwedig y bobl hynny sydd ar incwm is. Byddai'r effeithiau hynny hyd yn oed yn waeth pe bai Brexit yn rhoi mwy o bwysau economaidd arnynt. O dan senario masnachu di-dariff, er y gallai'r bwyd a fyddai'n dod i mewn i Brydain fod yn rhad, mae'n bosibl y byddai costau eraill yn rhan annatod ohono, er enghraifft, difrod i ecosystemau mewn gwledydd eraill, costau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid, ac effeithiau posibl ar iechyd pobl os bydd ansawdd bwyd o'r fath yn is am fod safonau'n is yn y gwledydd hynny.

Bydd yr hinsawdd yn un anodd i bob busnes ar ôl Brexit, a gallai'r effeithiau fod yn drychinebus i rai o'r sectorau o dan nifer o'r senarios. Mae ansicrwydd am y canlyniad terfynol yn golygu ei bod hefyd yn anodd cynllunio ar ei gyfer. Mae hynny'n golygu y bydd angen i fusnesau gynllunio ar gyfer amryw o senarios posibl. Er mwyn gwneud hynny, mae angen iddynt feithrin dealltwriaeth o'r cryfderau a'r gwendidau sydd ganddynt yn unigol ac ar y cyd, a dealltwriaeth fanwl hefyd o gostau ac allbynnau wrth iddynt baratoi ar gyfer y newid.

Bydd yn rhaid wrth gyfnod pontio er mwyn helpu busnesau a diwydiant i gyflwyno'r newidiadau y bydd eu hangen er mwyn addasu i'r sefyllfa a'r amodau masnachu newydd. Tan inni ddiffinio'n fframwaith deddfwriaethol a'n trefniadau cyllido ar gyfer y dyfodol, bydd yn anodd negodi cytundebau masnachu y tu allan i'r DU.

Mae'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE yn gyfle i sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yn dod yn rhan annatod o bopeth a wnawn yng Nghymru. Mae angen inni alluogi pobl yn y Gymru wledig i reoli ac i adfer yr amgylchedd naturiol er mwyn darparu'r gwasanaethau ecosystemau (y buddion y mae'n hadnoddau naturiol yn eu cynnig) y mae eu hangen ar ein cymdeithas, gan gynnwys bwyd cynaliadwy, pren, a gwella a rheoli'r amgylchedd.

Bydd angen arweinyddiaeth, cyfeiriad clir a sgiliau newydd ar gymunedau gwledig er mwyn addasu i'r newidiadau sydd ar droed.

Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i botensial a chwmpas "Brand Cymru", gan gysylltu'r brand â safonau a sicrwydd ansawdd. Gallai Cymru gynnig brand uchel ei werth a fyddai'n seiliedig ar safonau amgylcheddol uchel, ar safonau uchel o ran lles

anifeiliaid, ac ar reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae yna berygl y gallai cynhyrchwyr wynebu safonau uwch a chostau uwch, ond heb gynnydd cyfatebol yn y prisiau a fydd yn cael eu talu gan gwsmeriaid. Wrth ystyried y canlyniad posibl hwnnw, mae angen inni sicrhau na fydd unrhyw rwystrau rhag masnachu yn cael eu creu o fewn y DU. Mae angen inni hefyd osgoi’r risg y bydd gwaith cynhyrchu’n cael ei allforio i wledydd nad ydynt yn parchu hawliau dynol i’r un graddau â ni, a lle mae safonau iechyd a lles anifeiliaid, a safonau amgylcheddol, yn is. Byddai’r holl bethau hynny’n groes i’r egwyddorion sy’n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, a byddent hefyd yn arwain at safonau is ledled y byd.

## Heriau Penodol

- Mae maint y pwysau ar bob sector yn amrywio ar draws yr amryfal senarios. Mae’r posibilrwydd o golli marchnadoedd allforio yn yr UE, llai o gymorth i ardaloedd gwledig, tariffau posibl a/neu gystadleuaeth o bedwar ban byd, yn bygwth llawer iawn o fusnesau fferm – os nad y rhan fwyaf ohonynt. Y sector defaid fydd yn dioddef fwyaf yn wyneb bygythiadau o’r fath, ac mae’n debyg mai’r sector defaid mynydd fydd yn dioddef fwyaf oll.
- Pe bai’r sector pysgod cregyn yn colli’r marchnad sydd ganddo yn yr UE, ni fyddai’r diwydiant bellach yn un hyfyw, a byddai unrhyw rwystrau heblaw tariffau, sy’n ychwanegu at amseroedd dosbarthu, yn gryn risg o gofio pa mor gyflym y mae allforion o’r fath yn dirywio.
- Mae’r rhan fwyaf o fusnesau fferm yng Nghymru yn dibynnu’n drwm ar y taliadau cymorth y maent yn eu cael hyn o bryd. Bydd ffermydd sy’n cael taliadau o dan Golofn 1 a Cholofn 2 o’r PAC yn arbennig o agored i risg. Mae busnesau fferm sy’n dibynnu’n drwm ar yr incwm a geir drwy gynhyrchu cig eidion a defaid, ac sydd â lefelau uchel o ddyled, hefyd yn agored i risg.
- Gallai ansicrwydd yn y marchnadoedd yn y dyfodol ysgogi newidiadau mawr i’r modd y mae tir yn cael ei ddefnyddio. Gallai’r newidiadau hynny niweidio’r amgylchedd (cefnu ar dir neu ddwysáu defnydd ohono mewn ffordd nad yw’n gynaliadwy).
- Mae cyfyngiadau ar fewnfudo yn debygol o effeithio ar y sector prosesu bwyd oherwydd bydd prinder gweithwyr medrus gweithwyr heb sgiliau; gallai unrhyw brinder llafur beryglu dyfodol cyfleusterau prosesu yng Nghymru.
- Ar hyn o bryd, mae Cymru yn allforio llawer o’i chynhyrchion amaethyddol, ei chynhyrchion coedwigaeth a’i chynhyrchion môr i rannau eraill o’r DU yn ogystal ag i’r UE. Mae pysgod cregyn, llaeth, cig eidion, cig oen a dŵr i gyd yn gadael Cymru i gael eu prosesu gan eraill ac i ychwanegu gwerth atynt. Mae angen inni fynd ati gyda’n gilydd i ymdrechu i’r eithaf i wireddu gwir werth yr hyn sy’n cael ei gynhyrchu yng Nghymru.
- Bydd angen cyfuniad o reoleiddio doeth a chymhellion a fydd yn gallu mynd i’r afael â’r amrywiaeth eang o faterion sy’n debygol o ddod i’r amlwg ar ôl Brexit. Mae’r rhan fwyaf o’r materion hynny’n rhai hynod anodd eu rhagweld ac eithrio mewn ffordd gyffredinol iawn gan fod cryn ansicrwydd o hyd am y sefyllfa fasnachu yn y dyfodol. Nid yw’n glir o gwbl sut y bydd busnesau unigol ar draws y gadwyn gyflenwi’n ymateb.
- Er gwaethaf y fframwaith a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, mae yna risg na fydd yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i’r un graddau ar lefel y DU wrth i fusnesau ei chael yn anodd addasu i’r sefyllfa fasnachu ar ôl Brexit. Mae’n bosibl hefyd y bydd llai o gymorth ar gael oddi wrth y sector cyhoeddus i reoli tir mewn ffordd sy’n fwy buddiol i’r amgylchedd ar draws yr economi wledig. Bydd yn rhaid wrth gymorth ariannol i wireddu’r uchelgais o Reoli Adnoddau Naturiol yn

Gynaliadwy. Bydd gofyn buddsoddi o'r newydd mewn gwaith adfer yn ogystal â'r arferion rheoli presennol.

- Ar ôl Brexit, mae'n debyg y bydd sawl cyfle i ddatblygu modelau cyllido newydd a'u cyplysu â ffyrdd mwy hyblyg o reoli'r amgylchedd a fydd yn hoelio mwy o sylw ar ganlyniadau. Er mwyn datblygu'r ffyrdd newydd hyn o weithio, mae'n debygol y bydd gofyn i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ill dau fuddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau.

## Casgliadau ac argymhellion

Nid oedd cynnig syniadau ar sut i fanteisio ar y cyfleoedd ac i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit yn rhan o gylch gwaith yr Is-grŵp. Er hynny, roedd yn anochel ein bod yn cyffwrdd ar y materion hynny wrth drafod. Wrth inni gau pen y mwdwl, rydym wedi cyflwyno rhai o'r materion a'r syniadau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau. Nid yw'n hadroddiad yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r materion hynny, ond mae aelodau'r Grŵp yn awyddus iddynt gael eu datblygu a'u trafod ymhellach. Mae'n debyg mai rhai o Is-grwpiau eraill y Ford Gron fydd yn gwneud hynny yn bennaf..

- Dylai fod cysylltiad clir rhwng yn holl ymyriadau a'r penderfyniadau buddsoddi, a'r weledigaeth ar gyfer Cymru a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

- Mae angen defnyddio'n dychymyg. Ni ddylem ofni newid prosesau sy'n bodoli eisoes a dylem anelu at weithio mewn ffyrdd mwy arloesol a chydgysylltiedig.

- Mae angen ystyried y rôl y gall cyllid cyhoeddus ei chwarae wrth sicrhau bod cynifer o nwyddau cyhoeddus ag y bo modd yn cael eu cyflenwi. Mae'r cysyniad o "fethiant y farchnad" yn berthnasol ar hyn o bryd i amrywiaeth eang o'r gwasanaethau amgylcheddol a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol. O'r herwydd, byddai'r gwasanaethau hynny dan fygythiad pe bai'r ecosystemau sy'n helpu i'w darparu yn dirywio yn yr hirdymor.

- Mae gan y sector amaethyddiaeth yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae o ran bwydo pobl Cymru a chyfrannu at ddiogelu'r cyflenwad bwyd ledled y byd, yn awr ac yn y dyfodol. A dweud y gwir, mae cyfrifoldeb arno i wneud hynny. Bydd angen parhau i fuddsoddi er mwyn cynnal potensial amaethyddiaeth yng Nghymru i gynhyrchu.

- Byddai cynnal dadansoddiad manylach o effeithiau uniongyrchol (neu eilaidd) y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn syth ar ôl Brexit yn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar y risgiau a'r cyfleoedd allweddol a fydd yn codi mewn meysydd fel yr amgylchedd, iechyd anifeiliaid, ac mewn cymunedau gwledig ac arfordirol.

- Mae'n bwysig ein bod yn mynd ati i ymchwilio'n drylwyr i effaith yr holl newidiadau polisi ac ymyriadau ar fusnesau ac ar gadwyni cyflenwi. Bydd gofyn inni hefyd fodelu'r effaith honno i'r graddau mwyaf posibl. Bydd hynny'n helpu i leihau'r risg y bydd dyheadau da eu bwriad yn arwain at ganlyniadau na ellir eu rhagweld ac at ganlyniadau andwyol.

- Bydd llawer o'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n debygol o gael eu gweld ar ôl Brexit yn dod i'r amlwg mewn ffyrdd gwahanol ledled Cymru. Byddai'n fuddiol dadansoddi mwy ar effeithiau gofodol Brexit fel y bo modd addasu ymyriadau polisi er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

- Mae'n debyg y bydd hyd yn oed fwy o bwysau ar gyllidebau yn y dyfodol, felly bydd angen creu rhaglen gydgysylltiedig o ymyriadau a fydd yn creu budd mewn mwy nag un ffordd.

- Dylid datblygu cysyniad Brand Cymru mewn ffordd a fydd yn ei wneud yn berthnasol i fwy na chynhyrchion bwyd yn unig. Er mwyn datblygu brand a fydd yn cwmpasu'r holl gynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru, bydd yn rhaid datblygu'r weledigaeth a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Bydd buddsoddi mewn pobl ac mewn sgiliau yn ein helpu i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac yn ategu'r buddion a ddarperir gan wasanaethau ecosystemau. Mae angen cysylltu buddsoddiad o'r fath â'r gwaith o ddatblygu Brand Cymru ac ag unrhyw farchnadoedd a ddaw i'r amlwg ym maes gwasanaethau ecosystemau.

- Mae angen i'r holl ymyriadau fod yn ddigon hyblyg i ymateb yn gyflym os yw'n ymddangos y bydd canlyniadau Brexit yn bygwth sectorau sy'n arbennig o agored i niwed neu'n arwain at sgil-effeithiau niweidiol i'r amgylchedd, i iechyd anifeiliaid a/neu i gymunedau gwledig.

- Bydd yn rhaid wrth amrywiaeth o drefniadau cymorth, ynghyd â chyfnod pontio digon hir i ganiatáu i fusnesau a phobl addasu i newidiadau a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol.

- Gellir cynnig cymorth i fusnesau mewn amryfal ffyrdd, gan gynnwys asesu busnesau, targedu buddsoddiad, a chymorth i arloesi ac i arallgyfeirio er mwyn gwneud busnesau'n fwy cydnerth a chystadleuol.

- Bydd angen buddsoddi mewn seilwaith, arloesi a phrosesu er mwyn datblygu cynhyrchion newydd ac 'ychwanegu gwerth' at gynhyrchu sylfaenol yng Nghymru. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod gennym yr amrywiaeth briodol o gynhyrchion i'w cynnig i'r farchnad ar ôl Brexit.

- Bydd yn rhaid wrth gymorth wedi'i dargedu er mwyn annog mwy o feincnodi yn y sector amaethyddiaeth, y sector prosesu bwyd, a'r sector cynhyrchu a phrosesu pren, ac er mwyn eu hannog i wella'u perfformiad.

# Atodiad 1

### Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig – Yr Is-weithgor Tystiolaeth a Senarios

Sefydlodd Grŵp Bord Gron Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyfres o grwpiau thematig a thrawsbynciol i fynd ati i ddatblygu safbwynt negodi ar ymadael â'r UE ac i lywio'r polisïau a'r camau gweithredu a fydd yn gwireddu'r weledigaeth o'r hyn yr hoffem ei weld yng Nghymru ym maes yr amgylchedd a materion gwledig. Mae'r Is-weithgor Tystiolaeth a Senarios yn un o'r grwpiau hynny.

### Cwmpas y gweithgor

O ystyried maint y newid a ragwelir, mae dirfawr angen tystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau. Yn achos sawl rhan o'r portffolio, bydd gofyn mynd ati i gasglu tystiolaeth, sy'n rhywbeth nad oedd angen ei wneud yn y gorffennol. Oherwydd yr heriau sy'n rhan annatod o ymadael â'r UE, mae angen ailasesu ac ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a'i defnyddio mewn ffyrdd gwahanol i lywio'r cyfeiriad y byddwn yn ei bennu at y dyfodol. Cafodd y grŵp hwn ei gynnull i helpu Ysgrifennydd y Cabinet a Swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gynnig arbenigedd ac arweinyddiaeth wrth iddynt fynd ati i:

- Asesu goblygiadau'r senarios gwahanol a allai fod yn ganlyniad i Brexit;
- Helpu i gadarnhau a yw'r dystiolaeth bresennol yn ddibynadwy ai peidio, nodi bylchau yn y dystiolaeth a chanfod ffynonellau posibl o dystiolaeth a allai lenwi'r bylchau hynny.

### Aelodaeth y grŵp

Llywodraeth Cymru sy'n darparu Cadeirydd yr Is-weithgor Tystiolaeth a Senarios a'r Ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer. Dyma rai o'r aelodau eraill:

- Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
- Aelod ar ran y Fframwaith ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid yng Nghymru
- Cymdeithas y Tirfeddianwyr
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Hybu Cig Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar – Cymru
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
- Bu arbenigwyr technegol yn cyfrannu hefyd yn ôl y gofyn.

# Atodiad 2

## Adroddiadau tystiolaeth

### FAPRI (Y Sefydliad Ymchwil Bwyd a Pholisi Amaethyddol): Effeithiau Cytundebau Masnach Gwahanol ar Amaethyddiaeth yn y DU ar ôl Brexit (Saesneg yn unig).

Mae FAPRI wedi llunio adroddiad[30] sy'n dadansoddi'r sectorau gan ddefnyddio Model y Sefydliad Ymchwil Bwyd a Pholisi Anaethyddol FAPRI-UK i ddadansoddi senarios penodol ac effeithiau economaidd posibl a gaiff cytundebau masnachu gwahanol ar Amaethyddiaeth yn y DU ar ôl Brexit. Aed ati i fodelu tair senario – y bwriad oedd cynnal asesiad eang a fyddai'n dangos hyd a lled tebygol yr effeithiau posibl y byddai trefniadau masnachu damcaniaethol gwahanol yn eu cael. Ni fwriadwyd i'r senarios, o reidrwydd, adlewyrchu canlyniadau mwyaf tebygol y trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Yn benodol, mae'r senarios yn adlewyrchu:

(i) Cytundeb Masnach Rydd (FTA) pwrpasol gyda'r UE

(ii) Tariffau arferol Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar gyfer gwledydd â statws Cenedl a Ffefrir Fwyaf (MFN) .

(iii) Un ochr yn unig yn llacio cyfyngiadau ar fasnach.

### Adroddiad AHDB (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth): 'Senarios Brexit: asesiad effaith' (Saesneg yn unig)

Cafodd adroddiad 'Brexit Scenarios: an impact assessment'[31] a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ei gomisiynu gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), sy'n cael ei gynrychioli ar y Gweithgor Tystiolaeth a Senarios. Lluniwyd yr adroddiad gan ddefnyddio modelau'n seiliedig ar Ddata Busnesau Fferm yn Lloegr.

Er i'r adroddiad gael ei lunio gan ddefnyddio modelau'n seiliedig ar Ddata Busnesau Fferm yn Lloegr, mae'n rhoi inni gipolwg pwysig sy'n berthnasol i'r diwydiant yng Nghymru, yn enwedig i sectorau amaethyddol pwysicaf Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adroddiad pellach a fydd yn modelu Data o Arolwg Cymru o Fusnesau Fferm er mwyn cynnal dadansoddiad mwy perthnasol i Gymru. Disgwylir i'r adroddiad hwnnw fod yn barod yn gynnar yn 2018.

Mae adroddiadau FAPRI ac AHDB ill dau yn cadarnhau'r effeithiau y disgwylir i senarios Brexit gwahanol eu cael ar sectorau amaethyddol allweddol, fel y'u trafodir yn y ddogfen hon. Maent hefyd yn amcangyfrif maint yr effeithiau hynny: rhywbeth a ddylai fod yn destun pryder penodol i'r rheini sy'n llunio polisi yng Nghymru.

### RSPB (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar)

Comisiynodd yr RSPB adroddiad oddi wrth Cumulus Consultants, The potential impacts of Brexit for farmers and farmland wildlife in the UK.[32]

Mae'r adroddiad yn ystyried senarios Brexit, gan edrych ar ffactorau newidiol o ran cysylltiadau masnachu, rheoleiddio, cyllido a pholisi. Mae'n ystyried yr effeithiau posibl ar incwm ffermydd ac ar fywyd gwyllt ar ffermydd. Nid yw'r adroddiad yn un cynhwysfawr oherwydd dim ond 4 math o fferm y mae'n ei hystyried: cnydau grawn, ffermydd cymysg, ffermydd ar lawr gwlad a ffermydd da byw mewn Ardaloedd Llai Ffafriol. Mae pob un o'r senarios a'r mathau o ffermydd a fodelir yn dangos y bydd

---

[30] https://www.afbini.gov.uk/sites/afbini.gov.uk/files/publications/FAPRI-UK%20Brexit%20Report%20-%20FINAL%20Clean.pdf

[31] https://ahdb.org.uk/brexit/brexitpublications.aspx

[32] http://www.cumulus-consultants.co.uk/documents/The-potential-impacts-of-Brexit-for-farmers-and-farmland-wildlife-in-UK-23.10.17.pdf

incwm busnesau fferm yn gostwng ym mhob un o weinyddiaethau'r DU ar ôl Brexit.

Caiff Cymru ei hystyried ar wahân (adran 5.2, tudalennau 64-69), er mai dim ond digon o data i ystyried ffermydd ar lawr gwlad a ffermydd da byw mewn Ardaloedd Llai Ffafriol oedd ar gael. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad y gallai fod effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth, ar bridd ac ar ddŵr os bydd pori dwysach. Byddai ymateb ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafriol yn amrywio, felly byddai'r effeithiau'n amrywio hefyd, gan ddibynnu a fyddai'r fferm yn dwysáu neu'n lleihau dwysedd stocio. Byddai'r naill ymateb a'r llall yn arwain at effeithiau da a drwg. .

### Goblygiadau Posibl ymadael â'r UE i amaethyddiaeth a'r amgylchedd gwledig yn y DU – Y Grŵp Polisi Defnydd Tir (Saesneg yn unig)

Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan y Grŵp Polisi Defnydd Tir[33] er mwyn cyfrannu at y drafodaeth ar gyfeiriad polisi ar gyfer y sector amaethyddiaeth yn y DU yn y dyfodol unwaith y byddai y tu allan i'r PAC. Edrychodd hefyd ar y goblygiadau i'r amgylchedd gwledig. Mae'r adroddiad yn amlinellu cyfres o senarios sy'n ystyried gwahanol lwybrau ar gyfer y sector amaethyddol yn y DU dros y deng mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r senarios yn fframwaith ar gyfer trafod rhai o'r risgiau a'r heriau allweddol a fydd yn wynebu'r amgylchedd. Mae'r adroddiad yn cloi drwy grynhoi goblygiadau'r canfyddiadau hyn i gyd-drafodaethau â'r UE ac i drafodaethau o fewn y DU yn y dyfodol, ac mae hefyd yn awgrymu pa gamau y dylid eu cymryd nesaf

[33] https://ieep.eu/uploads/articles/attachments/d7d7514a-49d9-4a12-bb26-dcba65e931ca/IEEP%20Brexit%20scenarios%20report%20-%20final%20280817.pdf?v=63671395644

# Atodiad 3

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ardal Masnach Rydd** | Mae'r fasnach o fewn grŵp o wledydd yn ddi-doll ond bod yr aelodau'n gosod eu tariffau eu hunain ar fewnforion o wledydd eraill. |
| **Ardaloedd Morol Gwarchodedig** | Darn o'r môr neu'r arfordir yw ardal forol warchodedig sy'n cael ei hamddiffyn o dan y gyfraith er mwyn gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau neu nodweddion naturiol eraill. Mae gan Gymru 132 ohonynt sy'n gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd. |
| **Bloc masnachu Mercosur** | Mae'r UE wedi bod yn negodi â bloc masnachu Mercosur, prif allforwyr De America, ers blynyddoedd lawer. Gweler: http://ec.europa.eu/trade/policy/countries-and-regions/regions/mercosur/ |
| **Blwch Glas** | Mathau o gymorth tebyg i'r hyn a geir o dan y Blwch Oren (gweler isod), ond gyda chyfyngiadau ar gynhyrchu neu amodau eraill i leihau'r graddau y gallant ystumio'r farchnad. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y mathau hyn o gymorth ar hyn o bryd. |
| **Blwch Gwyrdd** | Cymorth domestig y caniateir ei roi i amaethyddiaeth heb unrhyw gyfyngiadau arno oherwydd mai dim ond i'r graddau lleiaf posibl, os o gwbl, y mae'n ystumio'r farchnad. |
| **Blwch Oren** | Cymorth domestig i amaethyddiaeth yr ystyrir ei fod yn ystumio masnach ac y mae'n rhaid ymrwymo o'r herwydd i'w leihau. Caiff ei gyfrif yn dechnegol gan ddefnyddio'r "Dull Cyfanredol o Fesur Cymorth". |

| | |
|---|---|
| **Carwsel Eidion** | Mae carcasau cig eidion yn cael eu hallforio ac mae'r cig yn dod yn ôl ar gyfer ei brosesu ymhellach. |
| **Cenedl a Ffefrir Fwyaf** | Statws cenedl a ffefrir fwyaf (Erthygl I GATT, Erthygl II GATS ac Erthygl 4 TRIPS). Yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu rhwng partneriaid masnachu. Codir yr un tariff ar bob gwlad y masnachir â hi. |
| **Cwotáu Tariff (TRQ)** | Caiff cwota mewnforio ei bennu ar gyfer cynnyrch. Pan fo mwy na'r cwota hwnnw'n cael ei fewnforio, codir tariff yn ôl cyfradd a bennir gan Sefydliad Masnach y Byd. |
| **Cydbwysedd carcasau** | Bu tuedd mewn marchnadoedd domestig ac allforio yn y 10-15 mlynedd diwethaf yn erbyn prynu carcasau cyfan o blaid toriadau penodol ac mae'r duedd hon yn parhau. Yn 2015, cafodd dros draean o'r allforion cig defaid o'r DU eu hanfon mewn toriadau, o'u cymharu ag 13% yn 2005. Y rhesymau am y newid yw bod yn well gan bobl brynu toriadau parod, yr angen i wneud y gorau o werth carcas, datblygiadau technegol a marchnadoedd newydd. Gall anghydbwysedd fod yn her i'r diwydiant, yn enwedig pan fydd marchnad yn ffafrio toriadau penodol. Er enghraifft, mae marchnad cig oen y DU yn ffafrio'r goes (gweler tabl 4), gan adael cyfran fawr o'r carcas i'w gwerthu i farchnadoedd eraill.<br><br>O ganlyniad, mae proseswyr yn wynebu'r broblem barhaus o geisio cydbwysedd yn y carcas oen, gyda thoriadau nad oes fawr o alw amdanynt yn y farchnad ddomestig yn cael eu gwerthu am bris disgownt sydd yn ei dro yn gostwng gwerth y carcas. Mae marchnadoedd allforio sy'n hoffi'r toriadau hyn, fel y llwyn, y chwarter blaen a'r pumed chwarter, yn hanfodol i sicrhau cydbwysedd yn y defnydd o'r carcas, gan gynyddu gwerth y carcas cyfan. Mae cydbwysedd carcas yn broblem i'r farchnad gyfan, ac nid i'r sector ŵyn yn unig. |
| **Cyfanswm y ddalfa a ganiateir** | Cyfanswm y ddalfa (neu gyfleoedd pysgota) a ganiateir (TAC) yw'r uchafswm y caniateir ei ddal (mewn tunelli neu niferoedd) o stoc bysgod fasnachol. Pennir y TACiau bob blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o stociau (bob dwy flynedd ar gyfer pysgod dŵr dwfn) gan Gyngor y Gweinidogion Pysgota. Ar gyfer stociau sy'n cael eu rhannu neu eu rheoli ar y cyd â gwledydd y tu allan i'r UE, cytunir ar y TAC gyda'r gwledydd hynny. |

| | |
|---|---|
| **Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY)** | Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) unrhyw stoc bysgod yw'r ddalfa flynyddol fwyaf posibl y gellir ei chynnal dros amser, gan gadw'r stoc at y lefel sy'n cynhyrchu'r twf mwyaf. Mae'r MSY yn cyfeirio at gydbwysedd damcaniaethol rhwng y stoc sy'n cael ei physgota a'r gweithgarwch pysgota. |
| **Cytundeb rhwng Gwladwriaethau Arfordirol** | Rhwng y DU a'r UE (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr) |
| **Dynodiadau Daearyddol** | Defnyddio enwau lleoedd (neu eiriau sy'n gysylltiedig â lle) i ddangos o le mae cynhyrchion yn dod (er enghraifft, "Champagne", "Tequila" neu "Roquefort") ac sydd hefyd yn dangos eu bod o ansawdd penodol, bod enw da iddynt neu fod ganddynt nodwedd arbennig oherwydd eu bod yn dod o'r lle hwnnw. |
| **Egwyddor Ragofalus (Yr)** | Disgrifiad yw'r egwyddor ragofalus o ffordd o fynd ati i lunio plisïau ac i wneud penderfyniadau pan nad oes sicrwydd gwyddonol llwyr. |
| **Fformiwla Barnett** | Fformiwla sy'n seiliedig ar boblogaeth ar gyfer penderfynu ar newidiadau i'r Grant Bloc a roddir i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Caiff maint grant bloc Cymru ei bennu ymlaen llaw am gyfnodau o dair blynedd (y cyfnodau adolygu gwariant) fel rhan o adolygiad gwariant Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn cael cyllid hefyd o Gronfeydd Strwythurol Ewrop, ond nid yw Fformiwla Barnett yn effeithio ar y cyllid sy'n dod o'r Cronfeydd hynny. http://gov.wales/docs/icffw/report/090708barnettfullen.pdf |
| **Gwlad Tarddiad** | Rheolau ar gyfer cadarnhau'r wlad y daw nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio ohoni ac i helpu i nodi'r rheini sydd â thollau isel neu ddim tollau o gwbl. |
| **Marchnad Sengl** | Cymdeithas o wledydd sy'n masnachu gyda'i gilydd heb unrhyw gyfyngiadau na thariffau. |

| | |
|---|---|
| **Mesurau glanweithiol ac iechyd planhigion** | Gellir cymryd mesurau glanweithiol ac iechyd planhigion i ddiogelu iechyd planhigion, anifeiliaid neu blanhigion mewn gwlad rhag y risg a ddaw drwy blaon planhigion (pryfed, bacteria, feirysau), adchwanegion, gweddillion (plaladdwyr a milfeddyginiaethau), halogion (metelau trwm), gwenwynau neu organebau sy'n achosi clefydau mewn bwyd, diodydd neu borthiant anifeiliaid, a chlefydau sy'n cael eu cario gan anifeiliaid. |
| **Milfeddygon Swyddogol** | Milfeddyg Swyddogol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio milfeddyg preifat sy'n gwneud gwaith ar ran un o wledydd yr UE. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn statudol ei natur (h.y. mae'n ofynnol o dan gyfraith gwlad) a'r pwrs cyhoeddus sydd fel arfer yn talu amdano. |
| **Nwyddau Cyhoeddus** | Nwydd cyhoeddus yw nwydd na ellir atal neb rhag ei ddefnyddio ac sydd hefyd ar gael i'w ddefnyddio gan bawb, hynny yw, nid yw'r ffaith bod un unigolyn yn ei ddefnyddio yn golygu nad yw ar gael i eraill. Mae nwyddau cyhoeddus yn cynnwys: awyr iach, gwybodaeth, ystadegau cyhoeddus, diogelwch cenedlaethol, iaith neu ieithoedd cyffredin, systemau rheoli llifogydd. |
| **PAWS** | Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, sef safleoedd coetir hynafol lle mae planhigfa yn lle'r coetir lled-naturiol. Dangoswyd diddordeb mewn dod o hyd i safleoedd o'r fath sydd o dan goed conwydd ar hyn o bryd a'u troi'n ôl yn safleoedd ac arnynt rywogaethau brodorol o goed. |
| **Pumed Chwarter** | Rhannau o'r anifail nad ydyn nhw'n rhan o'r carcas, er enghraifft offal, pen, crwyn. |
| **Ransio** | Nid oes unrhyw ddiffiniad. Defnyddiwyd y term yn y papur hwn wrth gyfeirio at ffermydd da byw mwy o faint lle mae llai o reolaeth anuniogyrchol ar y stoc. Gall arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y lefel stocio (nifer y da byw fesul uned o arwynebedd). |

| | |
|---|---|
| **Rhwystrau rhag Masnachu (tariffau a rhwystrau heblaw** | Rhwystrau heblaw tariffau – ffordd o gyfyngu ar fasnach drwy ddefnyddio rhwystrau o fath gwahanol i dariff. Yn eu plith y mae cwotáu, embargos, sancsiynau, ardollau a chyfyngiadau eraill. Maen nhw'n cael eu cyflwyno fel arfer i amddiffyn y farchnad ddomestig. |
| **Rhywogaeth Oresgynnol Estron (INNS)** | Anifail neu blanhigyn o ran arall o'r byd yw rhywogaeth oresgynnol estron sy'n gallu niweidio'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd neu'n ffordd o fyw. |
| **Sefydliad Masnach y Byd** | Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yw'r unig sefydliad rhyngwladol byd-eang sy'n ymdrin â'r rheolau masnachu rhwng gwledydd. Yr hyn sy'n ganolog i'w waith yw cytundebau'r WTO, sy'n cael eu negodi a'u trafod gyda'r rhan fwyaf o'r gwledydd yn y byd sy'n masnachu, ac sy'n cael eu cadarnhau gan seneddau'r gwledydd hynny. Y nod yw helpu cynhyrchwyr nwyddau a gwasanaethau, ac allforwyr a mewnforwyr i gynnal eu busnes. https://www.wto.org/english/thewto_e/whatis_e/whatis_e.htm |
| **SMNR** | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy https://naturalresources.wales/media/678318/introducing-smnr-booklet-welsh.pdf |
| **SoNaRR** | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy |
| **System Hysbysu am Glefydau Anifeiliaid (ADNS)** | System hysbysu yw'r ADNS ar gyfer cofrestru a dogfennu'r ffordd y mae clefyd anifeiliaid heintus pwysig yn esblygu mewn sefyllfa benodol. Mae'n erfyn rheoli sy'n darparu negeseuon rhybuddio yn ogystal â gwybodaeth fanwl am achosion o'r clefydau anifeiliaid hyn yn y gwledydd sy'n gysylltiedig â'r achos. Mae hyn yn golygu bod modd cael gwybodaeth am achosion o glefydau heintus i anifeiliaid a bod system rhybuddio cynnar yn cael ei gweithredu er mwyn gallu ymateb ar fyrder er mwyn rheoli sefyllfa epidemiolegol. Caiff hyn effaith uniongyrchol ar y fasnach mewn anifeiliaid byw a'u cynnyrch, hynny yn y farchnad fewnol yn ogystal â'r farchnad ryngwladol â thrydydd gwledydd. |

| | |
|---|---|
| **Taliadau am wasanaethau ecosystemau (TWE)**<br>**Payments for ecosystem services (PES)** | Cymhellion ariannol yw'r taliadau am wasanaethau ecosystemau, neu wasanaethau (neu fuddiannau) amgylcheddol fel y'u gelwir hefyd, a delir i ffermwyr neu berchenogion tir yn gyfnewid am reoli'u tir i ddarparu gwasanaeth ecolegol. |
| **Tariff Ad Valorem** | Amcangyfrif o dariff (e.e. doleri'r dunnell) fel canran – y swm cyfatebol ad valorem (AVE) |
| **Tariff Cenedl a Ffefrir Fwyaf** | Y tariff arferol, nad yw'n gwahaniaethu rhwng gwledydd, a godir ar fewnoforion (nid yw'n cynnwys tariffau ffafraethol o dan gytundebau masnach rydd neu gytundebau neu dariffau eraill o fewn cwotâu). |
| **Undeb Tollau** | Mae aelodau Undeb Tollau yn defnyddio tariff cyffredin wrth fasnachu â gwledydd eraill (e.e. yr Undeb Ewropeaidd). |
| **Ymrannu'n Segmentau** | Bydd cadwyni cyflenwi'n newid ac yn canolbwyntio ar farchnadoedd cartref neu ar allforio. Mae'n bosibl y bydd tariffau'n annog busnesau i symud gwaith prosesu bwyd i'r wlad neu'r bloc masnachu lle mae'r cynnyrch yn cael ei fwyta. |